# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Mawrth, 31 Hydref 2023

Lisa Evans

Dwynwen Jones

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Llun, 6 Tachwedd 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
   **Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

3. **Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion a gynhaliwyd ar 4 Medi 2023 (Tudalennau 3 - 10)**

4. **Adroddiad Diogelu Gr?p Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS - Chwarter 1 2023/24 (Tudalennau 11 - 60)**

5. **Adroddiad Hunanasesu 2022/23 (Tudalennau 61 - 126)**

6. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 127 - 138)**

7. **Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft (Tudalennau 139 - 158)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **6 Tachwedd 2023** |
| **Teitl:** | Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion a gynhaliwyd ar 4 Medi 2023 |
| **Diben yr adroddiad:** | Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar y penderfyniadau a wnaed neu'r camau gweithredu a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. |

**Y rheswm pam fod y Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**
Gan mai'r pwyllgor hwn yw'r Pwyllgor Craffu a ddynodwyd i gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y BGC.

**Cefndir**
O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae angen i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

**Y Sefyllfa Bresennol**

**COFNODION DRAFFT CYFARFOD BGC CEREDIGION A GYNHALIWYD AR 4 MEDI 2023**

Cyflwynir cofnodion drafft cyfarfod BGC Ceredigion a gynhaliwyd ar 4 Medi 2023 i'r Pwyllgor, ac maent i'w gweld yn **Atodiad 1**.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**
Naddo, oherwydd nid yw'r adroddiad yn cyfeirio at newid polisi neu wasanaeth.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:**
**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**
**Integreiddio:**

**Argymhelliad:**

i. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod BGC Ceredigion a gynhaliwyd ar 4 Medi 2023.

**Y rheswm dros y penderfyniad:**
Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y BGC.

**Enw Cyswllt:** Timothy Bray

**Swydd:** Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl

**Dyddiad yr Adroddiad:** 6 Tachwedd 2023

**Acronymau:** Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru•Love Ceredigion

**Cyfarfod 36**
**4 Medi 2023**
**Cyfarfod Rhithiol dros Zoom**

**COFNODION**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Cadeirydd, CAVO |
| Gavin Bown (GB) | Is-gadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Gillian Perry (GP) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Y Cynghorydd Bryan Davies (BD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Barry Rees (BR) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Rhodri Llwyd Morgan (RLM) | Prifysgol Aberystwyth |
| Vanessa Cashmore (VC) | Coleg Ceredigion |
| Dr Ardiana Gjini (AG) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Aled Griffiths (AlG) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Andrew Cornish (AC) | Coleg Ceredigion |
| George Holloway (GH) | Un Llais Cymru |
| Gwilym Dyfri Jones (GDJ) | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Bailie Olivia-Jones (BOJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Amy Richmond-Jones (ARJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Greg Jones (GJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Wyn Evans (WE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Cathryn Morgan (CM) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Rhian Rees (RhR) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Dr Tom Porter (TP) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Carys Morgan (CM) | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Tîm Cymorth:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Tim Bray (TB) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Lynne Walter (LW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Sara Dafydd (SD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Anwen Thomas (AT) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Teleri Elias (TE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Llinos Williams (LlW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Carwyn Williams (CW) | Cyngor Sir Ceredigion |

| **36.1** | **Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datganiadau o fuddiant**<br>**Cofnodion cyfarfod diwethaf Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Ceredigion – 16 Mehefin 2023** |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd, Hazel Lloyd-Lubran (HLL), bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

DRAFT

**Ymddiheuriadau:**
Iwan Cray, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Y Cynghorydd Catrin Davies, Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Matthew Vaux, Cyngor Sir Ceredigion
Christine Harley, Gwasanaeth Prawf
Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion
Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cynghorydd John Davies, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Uwch-arolygydd Steve Davies, Heddlu Dyfed Powys
Claire Bryant, Heddlu Dyfed Powys

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16.06.2023 yn gywir.

## 36.2 Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf

Nododd Diana Davies (DD) a Tim Bray (TB) y datblygiadau isod parthed y camau gweithredu blaenorol:

| Cam Gweithredu | Diweddariad |
|---|---|
| Byddai Joanna Dainton (JD) a TB yn rhannu'r ymgynghoriad ynghylch Cynllun Gwella Iechyd a Llesiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) ag aelodau'r BGC pan fyddai'r drafft terfynol yn barod. | **Parhau:** Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei rannu cyn y cyfarfod nesaf. |
| Byddai HLL, DD a TB yn adolygu rhestr aelodaeth y BGC o fewn y Cylch Gorchwyl. | Cafwyd adolygiad o'r aelodaeth fel rhan o'r broses o ryddhau papurau cyfarfod y BGC.<br>**Parhau:** Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu yn dilyn cwblhad y Cynllun Cyflawni a Llywodraethu. |
| Dylai'r holl bartneriaid ddarparu adborth ynghylch y cynllun cyflawni drafft erbyn 26.06.2023. | **Wedi'i gwblhau:** Rhagor o fanylion ag adborth i'w casglu yn ystod y gweithdai (manylion pellach fel rhan o eitem 36.4). |
| Byddai Tîm Partneriaethau CSC yn trefnu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i lenwi mwy o'r fframwaith cyflawni. | **Wedi'i gwblhau**: Tasg ddiwygiedig – Bellach yn rhan o'r gweithdai Cyflawni. Mae paratoadau ar gyfer y gweithdai yn parhau ar gyfer tymor yr Hydref. |
| Byddai HLL a TB yn trafod â Rhian Rees (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ynghylch mynd i gyfarfod am Drafnidiaeth a Symudedd a drefnwyd gan Brifysgol Aberystwyth. | **Wedi'i gwblhau:** Ceir cyflwyniad ar Siarter Teithio Iach gan Rhian Rees a Dr Tom Porter yn ogystal fel rhan o'r cyfarfod hwn (eitem 36.7). |
| Byddai Iwan Davies yn rhannu'r ddolen ag Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pan fyddai gwefan 'Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar' yn fyw. | Mae'r ddogfen wedi bod trwy Brosesau Democrataidd Ceredigion ond mae bellach yn aros i Gabinet Cyngor Sir Penfro gyfarfod ar y 4ydd o Fedi.<br>**Parhau:** Y ddolen i'w rannu ar ôl cyfarfod Cabinet Sir Benfro. |
| Byddai Gavin Bown (GB) a Rachel Jarvis (RJ) yn rhannu diweddariad ysgrifenedig ynghylch cyfarfod Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio. | **Wedi'i gwblhau:** Mae cofnodion cyfarfod Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio a gynhaliwyd ar 18.07.23 bellach wedi'i llwytho i wefan y BGC. |

## 36.3 Llythyr ar y cyd i Fyrddiau Gwasanaethau Cyhoeddus – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Llywodraeth Cymru

Cyflwynodd HLL y llythyr ar y cyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i Fyrddiau Gwasanaethau Cyhoeddus. Nodir bod y llythyr yn cydnabod yr heriau mewn gwireddu'r ymrwymiadau o fewn Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a rhannwyd amlinelliad o'r cyngor a'r cyfleoedd bydd ar gael i'r Byrddau wrth symud ymlaen. Bu hefyd pwyslais ar cydweithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru wrth weithredu Cynllun.

| 36.4 | Diweddariad Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 – Trafodaeth Lansio a Gweithdai |
|---|---|

Yn y cyfarfod diwethaf ar 13 Mehefin 2023, gofynnwyd i'r aelodau ystyried y Fframwaith Cyflawni drafft gan gyfrannu awgrymiadau o ran blychau neu wybodaeth am fecanweithiau cyflawni sydd eisoes yn bodoli gyda mecanweithiau adrodd cadarn. Cynhaliwyd sesiwn briffio gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd newydd, lle cafwyd trafodaeth bellach ar y Cynllun Llesiant newydd, ac yn benodol y dyheadau o ran ei gyflawni. Cytunwyd bod angen blaenoriaethu ymhellach ar yr union dasgau y dylai gweithgareddau penodol y Bwrdd ganolbwyntio arnynt a'r modd y'u trefnir. Cytunwyd y byddai cynnig yn cael ei gyflwyno i'r BGC i gynnal pedwar gweithdy yn ystod tymor yr Hydref.

Nododd TB mae'r bwriad oedd i gynnal y gweithdai cyn cyfarfod nesaf y BGC ym mis Rhagfyr, fel bod modd adrodd yn ôl ar yr allbynnau yn ystod y cyfarfod hwnnw. Bydd pob gweithdy yn canolbwyntio'n benodol ar un amcan o'r Cynllun Llesiant 2023-2028, a'r tasgau sy'n gysylltiedig â nhw. Wrth ystyried hyn, cadarnhaodd TB fod Tîm Partneriaethau CSC wedi cysylltu â'r pedwar aelod o'r BGC canlynol sydd â dealltwriaeth eang a thrylwyr o'r materion sy'n ymwneud â'r amcanion unigol, gyda'r bwriad iddynt gytuno i hwyluso'r gweithdai.

| Amcan Cynllun Llesiant | Hwylusydd | Dyddiad |
|---|---|---|
| **Amcan 1:** Economi gynaliadwy. | I'w gadarnhau, Cyngor Sir Ceredigion | I'w gadarnhau |
| **Amcan 2:** Atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol. | Yr Athro Phil Kloer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 16 Hydref 2023 |
| **Amcan 3:** Cyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol. | Gillian Perry, Cyfoeth Naturiol Cymru | 23 Hydref 2023 |
| **Amcan 4:** Hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. | Dr Rhodri Llwyd-Morgan, Prifysgol Aberystwyth | 12 Hydref 2023 |

Nododd Barry Rees (BR) fod trafodaethau'n parhau o ran pwy byddai'r person priodol i arwain ar y gweithdy economaidd o'r Awdurdod. Holodd HLL i'r aelodau ystyried unrhyw enghreifftiau o arfer da o ran sut i gynnal y gweithdai er mwyn sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithiol o'r amser.

**Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i gylchredeg manylion y gweithdai, gan gynnwys y dyddiadau, i'r BGC.**

| 36.5 | Adroddiad Mynd i'r Afael a Chaledi |
|---|---|

Nododd Cathryn Morgan (CM) mae dyma'r adroddiad olaf ar y Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi 2020-2023. Ers Ebrill 2023, cytunwyd y byddai Is-Grŵp Tlodi'r BGC yn sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi yn cael ei gynnal fel mater trawsbynciol ar draws yr holl feysydd gwaith a wneir i gyflawni Cynllun Llesiant Lleol BGC Ceredigion 2023-28. Mae cynllun gwaith yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i helpu cyflawni hyn.

Mae'r adroddiad llawn ar gyfer y cyfnod Mawrth 2022 – Ebrill 2023 ar gael ar gwefan y Cyngor.

http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/partnerships/ceredigion-public-services-board/public-services-board-meetings/

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n 3 colofn: Costau Byw Hanfodol, Llesiant Corfforol ac Emosiynol a Chymunedau Cydnerth. Soniodd CM fod y data yn helpu llywio pa faterion sydd angen canolbwyntio arnynt. Dangosodd ffigyrau tlodi plant 2021-22 yng Ngheredigion ostyngiad o'u lefel uchel yn 2020-21. Serch hynny, roedd 30% o blant yng Ngheredigion yn byw mewn tlodi yn 2021-22. Nododd CM nad yw ffigurau 2022-23 ar gael eto, ond ei bod hi'n debyg bydd yna gynnydd yn y ffigyrau tlodi o ganlyniad i'r argyfwng costau byw.

Gyda'r gweithdai mewn golwg, pwysleisiodd HLL y pwysigrwydd o ystyried y thema trawsbynciol o fynd i'r afael â thlodi ymhob un o'r sesiynau, a mewn perthynas â phob tasg.

Nododd CM fod y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i Strategaeth Tlodi Plant i Gymru drafft Llywodraeth Cymru yn agosai ar 11 Medi. Cadarnhaodd Dr Ardiana Gjini (AG) fod ymateb yn cael ei baratoi ar ran BIPHDd, ac awgrymodd bod unrhyw strategaethau drafft yn y dyfodol yn cael ei ystyried gan y BGC ar y cyd. Nododd Alun Williams (AW) fod pob plentyn yn ysgol gynradd yn cael prydiau am ddim o'r flwyddyn hon ymlaen, ac mae Ceredigion yw'r sir cyntaf i wneud hyn yng Nghymru.

| **36.6** | **Adroddiad Mannau Croeso Cynnes** |
|---|---|

Rhoddodd HLL peth cefndir i'r Mannau Croeso hyd yma. Yn flaenorol, Cafwyd trafodaeth fel Bwrdd ynglŷn â chyfle i edrych ar ddatblygu Mannau Croeso ar draws Ceredigion fel ymateb i'r argyfwng costau byw. Cyhoeddwyd nifer o ddatganiadau i'r wasg er mwyn codi ymwybyddiaeth, ac annog cymunedau i ystyried, creu a chefnogi'r Mannau Croeso. Gwahoddwyd cymunedau i gyflwyno ceisiadau hyd at £1,000 i gefnogi Mannau Croeso ar draws Ceredigion, ag arweiniodd at dros 50 o Fannau Croeso ar draws y sir. Gellir gweld ble mae'r Mannau Croeso ar y map yma: https://dweudeichdweud.ceredigion.gov.uk/map-mannau-croeso-cynnes

Dysgwyd yn gynnar yn y project bod cynnal gweithgareddau'n llwyddiannus mewn denu pobl i'r Mannau Croeso. Penderfynwyd hefyd y byddant yn cael ei cyfeirio at fel Mannau Croeso wrth symud ymlaen. Nododd HLL bob peth pryder nad oedd y negeseuon yn cyrraedd pawb oedd mewn angen, a bod angen ystyried yr heriau sydd yn bodoli wrth geisio cyrraedd carfannau difreintiedig o fewn cymunedau.

Mae nifer o'r Mannau Croeso yn parhau i gynnal gweithgareddau ac yn awyddus i ddarparu'r Mannau y gaeaf yma eto. Nododd HLL y pwysigrwydd o sicrhau fod partneriaid fel y grŵp yma yn rhoi cefnogaeth, cysylltiadau a chyngor i fannau fel hyn. Mae llawer o wasanaethau wedi gwneud defnydd o'r mannau hyn, ac mae hefyd yn gyfle i ymgysylltu'n well gydag unigolion o'r gymuned. Mi fydd angen bod yn greadigol wrth gefnogi'r gwaith yma, gan ei fod hi'n annhebygol bydd cyllid ar gael gan y Llywodraeth eleni. Mae adroddiad cynhwysfawr i ddilyn, a bydd HLL yn rhannu copi gyda'r Bwrdd pan fydd wedi'i gwblhau.

**Cam Gweithredu: HLL i rannu'r adroddiad Mannau Croeso unwaith iddo gael ei gwblhau.**

| **36.7** | **Cyflwyniad Siarter Teithio Iach** |
|---|---|

Cyflwynodd Dr Tom Porter (TP) ei hun fel Ymgynghorydd i Iechyd y Cyhoedd. Cafodd y Bwrdd gyflwyniad ar y Siarter Teithio sydd wedi dechrau ers 2019 yng Nghaerdydd ar Fro, lle mae Llywodraeth Cymru yn awyddus bod hyn yn cael ei efelychu'n rhanbarthol. Nodwyd bod teithio wedi'i ddominyddu gan geir, a mae hyn yn cael effaith ar yr amgylchedd, iechyd a lles. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o leihau'r allyriadau trafnidiaeth yn yr 20 flwyddyn nesaf i ymateb i hyn. Roedd cydnabyddiaeth hefyd fod yr ymrwymiadau yn wahanol mewn ardaloedd gwledig a threfol, a bod hi'n bwysig fod unrhyw dasgau sy'n cael eu cytuno yn gyraeddadwy ond hefyd yn mynd i greu

gwahaniaeth.

Rhoddodd Rhian Rees (RhR) gyflwyniad ar Siarter Teithio Llesol Cymru. Mae'r cynnydd hyd yma'n cynnwys sefydlu grŵp strategaethol rhanbarthol gyda chynrychiolaeth gan Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Phowys, Awdurdodau Lleol Ceredigion, Caerfyrddin, Sir Benfro a Phowys a Phrifysgol Aberystwyth. Roedd hi'n amlwg o ystyried data Arolwg Cenedlaethol i Gymru 2022-23 fod pobol yn bryderus am Newid Hinsawdd. Bu hefyd ystyriaeth o ganlyniadau Arolwg Teithio Staff BIPHDd a gynhaliwyd yn ystod Haf 2023, lle daeth graddfa'r heriau hefyd i'r amlwg.

Mewn ymateb i ymholiad gan AG o ran ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r siarter yma, nododd TP fod y Strategaeth yn un uchelgeisiol ond mae'r fframwaith maent yn ei osod yn cyd-fynd a'r siarter a byddant yn ei chefnogi. Mi holodd AG pe bai data ar gael sy'n cofnodi damweiniau traffig ffyrdd a marwolaethau phlant ar draws ardaloedd gwahanol, a cadarnhaodd TP fod ganddo ddata ar hyn ac yn hapus i'w rannu. Bu trafodaeth yn ogystal o ran diogelwch beicwyr, a nododd TP bod nifer o arolygon yn cael eu cynnal yn flynyddol i wella'r canfyddiadau o ddiogelwch beicio ar ffyrdd. Roedd cefnogaeth brwd mewn arolwg diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i droi rhannau o ffyrdd Cymru yn lwybrau beicio, ond bu cydnabyddiaeth nad oedd hyn yn bosib ym mhobman. Nododd HLL fod ymateb y cyhoedd i'r canllawiau newydd 20mph wedi bod yn ddiddorol, ac awgrymodd dylid pwyslais ychwanegol wedi bod ar yr elfen o daclo llygredd aer oedd yn gysylltiedig â'r newid.

Cytunodd BR â chynnwys y ddau gyflwyniad, ond roedd yn cydnabod nifer o gyfyngiadau a heriau mewn ardaloedd gwledig megis costau darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus sydd wedi codi gymaint ayyb. Oherwydd y cyfyngiadau presennol, nododd BR mae nid trydan yw'r ateb berffaith yng Ngheredigion a bod hyn wedi'i godi gyda Llywodraeth Cymru eisoes. Awgrymodd BR bod angen i bartneriaid fod yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd yn bosib o fewn y sir (e.e. hydrogen gwyrdd), er mwyn galluogi trafodaethau pellach sy'n gynhwysfawr a gydag empathi at heriau yn y sir.
**Cam Gweithredu: TP i ddosbarthu gwybodaeth ynglŷn a'r data gwledig yn y maes yma.**

**Cam Gweithredu**: **Nododd HLL y dylai'r pwnc teithio llesol Cymru gael ei drafod ymhellach yn y gweithdai, lle awgrymodd dylai'r rhaglen waith edrych ar gynllun i weithredu yn y maes yn hytrach na strategaeth.**

Cwestiynodd Gillian Perry (GP) a oes gwledydd eraill neu fannau eraill ym Mhrydain gallwn edrych arnynt fel enghreifftiau o arfer da mewn ardaloedd gwledig. Soniodd fod gan yr Iseldiroedd agwedd hollol wahanol i feicwyr, gan gynnwys polisïau sy'n cefnogi beicwyr.

**Cam Gweithredu: Aelodau'r BGC i ystyried oblygiadau'r siarter ymhellach gan alw am gamau gweithredu yn ogystal â chytundeb ar oblygiadau ei hun.**

| | |
|---|---|
| **36.8** | **Diweddariad ar Prosiectau Peilot y Bwrdd**<br>**i. Aberystwyth Carbon Niwtral a Strategaeth Datgarboneiddio**<br>(Rachel Jarvis CNC)<br>**ii. Gwella lles cymunedol a mynd i'r afael â chaledi yn Aberteifi**<br>(Hazel Lloyd Lubran, CAVO)<br>**iii. Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan**<br>(Greg Jones, CSC) |

**i. Aberystwyth Carbon Niwtral a Strategaeth Datgarboneiddio**
Diolchodd HLL i Rachel Jarvis am ei ymroddiad fel Cadeirydd grŵp prosiect Aberystwyth Carbon Niwtral a Strategaeth Datgarboneiddio, a dymuno'n dda iddi ar ei secondiad. Croesawyd Gillian Perry (GP) yn ôl i'r BGC, ac fel Cadeirydd newydd i'r grŵp prosiect hwn. Yn y cyfarfod diwethaf, buodd y grŵp yn ystyried aelodaeth, mapio gwaith sydd eisoes yn digwydd, yn ogystal a thrafod yr argyfwng natur ac ystyried sut y gellir cysylltu hyn â'r agenda newid hinsawdd. Nodir hefyd bod peth cyllid wedi'i gymhwyso o grant Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i edrych ar liniaru

llifogydd o amgylch rheoli gwlypdiroedd.

i. **Gwella Lles Cymunedol a Mynd i'r Afael â Chaledi yn Aberteifi**

Nododd HLL ei fod ei rôl hi o fewn y grŵp wedi newid erbyn hyn ers cymryd rôl Cadeirydd y BGC, ond cytunwyd y byddai'n parhau i gadeirio am y tro nes bod Cadeirydd newydd wedi penodi ar gyfer grŵp prosiect Gwella Lles Cymunedol a Mynd i'r Afael â Chaledi yn Aberteifi. Nid yw'r grŵp wedi cwrdd ers cyfarfod diwethaf y BGC, ond yn gobeithio cael dyddiad i'r cyfarfod diwedd mis Hydref. Fel rhan o'r cyfarfod hwnnw, bydd trafodaeth yn cael ei gynnal gyda'r bwriad o benodi Cadeirydd newydd – Awgrymodd HLL byddai cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd yn addas ar gyfer y rôl.

**Cam Gweithredu: HLL i drafod gydag AG a'r Athro Phil Kloer (PhK) ynglŷn ag enwebi aelod o'r Bwrdd Iechyd i Gadeirio Grŵp Gwella Lles Cymunedol a Mynd i'r Afael â Chaledi yn Aberteifi.**

i. **Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan**

Cyflwynodd Greg Jones ei ddiweddariad cyntaf fel Cadeirydd grŵp prosiect Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan. Fel rhan o'r cyfarfod, bu cyflwyniad ar Adroddiad Sylfaen Llanbedr Pont Steffan a oedd yn amlinellu ffigurau caledi a thlodi ar gyfer yr ardal, diweddariad ar y Ganolfan Lles a hefyd diweddariad ar y gwaith Creu Newid Gyda'n Gilydd gan BIPHDd lle nodwyd mae Llanbedr Pont Steffan yw un o'r tri tref sy'n cael ei ffocysu arnynt ar draws y rhanbarth. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn y Ganolfan Lles er mwyn i'r grŵp gael gweld y safle.

**Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i rannu Adroddiad Sylfaenol Llanbedr Pont Steffan gyda'r BGC.**

| **36.9** | **Strategaeth Hybu'r Iaith Ceredigion : Adroddiad Cyflawniad dros gyfnod o 5 mlynedd 2018-23** |
|---|---|

Cyflwynodd Carys Morgan (CM) yr eitem hon. Fe sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar sefydliadau penodol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Mae Safon 145 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Sir i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg ac hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn yr ardal ehangach. Yn rhan o'r Strategaeth mae'n ofynnol gosod targed ar gyfer cynnal neu gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw.

Wrth adolygu cyrhaeddiad y Strategaeth Iaith hon mae'n bwysig cydnabod bod cynllunio iaith yn broses tymor hir, ac mae gweithredu er lles y Gymraeg yn cymryd amser i'w feithrin; fodd bynnag mae'r Cyngor yn teimlo'n hyderus bod y Strategaeth Iaith hon wedi gosod y seiliau cywir ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod 5 mlynedd nesaf.

**Cam Gweithredu: Galwodd HLL am unrhyw ystadegau neu tueddiadau buddiol byddai'n ddefnyddiol i'w hystyried fel rhan o'r gweithdy ar Amcan 4.**

| **36.10** | **Unrhyw fater arall** |
|---|---|

Cadarnhawyd gan TB fod Cydlynydd Data Rhanbarthol wedi'i benodi yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid gan Llywodraeth Cymru. Bydd y Cydlynydd Data yn dechrau ar ei swydd yn yr wythnosau nesaf, ac yn canolbwyntio ar system ddata Gorwel.

| **36.11** | **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:** |
|---|---|

4 Rhagfyr 2023 am 14:00-16:00

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

**Dyddiad y cyfarfod:** 6 Tachwedd 2023

**Teitl:** Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS – Chwarter 1 2023/24

**Diben yr adroddiad:** Monitro gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.

**Y rheswm pam fod y Pwyllgor Craffu wedi gofyn am yr wybodaeth:**
Er mwyn sicrhau bod aelodau'n monitro cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS.

**Cefndir**
Amgaeir Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 1 2023/24.

Adroddiadau rheoli amlasiantaethol yw'r rhain ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2023. Maent yn darparu gwybodaeth reoli ar y camau a gymerwyd o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'r Adroddiadau yn cynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod y wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn rhoi cyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol:

- Yn Chwarter 1, bu gostyngiad yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd yn ymwneud â phlant/pobl ifanc o'i gymharu â Chwarter 4, gyda 888 o gysylltiadau/adroddiadau wedi dod i law yn Chwarter 1 o'i gymharu â 1010 o gysylltiadau/adroddiadau wedi dod i law yn Chwarter 4.
- Bu gostyngiad hefyd yn nifer cyffredinol y cysylltiadau/adroddiadau a arweiniodd at angen cymryd camau o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant, gyda 172 yn Chwarter 1 o'i gymharu â 200 yn Chwarter 4.

- 19.4% oedd canran yr adroddiadau a aeth ymlaen i Drafodaeth Strategaeth yn Chwarter 1 o'i gymharu â 19.8% yn Chwarter 4. Yn Chwarter 1, aeth 8.8% o adroddiadau ymlaen i Ymchwiliad Adran 47 o'i gymharu ag 8.4% yn Chwarter 4, ac yna roedd angen i 0.7% fynd ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant o'i gymharu ag 1.6% yn Chwarter 4.
- Mae cyfanswm y plant a oedd yn destun Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn wedi gostwng, gyda 10 yn y chwarter hwn o'i gymharu â 23 yn chwarter 4, ac mae hyn yn cymharu â 35 yn Chwarter 3.
- Cyfanswm nifer y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn yn dilyn y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant oedd 10, o'i gymharu ag 20 yn Chwarter 4.
- Cyfanswm nifer y plant a gafodd eu tynnu oddi ar y gofrestr ar ôl Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn oedd 8 o'i gymharu â 15 yn Chwarter 4.
- Mae cyfanswm yr ymholiadau Adran 47 a gynhaliwyd wedi gostwng yn y chwarter hwn hefyd, gyda 78 yn cael eu cynnal yn y chwarter hwn o'i gymharu ag 85 yn Chwarter 4, cynhaliwyd 65 o'r ymholiadau hynny ar y cyd â'r Heddlu a chynhaliwyd 13 gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel un asiantaeth.
- Y prif gategori o gam-drin a arweiniodd at gynnal ymchwiliad Adran 47 yn chwarter 1 oedd cam-drin corfforol a cham-drin rhywiol a cham-fanteisio ar blant.
- Roedd 52 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd y chwarter hwn, ac roedd 52 ar ddiwedd Chwarter 4. Roedd 19 o blant wedi'u cofrestru o dan y categori cam-drin emosiynol/seicolegol yn y chwarter hwn, 26 o dan y categori esgeulustod, a 7 o dan y categori esgeulustod a cham-drin emosiynol/seicolegol.
- Y prif ffactorau risg ar gyfer y 52 o blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 30/06/23 oedd cam-drin domestig, iechyd meddwl rhieni, rhieni wedi gwahanu, a throseddau treisgar gan oedolion.
- O ran Diogelu Oedolion, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso, gyda 217 o oedolion mewn perygl wedi'u hadrodd yn y chwarter hwn o gymharu â 190 yn chwarter 4, sy'n adlewyrchu cynnydd yn yr adroddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf, chwarter wrth chwarter.
- Y categori cam-drin yr adroddwyd amdano fwyaf y chwarter hwn oedd esgeulustod (98) ac yna cam-drin emosiynol/seicolegol, gyda 91 o adroddiadau o oedolion mewn perygl lle dyma oedd y prif gategori o gam-drin, roedd 61 yn gysylltiedig â cham-drin corfforol, roedd 44 yn ymwneud â cham-drin ariannol ac 18 yn ymwneud â cham-drin rhywiol. Bu cynnydd yn nifer yr adroddiadau yn ymwneud ag esgeulustod ers y chwarter diwethaf.
- O'r adroddiadau a dderbyniwyd, mewn perthynas â phob categori o gam-drin, adroddwyd bod mwy o ddynion yn ddioddefwyr na menywod mewn perthynas â'r categori esgeulustod, ac roedd

mwy o ddynion yn ddioddefwyr cam-drin ariannol na menywod yn y chwarter hwn.

- Yn Chwarter 1, adroddwyd bod y rhan fwyaf o'r achosion o gam-drin/esgeulustod wedi digwydd yng nghartrefi pobl, a pherthynas/ffrind oedd y person a oedd yn dueddol o fod yn gyfrifol am y cam-drin/esgeulustod a adroddwyd.
- Asiantaeth ddarparu oedd prif ffynhonnell yr adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y chwarter hwn, a staff yr Awdurdod Lleol ac yna staff y Bwrdd Iechyd ac yna'r Heddlu yw'r prif asiantaethau sydd wedi adrodd am bryderon. Mae hyn yn cymharu â chwarter 4 lle darparodd yr Heddlu y rhan fwyaf o adroddiadau.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**
Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor:** Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol

**Cydweithio:** Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod.

**Cynnwys:** Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau, ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

**Atal:** Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu.

**Integreiddio:** Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt.

**Argymhelliad:**
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol.

**Y rheswm dros y penderfyniad:**
Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner.

**Enw Cyswllt:** Ricky Cooper

**Swydd:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)

**Dyddiad yr Adroddiad:** 28 Medi 2023

**Acronymau:**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION

## Adroddiad Rheoli Perfformiad

**Chwarter: 1**

**1.4.23 – 30.6.23**

| **CYNNWYS:** | **TUDALEN** |
|---|---|
| ADRAN 1:<br>Cyflwyniad | 3 |
| ADRAN 2:<br>Prif Ddata a Data Cymharol | 4 |
| ADRAN 3:<br>Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant | 6 |
| ADRAN 4:<br>Ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 | 8 |
| ADRAN 5:<br>Cynadleddau Amddiffyn Plant | 9 |
| ADRAN 6:<br>Y Gofrestr Amddiffyn Plant | 17 |
| ADRAN 7:<br>Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig | 19 |
| ADRAN 8:<br>Cyfarfodydd Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE) | 20 |
| ADRAN 9:<br>Yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC) | 21 |
| ADRAN 10:<br>Y Gwasanaethau Dysgu | 22 |
| ADRAN 11:<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 26 |
| ADRAN 12:<br>Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS) | 29 |
| ADRAN 13:<br>Diogelu Oedolion | 36 |

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD:

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2023. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod yr wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor yw effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion, a'r canlyniadau a gyflawnir.

Os oes gennych unrhyw sylw neu gwestiwn am yr adroddiad hwn, cysylltwch â:

Elizabeth Upcott
Rheolwr Corfforaethol: Diogelu
Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk
01545 574212

## ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol


| **Canlyniadau'r Atgyfeiriadau** | **Ebr-Meh 2023** | **Ion-Maw 2023** | **Hyd-Rhag 2022** | **Gor - Medi 2022** | **Ebr-Meh 2022** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiadau / Atgyfeiriadau'n arwain at Drafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant | 172 | 200 | 193 | 171 | 221 |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau trosglwyddo a chyn geni) | 6 | 15 | 16 | 7 | 5 |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant Cyn Geni | - | 1 | 1 | 2 | 4 |
| Nifer y Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant | - | - | 1 | 1 | - |
| Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant Cyn Geni | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys cynadleddau trosglwyddo a chyn geni)** | **6** | **16** | **18** | **10** | **9** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol / Cyn Geni / Trosglwyddo** | **10** | **23** | **35** | **21** | **13** |
| | | | | | |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau cyn geni a throsglwyddo) | 10 | 20 | 30 | 14 | 8 |
| Nifer y plant y bydd eu henwau'n cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | - | - | 1 | 2 | 4 |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | - | - | - | - | - |
| Nifer y plant y bydd eu henwau'n cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y plant â'u henwau wedi mynd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl Cynadleddau Cychwynnol** | **10** | **20** | **31** | **16** | **12** |
| Nifer y plant na roddwyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | - | 3 | 4 | 5 | 1 |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant | **20** | **32** | **17** | **16** | **19** |
| Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant Cyn Geni | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cyn Geni)** | **20** | **32** | **17** | **16** | **19** |
| Nifer y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu Amddiffyn | **28** | **51** | **39** | **26** | **43** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant y bydd eu henwau'n cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu / Cyn Geni** | **28** | **51** | **39** | **26** | **43** |
| **Cyfanswm y plant sy'n dal ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **20** | **36** | **11** | **13** | **29** |
| Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 8 | 15 | 28 | 13 | 14 |

## Dadansoddiad:


Bu gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at weithredu o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru yn ystod y chwarter hwn.
Cafodd 29% o'r plant a drafodwyd mewn cynadleddau adolygu eu dadgofrestru.


## ADRAN 3: Adroddiadau ac Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant:




## **Dadansoddiad:**

Daeth y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau oddi wrth yr Heddlu yn ystod y chwarter hwn; bu cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau oddi wrth ysgolion a bu ychydig o ostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Mewnol.







## Dadansoddiad:


Aberystwyth yn gyson yw'r ardal lle y ceir y nifer uchaf o atgyfeiriadau.

| **Dadansoddiad yn ôl % o Weithgarwch Diogelu Chwarter 1 2023 / 2024 (1 Ebrill – 30 Mehefin)** | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer yr holl Gysylltiadau Cychwynnol ynghylch plant. | | | |
| Atgyfeiriadau 888 | Trafodaethau Strategaeth 19.4% | Ymholiadau Adran 47 8.8% | Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant 0.7% |

Yn Chwarter 4, roedd 1010 o gysylltiadau / atgyfeiriadau ac o'r rhain aeth 19.8% ymlaen i Drafodaeth Strategaeth, aeth 8.4% ymlaen i Ymholiad Adran 47, ac aeth 1.6% ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.

## ADRAN 4: Ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47




**Dadansoddiad:**
Y pryderon pennaf a arweiniodd at gynnal ymholiadau amddiffyn plant yn chwarter 1 oedd honiadau am gam-drin corfforol a cham-drin rhywiol / camfanteisio'n rhywiol. Cynhaliwyd mwyafrif yr ymholiadau ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.


## ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant

| Mae'r tabl hwn yn dadansoddi ffigyrau ynghylch canlyniadau Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | Nifer y plant | Nifer heb eu geni | Nifer y teuluoedd | Nifer y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gan gynnwys y rhai heb eu geni a'r rhai a drosglwyddwyd | Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth os na'u cofrestrwyd |
| 6 | 10 | - | 6 | 10 | - |


**Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser**

Cofnodwyd bod 80.0% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant wedi'u cynnal ymhen 15 diwrnod gwaith ar ôl y Drafodaeth / Cyfarfod Strategaeth. O ran un gynhadledd ar gyfer 2 blentyn, bu oedi oherwydd argaeledd y Cadeirydd ar gyfer Cynhadledd Hybrid.

Mae Cynadleddau Cychwynnol ac Adolygu Achosion yn cael eu cynnal trwy ddulliau hybrid / rhithiol trwy Microsoft Teams. Bu modd i rieni a phlant gymryd rhan yn y cyfarfodydd.




**Cyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 70.0% o Gyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant wedi'u cynnal ymhen 10 niwrnod gwaith ar ôl y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant. Bu oedi o ran 1 Grŵp Craidd ar gyfer teulu â 2 o blant oherwydd camgyfrifwyd y dyddiad a bu oedi o ran Grŵp Craidd arall ar gyfer 1 plentyn oherwydd bod y Gweithiwr Cymdeithasol ar wyliau blynyddol.





| Mae'r tabl hwn yn dadansoddi ffigyrau ynghylch canlyniadau Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant: | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant | Nifer y plant | Nifer heb eu geni | Nifer y teuluoedd | Nifer yr enwau'n dal ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth yn dilyn dadgofrestru |
| 20 | 28 | - | 19 | 20 | 8 | 8 |


**Canlyniadau'r Adolygiadau:**
O'r 8 o blant a ddadgofrestrwyd, derbyniodd 8 ymyrraeth bellach drwy Gynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth a daeth 5 ohonynt yn blant sy'n derbyn gofal. Trosglwyddwyd 2 blentyn arall i Awdurdod Lleol arall.

**Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 64.3% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser. Y rheswm dros yr oedi wrth gynnal cynadleddau mewn pryd oedd fel a ganlyn:-
Ar gyfer 1 teulu gyda 4 plentyn, bu oedi oherwydd argaeledd y Gweithiwr Cymdeithasol a'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ogystal â gwyliau ysgol ac argaeledd ystafell ar gyfer cynhadledd wyneb yn wyneb, a bu oedi o ran un gynhadledd arall ar gyfer 2 blentyn oherwydd proses y llys. O ran 4 cynhadledd arall gydag 1 plentyn yr un nodwyd mai'r rhesymau dros yr oedi oedd camgyfrifo ar gyfer un, argaeledd asiantaethau ar gyfer un allan, nodwyd ar gyfer 1 fod y Cadeirydd angen cwrdd â'r person ifanc cyn y gynhadledd ac ar gyfer 1 gynhadledd arall daeth y person ifanc i mewn i ofal ar ddyddiad yr adolygiad gwreiddiol a theimlwyd y byddai hyn yn rhy drwm i'r teulu.




| **Cyfranogiad rhieni a phlant mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant**<br>***Data cymharol ar gyfer Chwarter 4 mewn cromfachau** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol wedi cael ei roi i'r rhieni 24 awr cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Y Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r teulu cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Y Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r plentyn cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Aelod o'r teulu yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Barn y plant wedi'i chlywed mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant os nad oeddent yn bresennol (5-18 oed)** | ***Y plant yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant (11 oed neu'n hŷn)** | ***Plant y penodwyd eiriolwr / Tros Gynnal ar eu cyfer** |
| 100% (100%) | 84% (94%) | 75% (67%) | 87% 94%) | 87% (88%) | 24% (20%) | 52% 20%) |


Summary of the main Risk Factors for the 52 children who were on the Ceredigion Child Protection Register at 30 June 2023
60
50
40
30
20
10
0
49
39
36
28
28
18
13
9
6
5
4
4
Parental Separation
Domestic abuse
Parental mental health difficulties
Adult offences of violence
Parental substance/alcohol misuse
Parental non-cooperation of CP Plan
Risk taking behaviour/substance misuse (YP)
Risk of child sexual exploitation
Legal action to safeguard previous children
Mother, father or partner been in prison
Adult offences against children
Parental learning disability


Summary of the main Risk Factors for the 52 children who were on the Ceredigion Child Protection Register at 31 March 2023
60
50
40
30
20
10
0
49
42
42
37
36
30
11
8
8
7
7
5
Parental Separation
Domestic abuse
Parental mental health difficulties
Parental substance/alcohol misuse
Adult offences of violence
Parental non-cooperation of CP Plan
Risk taking behaviour/substance misuse (YP)
Adult offences against children
Mother, father or partner been in prison
Legal action to safeguard previous children
Risk of child sexual exploitation
Parental learning disability


| Y Triawd Gwenwynig a oedd yn beryglon ar gyfer y 52 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 30 Mehefin 2023 | | |
|---|---|---|
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r Triawd Gwenwynig yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl y Rhieni) | 24 | 46.2% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae Rhieni'n Gwahanu a / neu Garchariad yn ymddangos (Profiad Niweidiol yn Ystod Plentyndod) | 49 | 94.2% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r pum Profiad Niweidiol yn Ystod Plentyndod yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl y Rhieni, Rhieni'n Gwahanu a Charchariad) | 2 | 3.8% |


**Dadansoddiad:**
Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd rhieni'n gwahanu, cam-drin domestig, anawsterau iechyd meddwl y rhieni a throseddau treisgar gan oedolion.


Roedd rhieni un plentyn yn bodloni'r meini prawf a chawsant eu cyfeirio at y Prosiect Ysbrydoli Teuluoedd, cawsant hefyd eu cyfeirio at y Rhaglen Choices ar gyfer Cyflawnwyr Trais Domestig.

Roedd rhieni 4 o frodyr a chwiorydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y Prosiect Ysbrydoli Teuluoedd ond nid oedd darpariaeth ar gael.

**Presenoldeb Asiantaethau mewn Cynadleddau:**






Mae'r siartiau uchod yn dangos yr asiantaethau a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant. Ar gyfartaledd rhoddwyd gwahoddiad i 7 aelod o staff asiantaethau i bob cynhadledd amddiffyn plant ac ar gyfartaledd bu 3 yn bresennol.
Ar gyfartaledd roedd 5 adroddiad ysgrifenedig ar gael ymhob Cynhadledd Amddiffyn Plant.


Mewn 14 (37%) Cynhadledd Amddiffyn Plant argymhellwyd galw cyfarfod Grŵp Teulu.
Penderfynwyd yn unfrydol i gofrestru'r plentyn mewn 33 (87%) cynhadledd, ac o ran cofrestru 5 (13%) plentyn gwnaed y penderfyniad drwy fwyafrif.
Mewn 1 (3%) Gynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod anghydfod ynglŷn â diogelwch y Cynllun Amddiffyn Plant o ran diogelu lles y plentyn oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
Nodwyd bod 7 (18%) plentyn yn ofalwr ifanc.
Ar gyfer 2 (8%) blentyn nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynghylch partner y fam.
Nodwyd bod gan 6 (16%) o'r bobl ifanc anabledd dysgu cymedrol / difrifol; ac adroddwyd bod gan 8 (30%) o'r bobl ifanc Gynllun Datblygu Unigol.
Adroddwyd bod gan 4 (11%) plentyn anabledd corfforol / nam ar y synhwyrau, a nodwyd bod gan 11 (29%) person ifanc anawsterau o ran ymddygiad.
Nodwyd bod gan 7 (18%) o blant anawsterau lleferydd / iaith; a nodwyd bod 6 (22%) person ifanc wedi'u gwahardd o'r ysgol.


## ADBORTH PLANT A THEULUOEDD


Ni fu'n bosib dilyn y system flaenorol ar gyfer cael adborth plant a theuluoedd yn dilyn eu presenoldeb yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020 oherwydd bod mwyafrif y Cynadleddau'n cael eu cynnal yn rhithiol.
Fodd bynnag, ers dechrau mis Ebrill 2022, mae Holiaduron Gwerthuso wedi cael eu hanfon at deuluoedd ar ôl iddynt fod yn bresennol mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant i gael eu barn a'u hadborth. Bydd y broses hon yn parhau nes bydd y Cynadleddau Amddiffyn Plant yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb.


| **ADBORTH PLANT A THEULUOEDD** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Darparwyd holiaduron gwerthuso i blant / pobl ifanc (o oed priodol / lefel briodol o ddealltwriaeth), rhieni a gofalwyr a fynychodd Gynadleddau Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter. Dosbarthwyd cyfanswm o 41 holiadur a chwblhawyd 3 (7.3%) ohonynt. Mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb o'r ymatebion. | | | | | | |
| **Sut oedd lleoliad ac amser y gynhadledd?** | | | | **Oeddech chi'n teimlo'n barod i fod yn bresennol yn y gynhadledd?** | | |
| | Addas iawn | Iawn | Anaddas | Oeddwn | Ddim yn siŵr | Ddim o gwbl |
| Plant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhieni | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Gofalwyr | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Aelodau'r Teulu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Oeddech chi'n gallu dweud eich dweud?** | | | | **Oeddech chi'n teimlo bod eich barn chi'n cyfrif?** | | |
| | Oeddwn | Dim digon | Nac oeddwn | Oeddwn | Ychydig | Ddim o gwbl |
| Plant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhieni | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Gofalwyr | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Aelodau'r Teulu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Hoffech chi ddweud rhywbeth a allai ein helpu i wella'r broses?** | | | | **Y camau a gymerwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon** | | |
| Plant | • | | | | | |
| Rhieni | • | | | | | |
| Gofalwyr | • | | | | | |
| Aelodau'r Teulu Estynedig | • | | | | | |

## ADRAN 6: Y Gofrestr Amddiffyn Plant






| **Mesur 28 Llywodraeth Cymru – Yr amser ar gyfartaledd y bu pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:** | | |
|---|---|---|
| Ar gyfer y Mesur hwn mae'n ofynnol rhoi'r amser ar gyfartaledd mewn diwrnodau calendr y treuliodd pob plentyn ar y Gofrestr cyn eu dadgofrestru yn ystod y chwarter dan sylw | Ebrill – Mehefin | 172.9 |

| **Mesur 27 Llywodraeth Cymru – Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol o fewn y flwyddyn** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynadleddau Cychwynnol** | **Ebr - Meh 2023** | **Ion-Maw 2023** | **Hyd-Rhag 2022** | **Gor-Medi 2022** | **Ebr-Meh 2022** | **Ion-Maw 2022** | **Hyd-Rhag 2021** | **Gor-Medi 2021** |
| Nifer y plant a fu ar y gofrestr o'r blaen ac a ddadgofrestrwyd dros y 12 mis diwethaf | 0 | 3 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 |

## ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

| **Categorïau'r Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant** | **Cyfanswm yr achosion** | **Cyfanswm y cyfarfodydd** |
|---|---|---|
| Perygl o gamfanteisio ar blentyn | **25** | **35** |
| Pryderon ynghylch esgeulustod | **4** | **5** |
| Pryderon ynghylch ffugio salwch | **1** | **2** |
| Pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol | **3** | **3** |
| Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll | **6** | **10** |
| Pryderon ynghylch cam-drin emosiynol | **4** | **4** |
| Pryderon ynghylch person sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rhinwedd ei swydd | **10** | **12** |
| **Cyfanswm y cyfarfodydd** | | **71** |
| **Cyfanswm yr achosion a drafodwyd yn y chwarter hwn** | **53** | |

## ADRAN 8: Cyfarfodydd Rheoli Amlasiantaethol ar Gamfanteisio ar Blant (MACE)

| Achos Newydd / Adolygu | Ymadael / Aros yn MACE | Gwryw / Benyw | Oed | Yn y cartref / mewn gofal | Ar y Gofrestr Amddiffyn Plant? | Dyddiad y Cyfarfod | Presenoldeb Asiantaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adolygu | Ymadael | B | 16 | Cartref | Ydy | 06.06.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Cynhwysiant Addysg, PCC |
| Adolygu | Aros | B | 14 | Cartref | Ydy | 18.04.23<br>13.06.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Iechyd, Gofal wedi'i Gynllunio, PCC |
| Adolygu | Ymadael | G | 17 | Cartref | Nac ydy | 05.04.23<br>04.05.23 | Diogelu, yr Heddlu, Diogelu Oedolion, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, CAMHS, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Barod |
| Adolygu | Ymadael | G | 15 | Cartref | Nac ydy | 25.05.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, PGT, Iechyd, CAMHS, Barod, PCC |
| Adolygu | Ymadael | G | 17 | Cartref | Ydy | 04.04.23<br>21.04.23<br>16.06.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, PGT, PCC |
| Adolygu | Ymadael | G | 15 | Cartref | Ydy | 18.04.23 | Diogelu, yr Heddlu |
| Newydd | Aros | G | 15 | Cartref | Ydy | 10.05.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, PGT |
| Newydd | Aros | G | 15 | Cartref | Nac ydy | 03.05.23<br>08.06.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Iechyd, Gofal wedi'i Gynllunio |
| Newydd | Aros | B | 15 | Cartref | Ydy | 12.05.23<br>30.06.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Iechyd, Gofal wedi'i Gynllunio |
| Newydd | Aros | B | 13 | Cartref | Nac ydy | 16.05.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Iechyd, Gofal wedi'i Gynllunio |
| Newydd | Aros | B | 15 | Cartref | Ydy | 14.06.23<br>30.06.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Iechyd, Gofal wedi'i Gynllunio |
| Newydd | Aros | G | 16 | Cartref | Nac ydy | 28.04.06 | Diogelu, yr Heddlu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, PGT, Castell Ventures, PCC, Tai Wales and West, Tai |

## ADRAN 9: Adroddiad yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)

| Ebrill | | |
|---|---|---|
| **Ardal** | **Nifer y Cyfarfodydd MARAC ynghylch Cam-drin Domestig** | **Nifer yr achosion mewn Trafodaethau Dyddiol** |
| Sir Gâr | 3 | 49 |
| Sir Benfro | 1 | 39 |
| Ceredigion | 0 | 14 |
| Powys | 2 | 28 |
| **Mai** | | |
| **Ardal** | **Nifer y Cyfarfodydd MARAC ynghylch Cam-drin Domestig** | **Nifer yr achosion mewn Trafodaethau Dyddiol** |
| Sir Gâr | 1 | 73 |
| Sir Benfro | 1 | 37 |
| Ceredigion | 1 | 17 |
| Powys | 2 | 39 |
| **Mehefin** | | |
| **Ardal** | **Nifer y Cyfarfodydd MARAC ynghylch Cam-drin Domestig** | **Nifer yr achosion mewn Trafodaethau Dyddiol** |
| Sir Gâr | 3 | 60 |
| Sir Benfro | 2 | 47 |
| Ceredigion | 1 | 22 |
| Powys | 2 | 40 |

# ADRAN 10: Gwasanaethau Dysgu

**ADRODDIAD Y GWASANAETHAU YSGOLION AR GYFER Y GRŴP GWEITHREDOL LLEOL**

**HYFFORDDIANT**

Mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant Lefel 1 ar gael fel rhaglen e-ddysgu yn unig, dyma nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod Chwarter 1. Yn ogystal, mae nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2 yn rhithiol yn ystod y cyfnod hwn wedi'i nodi isod hefyd.

| | |
|---|---|
| Lefel 1 | 357 mewnol<br>71 allanol |
| Lefel 2 | 41 mewnol<br>29 allanol |

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Mae 217 o staff mewnol a 36 o staff allanol wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod Chwarter 1.

**ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF**


| Nifer y plant yr ydych yn ymwybodol ohonynt sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref | Nifer y plant sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref y mae'r Awdurdod Lleol yn gwybod amdanynt a gafodd gynnig ymweliad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf | Canlyniad |
|---|---|---|
| 269 | 255 | Wedi gwrthod – 78<br><br>Heb fynychu – 13<br><br>Plentyn wedi'i weld – 109<br><br>Plentyn heb ei weld – 116 |


**PLANT MEWN GOFAL**


| | |
|---|---|
| Plant o oedran ysgol statudol sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion | *Ebrill: 54*<br>*Mai: 53*<br>*Mehefin: 47* |
| Plant o oedran ysgol statudol sy'n Derbyn Gofal y tu allan i'r Sir | *Ebrill: 43 (1 wedi gadael Ceredigion yn ystod y mis)*<br>*Mai: 43 (1 disgybl wedi dychwelyd i ysgol yng Ngheredigion)*<br>Mehefin: 43 |
| Plant o oedran ysgol statudol sy'n Derbyn Gofal o Awdurdodau Lleol eraill | *Ebrill: 26*<br>*Mai: 27*<br>Mehefin: 27 |

**CYSWLLT ODDI WRTH YSGOLION**


Gweler isod nifer a natur y cysylltiadau a dderbyniwyd oddi wrth ysgolion / sefydliadau dysgu yn ystod Chwarter 1.







Sylwer, roedd 29 o'r ysgolion cynradd wedi cysylltu yn ystod Chwarter 1. Oherwydd y nifer uchel, nid oedd modd cynnwys pob ysgol ar un tabl. Felly mae'r uchod yn nodi'r ysgolion sydd wedi cysylltu pum gwaith neu fwy yn ystod y cyfnod.







Oherwydd rhoddwyd nifer fawr o resymau dros gysylltu, mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y nodir isod er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn gliriach yn y siart. Yn yr adroddiad hwn yn benodol, rwyf wedi tynnu sylw at y prif bryderon a godwyd yn unig.

| | |
|---|---|
| Llesiant | Gan gynnwys plant ar goll, presenoldeb, tor perthynas, galar, gofalwyr ifanc, problemau cysylltu, problemau cysylltu rhwng rhieni |
| Rhywiol | Gan gynnwys perthnasau amhriodol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant |

Sylwer, cafodd 61 o ddisgyblion eu gwahardd o ysgolion uwchradd Ceredigion yn ystod Chwarter 1 am gyfanswm o 114 diwrnod. (Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o gymharu â'r chwarter blaenorol pan gafodd 86 o blant eu gwahardd am 278.5 diwrnod). Y rhesymau a nodwyd dros y gwaharddiadau hyn oedd fel a ganlyn: ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn barhaus, ymosodiad corfforol yn erbyn disgyblion ac oedolion, cam-drin hiliol, cam-drin geiriol, arall.

Yn ogystal, derbyniodd Porth Cymorth Cynnar 153 atgyfeiriad ar gyfer cymorth ac atal yn ystod Chwarter 1, sydd ychydig yn uwch na'r chwarter blaenorol pan gafwyd 150 atgyfeiriad. (Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys atgyfeiriadau'r Tîm o Amgylch y Teulu).



## ADRAN 11: IECHYD


**Adroddiad Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer y Grwpiau Gweithredol Lleol**

**Chwarter 1 2023/24**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a diweddariadau i'r Grwpiau Gweithredol Lleol ar y datblygiadau o ran diogelu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod Chwarter 1 2023/24.

### Diogelu Oedolion

**Data ynghylch Achosion o Niwed Pwyso y Gellir eu Hosgoi mewn Ysbytai Aciwt – Chwarter 1 2023/24**




**Graff 1**

Cafodd cyfanswm o 37 achos o niwed pwyso y gellir eu hosgoi eu hadolygu mewn cyfarfodydd craffu niwed pwyso ar draws y 4 ysbyty aciwt yn Chwarter 1. Mae nifer yr achosion yn yr adroddiad yn dangos pryd y cynhaliwyd y cyfarfodydd craffu, yn hytrach na phryd digwyddodd yr achos o niwed pwyso. O dro i dro mae oedi o ran dod â rhai achosion gerbron y cyfarfodydd craffu oherwydd efallai bod yr achosion yn cael eu gohirio os oes angen rhagor o wybodaeth neu os oes angen cynnal ymchwiliad; hefyd efallai y caiff y cyfarfodydd eu gohirio neu eu hail-drefnu.

Digwyddodd 18 o'r achosion rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2023, a digwyddodd y gweddill rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2023 (48%).


Ni chynhaliwyd cyfarfodydd craffu yn Ysbyty Bronglais ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth yn Chwarter 4 2022/23 oherwydd problemau staffio. Yn sgil hyn ystyriwyd mwy o achosion yn y cyfarfodydd craffu yn ystod Chwarter 1 2023/24, ac mae hyn yn ffactor sydd wedi cyfrannu at nifer yr achosion a nodwyd ar gyfer Bronglais yn yr adroddiad hwn.

Adroddiad Rheoli Perfformiad 1/4/23 – 30/6/23

O'r 37 achos a adolygwyd, cofnodwyd bod 33 yn achosion gradd 1 neu 2 (ni fyddai'r graddau hyn wedi cael eu hadrodd i'r tîm diogelu cyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)); cofnodwyd 2 ohonynt fel achosion lle y mae Amheuaeth fod Niwed i Feinweoedd Dwfn (SDTI), ac nid oedd yn bosib pennu gradd ar gyfer 2 achos. Nid yw'n anghyffredin i niwed pwyso gael ei adrodd fel SDTI, ac yna o fewn ychydig ddyddiau daw i'r amlwg ei fod yn niwed gradd 1 neu 2. Wrth adrodd am ddigwyddiadau nodir y niwed pwyso ar ei radd fwyaf sylweddol. Roedd cyfran uwch o'r achosion yn parhau i fod ar y graddau is, ac yn gadarnhaol, nid oedd unrhyw achosion gradd 3 na 4 yn ystod y chwarter hwn.

O ran yr achosion o niwed pwyso sydd wedi cael eu hadrodd ond sydd heb eu trafod yn y cyfarfodydd craffu eto, rhoddir sicrwydd bod camau priodol wedi'u rhoi ar waith er mwyn rheoli niwed pwyso'r unigolion yn ddiogel pan gafodd y niwed ei nodi.

**Plant sy'n Derbyn Gofal**




Fel y mae'r data llinellol yn ei ddangos uchod, bu cynnydd sylweddol ers mis Rhagfyr 2019 ac mae'n parhau i gynyddu. Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau'n sylweddol uwch nag yr oedd 5-6 blynedd yn ôl, ac mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar y tîm.

**<u>Data ynghylch Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches</u>**

| | |
|---|---|
| **Sir Gâr** | **21** |
| **Ceredigion** | **9** |
| **Sir Benfro** | **14** |
| **Cyfanswm** | **44** |

**Risgiau**
Mae'r risg yn parhau i'r gwasanaeth oherwydd y pwysau ar gyllideb y gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal yn sgil y costau ynghlwm wrth fodloni anghenion y plant digwmni sy'n ceisio lloches sydd wedi'u lleoli o dan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. O'r 44 a leolwyd, dim ond dau sy'n byw o fewn ardal Hywel Dda. Mae'r gwasanaeth yn gorfod talu costau oherwydd ei fod yn comisiynu asesiadau iechyd yn yr ardaloedd lle y mae'r plant digwmni sy'n ceisio lloches wedi cael eu lleoli.

**Diogelu Plant**

- **Nyrs Benodol**

Mae'r Nyrs Benodol ac Ymarferydd Arweiniol Diogelu Plant newydd wedi cychwyn yn ei swydd – Claire Nayler.

- **Adolygiad Carlam Amddiffyn Plant**

Mae gennym gynllun gweithredu ar waith er mwyn ymateb i'r Adolygiad Carlam Amddiffyn Plant a bydd yn cael ei fonitro gan y Grwpiau Cyflenwi Gwasanaethau Diogelu.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Mae'r peilot IRIS yn parhau yn Sir Gâr ac rydym yn chwilio am adnoddau er mwyn parhau â'r peilot ar ôl mis Mawrth 2024.

Mae Gwasanaethau Iechyd Cam-drin a Thrais Domestig wedi cychwyn yn Adran Brys Ysbyty Cyffredinol Bronglais.

Mae'r Ymarferydd Arweiniol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i wneud cynnydd o ran y gwersi i'w dysgu a nodwyd mewn Adolygiadau Lladdiadau Trais Domestig.

**System Reoli Unwaith i Gymru**

Yn dilyn cyfarfod gydag Arweinwyr Cenedlaethol, rydym yn barod i ddechrau'r peilot o gyflwyno'r ffurflenni adrodd i Awdurdodau Lleol drwy system Datix Cymru, gan ddechrau ar 1 Tachwedd 2023. Rydym yn gofyn am gymorth gan Awdurdodau Lleol i brofi trosglwyddo'r ffurflenni cyn dechrau'r peilot.

**Matrics Aeddfedrwydd Diogelu**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau ei hunanasesiad yn erbyn Matrics Aeddfedrwydd Diogelu GIG Cymru ar gyfer 2022-2023 ac mae wedi nodi ei gynllun gwella. Mae'r hunanasesiad wedi bod yn destun adolygiad gan gymheiriaid.

SMM approved and submitted 09.08.23.

**Mandy Nichols-Davies**
**Pennaeth Diogelu**

## ADRAN 12: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS):

### Adroddiad Diweddaru S-CAMHS ar gyfer CYSUR

Yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru, "Canllawiau Derbyn", mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi sefydlu Polisi / Llwybr Derbyn pendant sy'n egluro'r drefn o ran derbyn unrhyw berson ifanc i Ward Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r Canllawiau'n dweud bod yn rhaid i bob Bwrdd Iechyd gael uned ddynodedig ac yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr uned ddynodedig yw Ward Morlais, ar gampws Ysbyty Glangwili.

Mae protocol newydd wedi'i gymeradwyo er mwyn bodloni'r gofyniad statudol hwn a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.


Gall mynd i ward iechyd meddwl oedolion fod yn brofiad brawychus a gwneir pob ymdrech i ystyried y ffyrdd lleiaf cyfyngol o dderbyn pobl ifanc. Fel arfer derbynnir pobl ifanc i'r uned ddynodedig ar Ward Cilgerran, gyda staff o'r uned iechyd meddwl wrth law i roi cymorth.


Yn unol â'r canllawiau mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ynghylch diogelu pobl ifanc ac mae staff Ward Morlais wedi derbyn y canlynol:

- Hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3
- Gwiriad Manylach dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Hyfforddiant penodol ar anghenion plant a phobl ifanc yn emosiynol ac o ran eu hiechyd meddwl
- Hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014


Rhaid i bawb a dderbynnir i wely iechyd meddwl gael ei adrodd, yn fewnol i gychwyn fel DATIX, a dilynir hyn gan adroddiad Digwyddiad Anffafriol Difrifol i'r Uned Gyflenwi yn unol â dogfen Canllawiau Derbyn Llywodraeth Cymru.

**Y nifer a dderbyniwyd i wely addas o ran oed yn ystod Chwarter 1 – gwely enfys a Ward Morlais sy'n ward Iechyd Meddwl ar gyfer Oedolion yn Ysbyty Glangwili:**




**Y nifer a dderbyniwyd i wely iechyd meddwl a oedd yn addas o ran oed yn ystod Chwarter 1 – Gwely Enfys / Gwely Morlais – yn ôl rhyw:**





**Y nifer a dderbyniwyd i Wely Enfys / Morlais yn ystod Chwarter 1, yn ôl ardal:**




**Y nifer a dderbyniwyd i wely pediatrig addas o ran oed (Uned Enfys, dim adroddiadau)**

Mae cofnodion y Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS) ar gyfer Chwarter 1 2023-24 wedi'u nodi uchod gyda 10 person yn cael eu derbyn i gyd. Derbyniwyd 3 i'r gwely pediatrig a derbyniwyd 7 i'r Ward Iechyd Meddwl ar gyfer Oedolion (Morlais). Cafodd 3 pherson ifanc eu derbyn ar ddau achlysur gwahanol yn ystod y cyfnod hwn.

**Derbyniadau i Wely Enfys / Morlais yn ystod Chwarter 1, yn ôl y tîm derbyn:**




**Statws Iechyd Meddwl**

Rydym wedi derbyn y gweithgarwch canlynol ar gyfer pobl o dan 18 oed yn ystod Chwarter 1 o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl:

EBRILL

1 x Adran 136

1 x Adran 5(2)

MAI

1 x Adran 5(2)

1 x Adran 2

MEHEFIN

2 x Adran 136

1 x Adran 5(2)

**Canlyniadau Derbyn**

| | Wedi'u rhyddhau i fynd adref | Wedi cael eu derbyn i ward arall | Aros ar y ward |
|---|---|---|---|
| **Enfys** | 3 | 0 | 0 |
| **Morlais** | 7 | 0 | 0 |


**Derbyniadau a oedd yn ymwneud â hunan-niweidio**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi rhoi systemau cadarn ar waith sy'n galluogi i'r Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wneud asesiadau iechyd meddwl ar sail atgyfeiriadau o'r ward bediatrig pan dderbynnir person ifanc yn sgil achos o hunan-niweidio. Cymryd gormod o gyffuriau oedd y rheswm gan amlaf, ond ar brydiau derbynnir pobl ifanc sydd wedi torri'u hunain yn fwriadol neu geisio crogi eu hunain.


Bob tro y derbynnir person ifanc oherwydd gorddosio / hunan-niweidio, trefnir apwyntiad dilynol ymhen tri diwrnod gwaith er mwyn monitro'r risg a rhoi cymorth. Ceir llwybr cadarn drwy'r gwasanaethau ynghyd â chanllawiau ar gyfer derbyn pobl ifanc sydd wedi hunan-niweidio fel y gellir cytuno ar asesiadau iechyd meddwl a chynlluniau rheoli risg cynhwysfawr. Gellir ystyried atgyfeirio pobl ifanc i'r Tîm Diogelu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol lle bo hynny'n briodol.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y nifer a dderbyniwyd ar ôl Hunan-niweidio'n Fwriadol yn ystod Chwarter 1 2023/2024 ar gyfer y 3 Awdurdod Lleol:

**Ystadegau Chwarter 1 o ran Hunan-niweidio / Gorddosio wedi'u rhannu yn ôl rhyw ac ardal:**




**Ystadegau Chwarter 1 o ran Hunan-niweidio / Gorddosio wedi'u rhannu yn ôl rhyw ac oed:**





Noder bod un person ifanc 7 oed wedi cael triniaeth oherwydd hunan-niweidio yn ystod y chwarter hwn.

**Data Cymharol (y 12 mis diwethaf) – Gwely sy'n addas o ran oed**





**Cymharu'r tueddiadau o ran derbyniadau yn ôl ardal (y 12 mis diwethaf)**



**Cymharu'r Derbyniadau Blynyddol yn ôl ardal**

Mae'r graff canlynol yn cymharu nifer y derbyniadau yn Chwarter 1 2023/2024 yn erbyn nifer y derbyniadau ar gyfer yr un chwarter yn 2022/2023 a 2021/2022, a hynny yn ôl ardal.




**Eiriolaeth**

Yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2012, disgwylir i Fyrddau Iechyd sicrhau bod mynediad at Wasanaethau Eiriolaeth ar gael, yn unol â Rhan 4 y Mesur, ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n cael ei dderbyn i'r ysbyty. Gofynnir i bob person ifanc a dderbynnir i Ward Morlais os ydynt eisiau mynediad at Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Y targed perfformiad disgwyliedig yw bod 100% o'r cleientiaid yn cael y cynnig hwn ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a'i hadrodd drwy ein Dadansoddwr Gwybodaeth.

Ar Ward Cilgerran, pan gânt eu derbyn mae pobl ifanc yn cael gwybodaeth sy'n nodi bod Gwasanaeth Eiriolaeth ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r safon perfformiad uchod yn berthnasol ac felly ni chesglir y data hwn yn rheolaidd.

# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR


# CEREDIGION


## Adroddiad Rheoli Perfformiad – Diogelu Oedolion

**Chwarter: 1**


**1/4/23 – 30/6/23**

**Chwarter 1 - Trosolwg**









| Nifer yr asesiadau | |
|---|---|
| **2022-23 Chwarter 1** | **168** |
| Ebrill | 41 |
| Mai | 72 |
| Mehefin | 55 |
| **2022-23 Chwarter 2** | **155** |
| Gorffennaf | 65 |
| Awst | 41 |
| Medi | 49 |
| **2022-23 Chwarter 3** | **178** |
| Hydref | 62 |
| Tachwedd | 73 |
| Rhagfyr | 43 |
| **2022-23 Chwarter 4** | **220** |
| Ionawr | 67 |
| Chwefror | 59 |
| Mawrth | 94 |
| **2023-24 Chwarter 1** | **246** |
| Ebrill | 54 |
| Mai | 90 |
| Mehefin | 102 |
| **Cyfanswm** | **967** |





Number of reports of an adult suspected of being at risk received -Source of Report
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
Advocate
Ambulance service
Care regulator
Independent hospital
Local authority
Local health board
Other
Police
Probation
Provider agency
Relative/friend
Self reported
Third sector
2023-24 Q1
2022-23 Q4
2022-23 Q3
2022-23 Q2
2022-23 Q1


| | 2022-23 Chwarter 1 | 2022-23 Chwarter 2 | 2022-23 Chwarter 3 | 2022-23 Chwarter 4 | 2023-24 Chwarter 1 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiriolwr | | 3 | 2 | 1 | 1 | 7 |
| Gwasanaeth Ambiwlans | 3 | 1 | 8 | 6 | 5 | 23 |
| Rheoleiddiwr Gofal | | | 5 | 4 | 5 | 14 |
| Ysbyty Annibynnol | 1 | | | 2 | 3 | 6 |
| Awdurdod Lleol | 29 | 19 | 26 | 35 | 48 | 157 |
| Bwrdd Iechyd Lleol | 20 | 20 | 25 | 18 | 38 | 121 |
| Arall | 19 | 23 | 13 | 40 | 21 | 116 |
| Yr Heddlu | 33 | 28 | 40 | 46 | 36 | 183 |
| Y Gwasanaeth Prawf | 2 | 5 | 1 | 3 | 8 | 19 |
| Asiantaeth Ddarparu | 31 | 33 | 33 | 36 | 55 | 188 |
| Perthynas / ffrind | 14 | 16 | 17 | 11 | 14 | 72 |
| Hunan-adrodd | 2 | 1 | 3 | 4 | 2 | 12 |
| Trydydd Sector | 14 | 6 | 5 | 14 | 10 | 49 |
| **Cyfanswm** | **168** | **155** | **178** | **220** | **246** | **967** |










Number of reports of an adult suspected of being at risk received - Physical Abuse
50
45
40
35
30
25
20
15
10
5
0
1
5
21
6
24
12
26
16
46
1
21
39
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1
Other
Male
Female



Number of reports of an adult suspected of being at risk received - Neglect Abuse
60
50
40
30
20
10
0
33
43
18
37
25
35
36
30
50
48
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1
Male
Female



Number of reports of an adult suspected of being at risk received - Emotional/Psychological Abuse
80
70
60
50
40
30
20
10
0
1
29
47
20
57
20
56
1
29
68
29
62
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1
Transgender
Other
Male
Female



Number of reports of an adult suspected of being at risk received - Financial Abuse
30
25
20
15
10
5
0
22
19
11
25
21
26
16
24
25
19
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1
Male
Female



Number of reports received that proceeded to an enquiry
300
250
200
150
100
50
0
61
57
71
89
129
107
98
107
131
117
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1
Yes
No



Number of enquiries that concluded that action was required - Own Home
35
30
25
20
15
10
5
0
0
3
9
22
30
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1



Number of enquiries that concluded that action was required
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
61
3
50
7
57
14
54
35
83
46
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1
No
Yes



Number of enquiries that concluded that action was required - Community
9
8
7
6
5
4
3
2
1
0
2
2
0
8
6
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1



Number of enquiries that concluded that action was required - Care Home Setting
9
8
7
6
5
4
3
2
1
0
1
1
3
2
8
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1



Number of enquiries that concluded that action was required - Health
3.5
3
2.5
2
1.5
1
0.5
0
0
1
2
3
2
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1



Number of enquiries that concluded that action was required - Place
50
45
40
35
30
25
20
15
10
5
0
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1
0
1
2
0
1
1
2
3
2
3
0
9
3
2
8
22
2
8
6
30
Own Home
Community
Care Home Setting
Health


Number of enquiries that concluded that action was required - Paid Employee
14
12
10
8
6
4
2
0
2
1
4
8
12
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1


Number of enquiries that concluded that action was required - Other Service User
2.5
2
1.5
1
0.5
0
0
0
0
2
2
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1


Number of enquiries that concluded that action was required - Relative/Friend
25
20
15
10
5
0
1
5
8
22
19
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1


Number of enquiries that concluded that action was required - Other
16
14
12
10
8
6
4
2
0
0
1
2
4
14
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1


Number of enquiries that concluded that action was required - Person
50
45
40
35
30
25
20
15
10
5
0
2022-23 Q1
2022-23 Q2
2022-23 Q3
2022-23 Q4
2023-24 Q1
2
1
0
5
1
0
4
8
0
2
8
22
0
2
4
12
19
0
2
14
Paid Employee
Relative Friend
Volunteer
Other Service User
Other

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **6ed Tachwedd 2023** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Hunanasesu 2022/23** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Er gwybodaeth i sicrhau bod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran paratoi Adroddiad Hunanasesu 2022/23 gan gynnwys Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Amcanion Llesiant** |

**Rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**
**Cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd paratoi'r Adroddiad Hunanasesu**

**Cefndir**

Cyflwynodd Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gyfundrefn perfformiad newydd yn seiliedig ar Hunanasesu ar gyfer Prif Gynghorau.

Bwriad y gyfundrefn perfformiad newydd yw meithrin a chefnogi diwylliant lle mae cynghorau yn ceisio gwella a gwneud yn well yn barhaus ym mhopeth a wnânt, ni waeth pa mor dda y maent yn perfformio eisoes. Mae'r Ddeddf yn disgwyl y bydd cynghorau bob amser yn ymdrechu i gyflawni mwy ac yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl a chymunedau lleol. Un ffordd o wneud hyn yw herio'r sefyllfa bresennol yn barhaus a gofyn cwestiynau am sut y maent yn gweithredu.

Mae 5 dyletswydd benodol i Gynghorau a gyflwynir gan y Ddeddf:

- Dyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus
- Dyletswydd i ymgynghori ar berfformiad
- Dyletswydd i adrodd ar berfformiad
- Dyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel
- Dyletswydd i ymateb i asesiad o berfformiad gan banel

Mae ffocws hunanasesu ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio dull gwahanol o asesu eu perfformiad nag o'r blaen. Bydd hyn yn gofyn am fwy o hunanystyriaeth.

Ers mis Ebrill 2023, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn cynnal ail rownd yr Hunanasesiad, y mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu wedi chwarae rhan annatod ynddi. Cynhaliwyd gweithdy gyda'r Pwyllgor ar 24 Ebrill i gofnodi safbwyntiau Aelodau ar berfformiad y Cyngor a chyfleoedd i wella. Mae amserlen lawn o'r

gweithgareddau a gynhaliwyd i gefnogi Hunanasesiad yn 2022/23 wedi'i hatodi yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Ers hynny, mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi'i defnyddio i gynhyrchu'r Adroddiad Hunanasesu Drafft sydd wedi'i atodi yn Atodiad 2. Dyma brif allbwn y broses Hunanasesu ac mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn perfformio ar hyn o bryd a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn y dyfodol.

Mae Adroddiad Hunanasesu 2022/23 yn bodloni gofynion y canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – i osod ac adolygu cynnydd ar sail ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus, ymgynghori ar berfformiad, adrodd ar berfformiad, trefnu Asesiad o Berfformiad gan Banel ac ymateb i Asesiad o Berfformiad gan Banel.

Yn dilyn adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru a'n cymheiriaid, rydym wedi cadw fformat tebyg ar gyfer eleni i helpu i ledaenu negeseuon allweddol a chadw pethau'n gryno, yn unol â chais Llywodraeth Cymru. Rydym wedi gwneud nifer o welliannau eleni i gryfhau'r adroddiad:

- Rhoi rhagor o fanylion am y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a sut y caiff ei ddefnyddio.
- Rhoi manylion yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid i gefnogi hunanasesiad.
- Rhoi rhagor o fanylion yn y sylwadau gwerthuso ar berfformiad cyffredinol y Cyngor.
- Diweddaru Cynllun Gweithredu'r Hunanasesiad, ychwanegu'r camau gweithredu newydd a nodwyd ynghyd â diweddariad am gynnydd.
- Ehangu'r adran feincnodi (mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddatblygu hyn ar y cyd â Data Cymru).
- Ychwanegwyd adran "Strwythur y Cyngor" i roi manylion am strwythur y Cyngor.
- Cynhwyswyd dolenni i adroddiadau a strategaethau cysylltiedig eraill, a ystyrir yn arferion gorau.

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfrifoldeb statudol i ystyried yr Adroddiad Hunanasesu a gwneud argymhellion ar y canfyddiadau a'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Ystyriwyd yr Adroddiad yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2023 a chymeradwywyd yr adroddiad i fynd gerbron y Cabinet a'r Cyngor er mwyn ei gymeradwyo. Ni wnaed dim argymhellion ffurfiol i'r casgliadau na'r camau gweithredu, er bod mân newidiadau fformatio wedi'u gwneud i wella ansawdd yr adroddiad cyn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'r broses o lunio Adroddiad Hunanasesu 2022/23 bellach wedi'i chwblhau ac ni ellir ei ddiwygio ymhellach.

**Camau Nesaf**

Disgwylir i'r Adroddiad Hunanasesu fynd gerbron y Cabinet ar 7 Tachwedd a'r Cyngor ar 30 Tachwedd, cyn ei gyflwyno i Weinidogion, Estyn ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn ogystal â chael ei gyhoeddi ar y wefan.

**Diweddariad ar Asesiad o Berfformiad gan Banel**
Rhan o'r Gyfundrefn Perfformiad Hunanasesu newydd yw'r ddyletswydd i gynnal Asesiad o Berfformiad gan Banel unwaith ym mhob cylch etholiad.

Bwriad Asesiadau gan Banel yw rhoi persbectif annibynnol ac allanol o ran i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Y nod yw cefnogi Cynghorau i gyflawni eu dyheadau trwy ddatblygu a deall sut maent yn gweithredu a sut y gallant sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau effeithiol yn yr hirdymor.

Mae Asesiad cyntaf y Cyngor o Berfformiad gan Banel yn cael ei drefnu ar gyfer chwarter cyntaf 2024/25 gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bydd gwaith paratoi, megis penodi'r Panel a chwmpasu'r Asesiad yn cael ei wneud dros y misoedd nesaf.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
Na, nid oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau. Nid yw'r Adroddiad Hunanasesu yn cyflwyno dim polisïau newydd i'r Cyngor, yn hytrach ei rôl yw adolygu ac adrodd yn ôl ar gynnydd yn ystod 2022/23 a chyhoeddi'r camau gweithredu y bwriadwn eu cyflawni sy'n deillio o'r broses Hunanasesu. Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu yn cael eu darparu ag adnoddau a'u hariannu drwy'r strwythurau a'r cyllidebau presennol.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** Amherthnasol
**Cydweithio:** Amherthnasol
**Cynnwys:** Amherthnasol
**Atal:** Amherthnasol
**Integreiddio:** Amherthnasol

**<u>Argymhelliad:</u>**
**Cael Adroddiad Hunanasesu 2022/23 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Amcanion Llesiant**

**<u>Rheswm dros y penderfyniad:</u>**
**Sicrhau bod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd paratoi Adroddiad Hunanasesu 2022/23 gan gynnwys Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Amcanion Llesiant**

**<u>Enw Cyswllt:</u>** Alun Williams

**Swydd:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

**Dyddiad yr Adroddiad:** 28/9/2023

**Acronymau:**

**Atodiad 1: Amserlen y gweithgareddau a gynhaliwyd i gefnogi Hunanasesiad 2022/23**

- Cynhaliwyd yr adolygiad o Flwyddyn 1 y broses Hunanasesu ym **mis Rhagfyr 2022** ac arweiniodd at gyfres o fân addasiadau i wneud y broses yn fwy effeithlon ym Mlwyddyn 2 a chryfhau cadernid y dystiolaeth a gofnodwyd.
- Cynhaliwyd dadansoddiad y bwrdd gwaith rhwng **Ebrill a Mehefin** i gasglu a dadansoddi'r dystiolaeth oedd ar gael (data mewnol, tystiolaeth allanol a gwaith ymgynghori).
- Cynhaliwyd Gweithdy Hunanasesu cyntaf y Grŵp Arweiniol ar **18 Ebrill** i nodi tystiolaeth, heriau, cyfleoedd i wella a sgoriau.
- Cynhaliwyd Gweithdy'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar **24 Ebrill** i gofnodi safbwyntiau Aelodau ar berfformiad y Cyngor a chyfleoedd i wella.
- Cynhaliwyd ail Weithdy Grŵp Arweiniol wedi hynny ar **18 Mai i adolygu'r dystiolaeth a'r sgorau**, a chymeradwyo Matrics y Prif Lwybrau Ymholi sy'n cynnwys canlyniadau'r ymarfer.
- Cafodd Adroddiad Hunanasesu 2022/23 ei ddrafftio rhwng **Mehefin ac Awst** 2023 gan y Tîm Perfformiad ac Ymchwil.
- Cynhaliwyd yr Arolwg Rhanddeiliaid Corfforaethol rhwng **28 Mehefin a 31 Awst**.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol **ar 30 Awst** ac fe'i cymeradwywyd i fynd gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol/Cabinet ar **19 Medi**.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar **27 Medi** fel rhan o rôl statudol y Pwyllgor yn adolygu ac yn gwneud argymhellion ar y casgliadau y daethpwyd iddynt yn yr adroddiad a'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r adroddiad i symud ymlaen i'w gyhoeddi ac ni wnaed dim argymhellion ffurfiol.
- Cyflwynwyd adborth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol ar **28 Medi**.
- Diweddarwyd yr Adroddiad Hunanasesu ym **mis Hydref** gyda mân newidiadau fformatio i wella ansawdd yr adroddiad cyn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar **6 Tachwedd**.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol




# 2022/23

# ADRODDIAD HUNANASESU

## Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Amcanion Llesiant

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion



Llun: Traeth Aberporth
Cymeradwy: Heb ei gymeradwyo eto

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad gan Arweinydd y Cyngor | 2 |
| Am Geredigion | 3 |
| Y Cyngor | 5 |
| Cefndir i Hunanasesiad 2022-23 | 7 |
| Crynodeb o Berfformiad 2022-23 | 8 |
| Cynllun Gweithredu'r Hunanasesiad: Cyfleoedd i Wella | 13 |
| Beth yw Hunanasesiad? | 19 |
| Sut yr ydym yn cynnal Hunanasesiad | 20 |
| Hunanasesiad yn Ein Fframwaith Rheoli Perfformiad | 21 |
| Rheoli ein Perfformiad | 22 |
| Asesiad Seiliedig ar Dystiolaeth | 23 |
| Dysgu o Ymgynghori ac Ymgysylltu | 25 |
| Adolygiad o'n Hamcanion Llesiant | 31 |
| Cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol | 49 |
| Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | 51 |
| Uno ein Dogfennau: Cysylltiadau i Adnoddau Allweddol | 52 |
| Ein Perfformiad | 55 |

# CYFLWYNIAD

## Gan Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Croeso i Adroddiad Hunanasesu diweddaraf Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu ein perfformiad a'n cynnydd tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant yn 2022/23.

Cynhaliwyd ein Hunanasesiad mwyaf diweddaraf yn ystod haf 2023, roedd yn edrych ar ystod eang o dystiolaeth, adroddiadau rheoleiddio ac adborth helaeth o ymgynghori. Mae'n cadarnhau bod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i berfformio'n well na'i statws ac yn gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael, er gwaethaf yr heriau sydd wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf megis toriadau sylweddol yn y gyllideb, pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw sy'n effeithio nifer o gartrefi yn y Sir.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bwrw ymlaen â chyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol newydd a gwneud cynnydd da. Er enghraifft, mae bargen Twf Canolbarth Cymru gwerth £110m gam ymhellach yn nes at ddatgloi potensial yr economi leol ar ôl yr adolygiad cadarnhaol o'r asesiad portffolio. Mae Canolfan Llesiant Llambed bellach ar agor ac yn cynnig ystod o wasanaethau i gefnogi pobl leol ac mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer canolfannau yng ngogledd a de'r sir. Cawsom hefyd arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru o'n gwasanaethau cymdeithasol ym mis Chwefror/Mawrth 2023. Roedd yr arolygiad yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar ein Rhaglen Llesiant Gydol Oes sy'n trawsnewid y modd y darperir gofal cymdeithasol yng Ngheredigion.

Rydym hefyd yn buddsoddi mewn ffyrdd newydd o weithio a thechnoleg newydd i drawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau i'n cwsmeriaid. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r galw cynyddol, eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol, ac yn darparu profiad gwell i'n cwsmeriaid.

Drwy addasu'r ffordd yr ydym yn gweithio, gallwn alluogi'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau modern a fydd yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion.

Fodd bynnag, fel pob awdurdod lleol, mae heriau a chyfleoedd o'n blaenau, ac adlewyrchir y rhain yn yr adroddiad hwn. Nid yw egwyddorion hunanasesu yn newydd i Geredigion. Rydym wedi bod yn defnyddio hunanasesu ers tro fel arf dysgu i fyfyrio ar sut rydym yn gwneud pethau nawr, a sut y gallwn gyflawni gwelliannau neu ddarparu mwy o effeithlonrwydd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae hunanasesu wedi ein helpu i nodi camau gweithredu allweddol a fydd yn helpu i ysgogi canlyniadau gwell i'r sir a'i dinasyddion. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad pellach gyda dinasyddion, busnesau, Staff y Cyngor ac Undebau Llafur dros y misoedd nesaf i gasglu barn bellach ar sut y gallwn wella perfformiad ac edrychwn ymlaen at glywed eich barn.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn llawn gwybodaeth ac yn ffordd ddefnyddiol o gadw mewn cysylltiad ar ein taith gwella perfformiad.



**Cynghorydd Bryan Davies**
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion




Llun: Promenâd Aberystwyth

# AM GEREDIGION

**Mae Ceredigion yn 1,900$km^2$ o ran maint ac mae'n dir amaethyddol, yn rhostir ac yn goedwigoedd ar y cyfan, ac mae'r ardaloedd ucheldirol i'r dwyrain yn creu cyfran sylweddol o Fynyddoedd Cambria.**

Mae gan Geredigion amrywiaeth o dirluniau a chynefinoedd naturiol:  traethau a chlogwyni arfordirol ac ucheldir agored.  Mae pobl leol ac ymwelwyr yn gwerthfawrogi tirluniau ac amgylchedd naturiol y sir yn fawr.

Mae Ceredigion yn cynnwys cyfran uchel o dir a gydnabyddir am ei werth amgylcheddol uchel trwy gyfrwng dynodiadau swyddogol, gan gynnwys dwy ardal gwlypdir o bwysigrwydd rhyngwladol (aber afon Dyfi a Chors Caron);  13 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA);  tua 100 o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), saith Gwarchodfa Natur Genedlaethol a thair Gwarchodfa Natur leol.  Mae ucheldiroedd Mynyddoedd Cambria yn bwysig ar gyfer bywyd gwyllt, yn ogystal â'r 'rhostiroedd' gwlyb.

Mae gan Geredigion dros 90 cilomedr o arfordir.  Mae pedair adran o arfordir Ceredigion (tua 35 cilomedr) yn Arfordir Treftadaeth dynodedig. Mae Llwybr yr Arfordir Cymru yn dilyn llwybr 60 milltir (96km) rhwng aberoedd Teifi a Dyfi. Mae Llwybr yr Arfordir yn cysylltu trefi a phentrefi ar hyd arfordir ysblennydd Bae Ceredigion.

Yr afonydd a gaiff eu cynnwys yn nalgylch Ceredigion yw afonydd Rheidol, Ystwyth, Clarach, Aeron a Theifi. Mae dalgylch afonydd Ceredigion yn amrywiol ac yn wahaniaethol, ac mae pob afon yn llifo trwy amrywiaeth o dirluniau, cyn cyrraedd y môr. Afon Teifi yw un o'r afonydd hiraf yn ne-orllewin Cymru, ac mae'n 122 cilomedr o hyd.

Mae'r tirluniau deniadol a'r lleoliadau anghysbell yng Ngheredigion yn cynnig sylfaen ar gyfer twristiaeth 'lles gwledig', sy'n denu twristiaid i'r ardal. Mae bron  3 miliwn o ymwelwyr â Cheredigion yn blynyddol.

Er bod yr amgylchedd wastad wedi bod yn nodwedd lles a werthfawrogir, dros y blynyddoedd diwethaf, mae diogelu'r amgylchedd wedi dod yn rhywbeth llawer pwysicach i bobl. Mae effeithiau andwyol newid hinsawdd ar yr amgylchedd a natur yn cael eu cydnabod yn llawer mwy ac mae pobl eisiau gwneud mwy i warchod ein hamgylchedd. Yn 2020, datganwyd argyfwng newid hinsawdd gan Gyngor Sir Ceredigion, a chyn hyn, roedd y Cyngor wedi ymrwymo i fod yn gyngor carbon sero net erbyn 2030.

Mae economi Ceredigion yn eithaf nodweddiadol o economi nifer o ardaloedd gwledig ac arfordirol. Mae cyfran uchel o swyddi yn y diwydiant twristiaeth (12.9%), cyfanwerthu a manwerthu (12.9%) ac iechyd dynol a gweithgareddau gwaith cymdeithasol (12.3%).  Addysg yw'r sector mwyaf yn y sir, gan gyflogi tua 4,300 o bobl ac mae'n gyfrifol am tua 13.9% o'r swyddi yn y sir.

Yn wahanol i nifer o ardaloedd gwledig,

mae'r sir yn cynnwys dwy brifysgol, un yn Aberystwyth a Champws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan, ynghyd â sefydliadau cenedlaethol megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r economi wybodaeth yn gryf yng Ngheredigion ac mae ganddi 'economi werdd' sy'n tyfu, gan ganolbwyntio ar allyriadau carbon isel, defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a bod yn gynhwysol yn gymdeithasol.

Mae hunangyflogaeth yn elfen bwysig o'r economi leol, ac yn aml, mae Ceredigion yn cynnwys cyfran uchaf y bobl hunangyflogedig ar lefel genedlaethol. Mae nifer yn ffermwyr ac mae eraill yn gweithio mewn amrediad o fentrau bychain sefydledig megis trwsio a chynnal a chadw adeiladau.

Mae mwyafrif helaeth (99%) y mentrau yng Ngheredigion yn rhai maint 'micro', h.y. hyd at 9 cyflogai neu'n rhai 'bach' (10 i 49 cyflogai). Dim ond 1% o fentrau yng Ngheredigion sy'n cynnwys hanner cant o gyflogeion neu fwy. Mae cyfraddau goroesi busnesau newydd eu sefydlu yn gyson ymhlith yr uchaf yn genedlaethol, gan wneud Ceredigion yn lle gwych i ddechrau a thyfu busnes.

Ystyrir bod Ceredigion yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, er gwaethaf y ffaith ei bod yn cynnwys poblogaeth sylweddol o fyfyrwyr. Dangosodd canlyniadau o Gyfrifiad 2021 bod 45.3% o breswylwyr Ceredigion yn gallu siarad yr iaith Gymraeg, y drydedd ganran uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Ceir 43 o ysgolion yng Ngheredigion, y maent yn gymysgedd o ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed. Mae 37 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sy'n golygu bod mwyafrif ein poblogaeth iau yn dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg o oedran ifanc.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Ceredigion 2022-32 yn anelu at sicrhau bod holl ddisgyblion ysgolion yr awdurdod yn mynychu addysg trochfa cyfrwng Cymraeg hyd at saith oed ac yn cynyddu dewis y disgybl i ddilyn llwybr cwbl ddwyieithog drwy ei yrfa ac yn ei bywyd cymdeithasol yn y dyfodol. Mae hefyd yn cyfrannu at nod llesiant cenedlaethol Cymru a nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050.

Mae Ceredigion yn sir sy'n adnabyddus am ei safleoedd diwylliannol a threftadaeth. Ceir cestyll ac amgueddfeydd ar draws y sir ac mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Mae'r atyniadau hyn yn denu nifer o dwristiaid i'r ardal trwy gydol y flwyddyn.

# EIN SIR MEWN RHIFAU

**71,468**
pobl

**48** **mlwydd oed**
oedran cyfartalog



**4%**
poblogaeth BAME*

**7,845**
myfyrwyr prifysgol

**22%**
gydag anabledd

**30,893**
cartref



Tudalen 71

**43**
ysgol a 9,560 disgybl

**6**
cyfleuster hamdden

**2,265km**
o ffyrdd

**2,500km**
o llwybrau ceffyl a llwybrau cerdded

**2,810**
menter actif

**45.3%**
o breswylwyr yn siaradwyr Cymraeg

*BAME = Poblogaidd Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig*




Siambr y Cyngor, Penmorfa

# Y CYNGOR

Yn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, dychwelodd trigolion Ceredigion 38 o gynghorwyr mewn 34 o wardiau ar draws y Sir. Ym mis Mawrth 2023, mae'r weinyddiaeth newydd yn fwyafrif Plaid Cymru gyda 20 o gynghorwyr, ynghyd â 9 aelod annibynnol, 7 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a 2 heb eu grwpio. Arweinydd newydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Bryan Davies a'r Cynghorydd Ifan Davies yw Cadeirydd presennol y Cyngor.

Mae Ceredigion yn buddsoddi mewn technoleg newydd i trawsffurfio'r fyrdd mae gwasanaethau yn cael ei darparu i'n cwsmeriaid. Mae hyn er mwyn sicrhau ei bod yn cwrdd â'r galw sy'n tyfu ac yn gynaliadwy yn y dyfodol, mae hefyd er mwyn darparu profiad gwell i'n cwsmeriaid.

Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oed sydd yn trawsffurfio gofal cymdeithasol a'r Canolfan Cyswllt Cwsmer, 'CLIC' yn ddwy enghraifft dda o hyn.

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd heriol gyda pwysau ariannol sy'n cynyddu. Er mwyn cyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol tra'n cynnal gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, rhaid i daith ein gweithlu fod yn un o adolygu a newid parhaus. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal dull arloesol ac ystwyth, yn agored ac yn wydn i newid, gyda'r sgiliau i gefnogi ffyrdd callach o weithio mewn byd digidol.

## CYNGOR SIR CEREDIGION

STRWYTHUR RHEOLAETH:

**EIFION EVANS**
Prif Weithredwr


**BARRY REES**
Cyfarwyddwr Corfforaethol

| ELEN JAMES | CLIVE WILLIAMS | ELIN PRYSOR | DUNCAN HALL | ALUN WILLIAMS | RHODRI LLWYD | RUSSELL HUGHES-PICKERING |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol |
| Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Ysgolion | Cyfreithiol a Llywodraethu | Cyllid & Chaffael | Polisi, Perfformiad & Diogelu'r Cyhoedd | Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | Economi & Adfywio |

Ein nod yw gwella effeithlonrwydd ein prosesau a systemau mewnol, gan ein galluogi i fesur ein perfformiad yn effeithiol.

Mae'r Cyngor yn cyflogi 2,037 o staff (1,567 cyfwerth ag amser llawn (CALI)) Ein nod yw eiriol dros, ac adeiladu ar, ein hethos 'Tîm Ceredigion' Hyrwyddo ein hymdeimlad o berthyn, cysylltiad a phwrpas cyffredin. Rydym yn dyheu am bob aelod Tîm Ceredigion i ymfalchïo yn y gwaith y maent yn ei wneud, ac i gydnabod arwyddocâd eu cyfraniad i lwyddiant cyffredinol y Cyngor.

Mae'r Sir yn cynnwys tair ardal ddaearyddol sy'n cwmpasu gogledd, canol a de'r Sir. Mae gwasanaethau'r Cyngor wedi'u halinio â'r tri maes hyn i gynorthwyo â datblygu'r gweithlu a sicrhau cysondeb a thegwch wrth ddarparu gwasanaethau ar draws y Sir. ▶




**JAMES STARBUCK**
Cyfarwyddwr Corfforaethol

**DONNA PRITCHARD**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Porth Gofal
(Ymyrraeth wedi'i thargedu)

**GREG JONES**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Porth Cymorth Cynnar
(Lles Cymunedol a Thai)

**RICKY COOPER**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Porth Cynnal
(Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes)

**ALAN MORRIS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Cyswllt Cwsmer & TGCh

**LOWRI EDWARDS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Gwasanaethau Democrataidd

**GERAINT EDWARDS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Pobl & Trefniadaeth

UN TÎM

## RYDYM YN UN TÎM: TÎM CEREDIGION

**Mae'r dull Un Tîm yn rhan o diwylliant y Cyngor ac mae'n ammatod i'r ffyrdd newydd o weithio**

**Mae Un Tîm yn cefnogi'r Hunanasesiad wrth hwyluso cydweithio, meddwl cysylltiedig â chefnogaeth ar draws y gwasanaeth er mwyn cyflawni ein nodau Llesiant Corfforaethol a gwella canlyniadau i bobl leol a rhanddeiliaid**

# CEFNDIR I HUNANASESIAD 2022/23

Dyma ail Adroddiad Hunanasesu Cyngor Sir Ceredigion. Rydym wedi dysgu llawer ers dechrau gweithredu'r drefn hunanasesu perfformiad llywodraeth leol newydd a ddaeth i rym yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Yn ystod gaeaf 2022 aethom ati i adolygu ein dulliau hunanasesu a gwneud nifer o fân addasiadau i gryfhau'r broses. Roedd hyn yn cynnwys dyrannu mwy o amser i gynnal adolygiad bwrdd gwaith o dystiolaeth, addasu'r amserlenni i ddechrau'r gweithdai yn gynharach yn y flwyddyn a chynnal gweithdy ychwanegol i adolygu'r sgoriau cyn eu cyhoeddi. Y nod oedd mireinio'r broses yn seiliedig ar ein profiadau yn y flwyddyn flaenorol. Byddwn yn parhau yn flynyddol i adolygu'r ffordd y cynhaliwn yr hunanasesiad.

Rydym wedi dysgu llawer eleni wrth lunio Adroddiad Hunanasesu, sef adolygu ein cynnydd yn ystod 2022/23. Mae'r ymarfer wedi dod ag amrywiaeth eang o dystiolaeth ynghyd i asesu ein perfformiad ac adolygu ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol. Mae wedi tynnu ein sylw at yr heriau sy'n ein hwynebu, a hoelio ein sylw ar yr heriau hynny. Mae'n bwysig i ni barhau i addasu i ateb yr heriau hyn er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n gynaliadwy yn ogystal â'n bod yn nodi cyfleoedd i wella lefelau perfformiad, nodi arbedion effeithlonrwydd, neu'r ddau.

Rydym wedi adeiladu ar yr Adroddiad Hunanasesu cyntaf drwy gynnwys rhagor o wybodaeth am yr ymgynghori a'r ymgysylltu a wnaed yn ystod y flwyddyn. Sonnir ynddo am ganlyniadau ein gweithgareddau ac am strategaethau a pholisïau allweddol eraill sy'n gysylltiedig â'r Adroddiad Hunanasesu, neu sy'n ei gefnogi.

Mae'r hunanasesiad yn rhoi golwg i ni ar berfformiad y sefydliad cyfan. Mae saith thema yr ydym yn asesu ein hunain yn eu herbyn, sef:

- Cyflawni ein swyddogaethau yn effeithiol
- Defnyddio ein hadnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol
- Sicrhau bod ein llywodraethu yn effeithiol
- Arloesedd a chreadigrwydd
- Cydweithio
- Cynnwys pobl
- Rheoli Risg

Mae'r themâu hyn yn deillio o gyfuniad o'r Canllawiau Statudol ar y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghyd â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Maent yn adlewyrchu saith gweithgaredd craidd cyrff cyhoeddus fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gyfer pob thema rydym yn asesu a oes gennym gynlluniau ac amcanion ar waith, a yw'r cynlluniau a'r amcanion hynny'n cael eu cyflawni ac a ydynt yn gynaliadwy dros y tymor hwy ai peidio. Mae'r rhain yn ffurfio ein Prif Lwybrau Ymholi a dyma'r ffordd yr ydym yn asesu ein perfformiad cyffredinol.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau a sgôr bob thema. Mae'r system sgorio a ddefnyddir yn gyson â Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor. Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol CIPFA/SOLACE. Mae'n darparu graddfa Coch-Ambr-Gwyrdd i ddangos lle mae perfformiad yn dda a lle mae angen cymryd camau pellach, gweler y diagram ar y dde.

**ALLWEDD I'R ASESIAD**

**DA** (gwyrdd)
Ar y cyfan fe'i hystyrir yn dda ac yn bodloni arfer orau nid oes angen unrhyw gamau pellach

**DERBYNIOL** (gwyrdd golau)
Efallai y bydd angen mân addasiadau

**BODDHAOL** (ambr)
Camau i'w cymryd (cyn diwedd y flwyddyn 9-12 mis)

**O DAN BODDHAOL** (oren)
Angen Gweithredu Brys (o fewn 3-6 mis)

**ANNERBYNIOL** (coch)
Angen gweithredu ar unwaith

# CRYNODEB O BERFFORMIAD 2022-23

## CYFLAWNI EIN SWYDDOGAETHAU YN EFFEITHIOL

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddwyd Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2022 i 2027, ac ynddi nodir ei Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd. Mae gan y Cyngor gyfres o strategaethau allweddol ar waith i gefnogi a helpu i gyflawni'r Amcanion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Llesiant Gydol Oes, a'r Strategaeth Economaidd. Yn ystod 2022/23 diweddarwyd ein Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad a chyhoeddwyd strategaethau newydd ar Gydraddoldeb ac Amddifadedd mewn ysgolion a mabwysiadwyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ac yn ailysgrifennu ein Strategaethau Caffael, Rheoli Asedau a'r Iaith Gymraeg, tra bod ein Cynllun Gweithlu diwygiedig wedi'i ddrafftio ac wrthi'n mynd drwy'r broses ddemocrataidd ar hyn o bryd.

Mae cynnydd wrth weithredu'r strategaethau allweddol hyn yn parhau i fod yn dda. Mae Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn enghreifftiau da o hyn. Yn ystod 2022/23, cyflwynwyd Achos Busnes Portffolio Strategol diwygiedig yn ffurfiol i Lywodraethau Cymru a'r DU, sy'n golygu ein bod yn symud yn nes at dderbyn y gyfran gyntaf o'r cyllid o £110m fel rhan o'r Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth, ac fe'i disgwylir yn ystod y flwyddyn 2023/24.

Mae gosod blaenoriaethau hefyd yn cael ei ystyried yn waith cryf a chadarnhaol wrth i weinyddiaeth newydd y Cyngor ddod i rym yn ystod y flwyddyn er mwyn datblygu'r Strategaeth Gorfforaethol newydd a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol. Mae'r amcanion newydd yn seiliedig ar ymgynghori ac ymchwil helaeth gan gynnwys Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion.

Enghreifftiau eraill yw amcanion y Rhaglen Llesiant Gydol Oes a gadarnhawyd ac a gryfhawyd trwy arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae canlyniadau'r Strategaeth Gydol Oes yn cael eu cryfhau wrth i ni barhau i roi'r rhaglen ar waith.

Mae'r broses cynllunio busnes a ail-lansiwyd wedi'i gwreiddio ymhellach, ynghyd â chryfhau'r 'edau aur' sy'n dangos sut mae gweithgareddau pawb yn helpu i gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a chynyddu hyd y bo modd ein heffaith ar y nodau llesiant cenedlaethol.


Cydnabyddir bod Strategaethau'r Cyngor i'w llunio yn unol â'r 5 Ffordd o Weithio sy'n cynyddu eu gwytnwch a chynaliadwyedd.

Mae lle allweddol i hunanasesu yn y Llinyn Aur fel y ffordd yr ydym yn mesur llwyddiant ac yn ysgogi gwelliannau perfformiad, ynghyd â Chynllunio Busnes a rheolaeth a risg.

### Y 'Llinyn Aur' yng Nghheredigion



# RHEOLI EIN PERFFORMIAD

## Ein Siwrne Perfformiad

Yn syml, mae rheoli perfformiad yn cymryd camau mewn ymateb i berfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelir i wneud canlyniadau i bobl Ceredigion yn well nag y byddent fel arall.

Dros y pedwar blynedd diwethaf, mae dull Ceredigion o reoli perfformiad wedi'i adfywio a'i ddiweddaru. Ers hynny, gwnaed cynnydd da yn adeiladu diwylliant cryf o reoli perfformiad ar draws y sefydliad, ac yn paratoi ar gyfer y drefn newydd o Hunanasesu perfformiad a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y broses cynllunio busnes newydd, ail-lansiad y Bwrdd Perfformiad, a'r adborth positif i ddulliau'r Cyngor o hunanasesu.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn pwysleisio pwysigrwydd ymgorffori diwylliant rheoli perfformiad cryf, a sicrhau hyn yw prif egwddor siwrne perfformiad barhaus y Cyngor.

Mae'r hyn a ddysgwyd yn ystod pandemig COVID-19 wedi creu'r cyfle i gyflwyno newidiadau a gwelliannau cynaliadwy drwy ffyrdd newydd o weithio, a buddsoddi mewn technolegau newydd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da, a hynny mewn ffordd effeithlon sy'n ystyriol o'r amgylchedd.

Mae gan y Cyngor enw da am arloesi a dros y pum mlynedd nesaf mi fydd yn parhau i ddatblygu'r dull arloesol hwn ac yn symud tuag at ffyrdd mwy hyblyg a doeth o weithio. Bydd rheoli perfformiad yn chwarae rôl allweddol yn y trawsnewid hwn.

## Pwy sydd yn gyfrifol am Rheoli Perfformiad?

Mae pawb yn gyfrifol am reoli perfformiad – mae gan bawb rôl i'w chwarae o ran cyflawni amcanion y cynllun busnes, y tasgau a'r mesurau sy'n cynorthwyo i gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a gweledigaeth gyffredinol y Cyngor. Mae Tabl 1 yn dangos pwy sy'n gyfrifol am beth.

## Fframwaith Rheoli Perfformiad

I sicrhau ein bod yn cyflawni hyn, mae gennym Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ei le sy'n caniatáu inni adolygu ac olrhain cynnydd yn rheolaidd, gwirio sut rydym yn perfformio, a sicrhau ein bod yn cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol ac yn gwella canlyniadau i bobl a chymunedau Ceredigion.

Mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn gweithredu ochr yn ochr â strwythur cyffredinol y Strategaeth Gorfforaethol, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, Amcanion Llesiant Corfforaethol, Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a Rheoli Rhaglenni/Prosiectau.

Mae'n rhan o broses cynllunio corfforaethol y Cyngor ac yn sicrhau dealltwriaeth gyson o egwyddorion rheoli perfformiad, a sut y cânt eu gweithredu yng Ngheredigion.


## Y Cylchred Gwelliant Parhaus

Mae ein dull o reoli perfformiad yn seiliedig ar gylchred gwelliant parhaus, sy'n dilyn y cylchred Cynllunio-Gwneud-Adolygu a gydnabyddir gan y diwydiant, ac a ddangosir yn y diagram isod. Mae'r cylchred hwn yn seiliedig ar y camau canlynol:

- **Cynllunio** ein gweithgareddau i gyflawn-i'n gweledigaeth a'n Hamcanion Llesiant Corfforaethol
- **Gwneud** neu gyflawni'r gweithgareddau
- **Adolygu** ein cynnydd yn rheolaidd i asesu a ydyn ni'n cyflawni'n hamcanion
- **Myfyrio** ar y ffordd rydym yn cyflawni'n gweithgareddau i nodi cyfleoedd i wella, neu i fod yn fwy effeithlon, neu'r ddau.

Mae Rheoli Perfformiad yn flaenoriaeth uchel yng Ngheredigion. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella'n barhaus, ac mae'n gofyn barn y trigolion ac yn hunanwerthuso'n rheolaidd i nodi cyfleoedd i wella.

### Y Cylchred Gwelliant Parhaus yng Ngheredigion




- Cynllunio
- Gwneud
- Adolygu
- Adlewyrchu

# ASESIAD SY'N SILIEDIG AR DYSTIOLAETH

**Mae Ceredigion yn ymdrechu i fod yn sefydliad a yrrir gan dystiolaeth a data. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o dystiolaeth wrth asesu ein perfformiad ac wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.**

Rhennir y ffynonellau hyn yn dri chategori sy'n ein helpu i wirio bod ein casgliadau'n gywir a darparu darlun cywir o'n perfformiad presennol.

Y tri chategori yw'r **dystiolaeth fewnol** sydd ar gael i ni trwy strategaethau allweddol a monitro mewnol, megis y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol a monitro Cwynion. Mae hyn yn rhoi golwg fewnol i ni o sut mae'r sefydliad yn perfformio.


Rydym hefyd yn defnyddio'r **dystiolaeth reoleiddiol ac allanol helaeth** sy'n bodoli. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau arolygu gan Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru a'r gwaith parhaus a wneir gan Archwilio Cymru. Mae hyn yn rhoi golwg reoleiddiol neu allanol i ni o sut rydym yn perfformio gan gyrff annibynnol.

Y trydydd categori o dystiolaeth ydy'r **ymgynghori a'r ymgysylltu** a gynhelir yn barhaus.. Mae hwn yn cofnodi barn yr holl randdeiliaid yng Ngheredigion, gan gynnwys dinasyddion, busnesau, staff y cyngor ac Undebau Llafur, gan gynnig safbwynt y rhai sy'n derbyn gwasanaethau gan y Cyngor.

Mae gan y Cyngor broses ymgysylltu ac ymgynghori barhaus ar waith drwy gydol y flwyddyn a ddefnyddir i gofnodi barn trigolion ar amrywiaeth o swyddogaethau'r Cyngor (gweler tudalennau 22-27).

Mae'r tri chategori tystiolaeth hyn yn ein helpu i 'driongli' neu wirio mai'r casgliadau y byddwn yn dod iddynt yw'r rhai cywir drwy ganiatáu inni gymharu'r canfyddiadau allweddol o bob un a sicrhau eu bod yn cyd-fynd cyn cynhyrchu'r Adroddiad Hunanasesu. Dangosir y berthynas hon yn y diagram gyferbyn, lle mae'r dystiolaeth yn bwydo'n gyfartal i'r dadansoddiad bwrdd gwaith ac yn y pen draw yr adroddiad hunanasesu.

## Mathau o dystiolaeth a defnyddiwyd wrth gynnal Hunanasesiad



# CATEGORÏAU TYSTIOLAETH

### Ansawdd Data

Mae pob cam o'r broses hunanasesu a'r broses rheoli perfformiad ehangach yn dibynnu ar dystiolaeth a data i alluogi'r Cyngor i farnu beth yw anghenion Ceredigion, beth yw anghenion ei chwsmeriaid, beth mae wedi'i gyflawni, a sut mae'n cymharu. Mae'n hanfodol felly bod yr holl wybodaeth hon yn seiliedig ar ddata o ansawdd uchel, dibynadwy ac amserol er mwyn sicrhau bod y dyfarniadau sy'n seiliedig arno yn gadarn.

Mae ein fframwaith perfformiad yn cefnogi hyn drwy helpu i sicrhau y darperir data cyflawn, cywir ac amserol a ddefnyddir mewn monitro mewnol ac a gyhoeddir yn allanol i gyfleu cynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei weledigaeth a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Mae'r tabl gyferbyn yn rhoi rhestr o'r mathau o ffynonellau a data sy'n cael eu hystyried yn hunanasesiad Ceredigion, ac wedi'u rhannu yn ôl math o gategori.▶

## Ffynonellau a defnyddiwyd wrth gynnal yr Hunanasesiad ac Adolygiad o'r Amcanion Llesiant

### TYSTIOLAETH MEWNOL

- Strategaeth Corfforaethol
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Datganiad o Gyfrifon
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adborth ac Adroddiadau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gofal
- Dangosfyrdd Perfformiad Chwarterol
- Monitro Cynllunio Busnes
- Dangosfwrdd y Strategaeth Gorfforaethol
- Dangosfwrdd yr Hunanasesiad
- Cofrestr Risg Corfforaethol
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Adroddiadau Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion
- Canlyniadau Mesur Perfformiad
- Adroddiadau Hunanasesu Blaenorol
- Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Treth Cyngor / Cyfraddau Casglu
- Archwiliad Sgiliau Digidol 2022
- Adolygiad o Trefniant Gweithio Hybrid

### TYSTIOLAETH RHEOLEIDDIO & ALLANOL

- Adroddiad Gwella Blynyddol Archwilio Cymru
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adroddiadau Arolygu Archwilio Cymru
- Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adroddiadau arolygiad Estyn
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Panel Asesu Perfformiad
- Adorddiadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Adroddiadau Blynyddol BGC Ceredigion
- Asesiad o Lesiant Lleol BGC Ceredigion
- Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru
- Data Cymru
- YstadegauCymru
- Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

### YMGYNGHORIAD & YMGYSYLLTU

- Adroddiadau Adborth Ymgynghori
  - Ymgynghoriad Blynyddol Rhanddeiliaid
  - Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant
  - Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi
  - Strategaeth Mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar
  - Strategaeth Corfforaethol Ceredigion
  - Cynllun Llesiant Lleol
- Ymarferion Ymgysylltu gan gynnwys:
  - Datblygu Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol i ddarparu cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
  - Arolwg Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru
  - Llifogydd yn Llanybydder, Llandysul a Phont-Tyweli
  - Addysg ôl-16
  - Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn
  - Defnydd o Adeiladau'r Cyngor yn y dyfodol
- Arolwg Llesiant Rhanbarthol
- Ymgysylltu gyda grwpiau rhanddeiliaid gan gynnwys y Fforwm Anabledd,y Fforwm Pobl Hŷn
- Her Cyllideb Ceredigion
- Cyfarfodydd Misol Undebau Llafur
- Arolygon Staff Ffyrdd Newydd o Weithio
- Arolygon Iechyd a Lles Staff

# DYSGU ODDI WRTH YMGYNGHORI & YMRWYMO

**Mae ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn thema graidd drwy gydol ein proses hunanasesu a'n dull rheoli perfformiad ehangach.**

Mae'n rhan annatod o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn ein rheolaeth perfformiad a bydd yn parhau i chwarae rhan fwy byth wrth i ni archwilio cyfleoedd i wella gydag amrywiaeth o unigolion a grwpiau ar draws y Sir.

Mae'n bwysig ein bod yn rhoi cyfle i drigolion a rhanddeiliaid ddweud wrth y Cyngor am eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer eu cymunedau ac am yr hyn y maent ei eisiau o ran darparu gwasanaethau.

Mae ein Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi, a gymeradwywyd ym mis Hydref 2022, yn nodi sut y byddwn yn siarad ac yn gwrando gyda phawb sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yng Ngheredigion, gan gynnwys pobl nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Mae ein dyletswydd gyfreithiol i ymgynghori wedi'i nodi mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - rhaid i'r Cyngor gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau Llesiant Cenedlaethol.
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - rhaid i'r Cyngor annog cyfranogiad y cyhoedd yn ein penderfyniadau.
- Mesur y Gymraeg 2011 - rhaid i'r Cyngor ofyn i'r cyhoedd am eu barn ar yr effaith y bydd ein penderfyniadau yn ei chael ar y Gymraeg.
- Deddf Cydraddoldeb 2010 - rhaid i'r Cyngor gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig.
- Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996 - rhaid i'r Cyngor ymgynghori â sefydliadau a bennir yn y Rheoliadau a rhaid iddynt hysbysu pobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan orchymyn traffig.
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 - rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion sy'n amlinellu'r egwyddorion y dylid eu hystyried wrth gynnig gwneud newidiadau i ddarpariaeth ysgolion.

Lle mae angen mwy o adborth gan grwpiau penodol, rydym yn addasu ein dull yn ystod y flwyddyn i dargedu'r ardaloedd hynny a sicrhau bod holl gymunedau Ceredigion yn cymryd rhan. Rydym yn ymgysylltu â'r llu o grwpiau a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau penodol yn y sir, ac yn arbennig i sicrhau bod lleisiau'r rhai na chlywir yn aml yn cael eu clywed yn wir.

Nid yw'n ymwneud â'n dyletswydd gyfreithiol yn unig, fodd bynnag. Mae ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn rhoi gwell gwybodaeth i ni i'n helpu i wneud penderfyniadau. Gall hyn arwain at ganlyniadau gwell i'n trigolion.

Nid oes un ateb 'sy'n addas i bawb' i ymgysylltu. Ein nod yw defnyddio'r math gorau o ymgysylltu ar gyfer y sefyllfa gywir.

Cyflawnir ymgysylltiad parhaus trwy sgwrs barhaus rhwng y Cyngor a'n cymunedau lleol. Weithiau, ymarfer ymgysylltu neu ymgynghori wedi'i dargedu yw'r dull gorau. Mewn achosion eraill, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ddilyn proses benodol i hysbysu'r cyhoedd a rhoi cyfle i gael adborth.

Mae llawer yn cael ei wneud i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid. Fel arfer, cyflwynir adborth ar ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori i gyfarfodydd y Cabinet.

Mae sesiynau trafod, gweithdai thematig, cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol a sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb hefyd yn cael eu cynnig, yn enwedig lle ceisir adborth gan garfan benodol, er enghraifft y Cyngor Ieuenctid, neu mewn man penodol, er enghraifft llifogydd yn Llanybydder, Llandysul/Pont-Tyweli.

Yn 2022/23 rydym wedi elwa o rai digwyddiadau ymgysylltu pwysig sy'n rhoi cipolwg unigryw ar farn dinasyddion a rhanddeiliaid.

Mae'r rhain yn cynnwys y Strategaeth Gorfforaethol rhwng mis Medi a mis Hydref 2022, lle y mynegodd trigolion eu barn ar yr Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd, a'r ymgynghoriad ar Ddefnyddio Swyddfeydd Cyngor yn y Dyfodol rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023, a oedd yn gofyn am y ffordd orau o ddefnyddio swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol. Mae'r ddau o'r rhain wedi'u defnyddio wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.

### Undebau Llafur

Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng y Cyngor ac Undebau Llafur cydnabyddedig. Caiff y rhain eu cadeirio gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Pobl a Thrafnidiaeth ac maent yn darparu fforwm ymgynghorol i gymryd rhan mewn a helpu i lywio cyfeiriad ar gyfer materion gweithlu a phryderon unigol ynghylch lles ac ymddygiad. Mae'r ddeialog barhaus hon yn bwysig i'r Cyngor drwy sicrhau bod gan staff lais ac adeiladu ar y wybodaeth a gafwyd o'n harolygon staff a'n hymgynghoriadau.

Cyfarfod â chynrychiolwyr yr Undebau Llafur i amlinellu'r broses Hunanasesu a'u rôl fel ymgynghorwyr statudol. Nid oes unrhyw faterion penodol wedi'u codi gan yr Undebau Llafur ar hyn o bryd, er bod hyn yn debygol o ddatblygu wrth i'r broses ymwreiddio mwy ym mhob prif gyngor. Mae gweithio mewn partneriaeth â'n Hundebau Llafur yn hanfodol i gyflawni'r Cynllun Gweithlu yn llwyddiannus.

### Ymgynghori â Staff

Mae gan Geredigion hanes cryf o hysbysu staff a mesur teimladau staff, hyd yn oed cyn pandemig COVID-19 a mabwysiadu'r fenter ffyrdd newydd o weithio. Yn

2022/23, ymgysylltwyd â staff ar ffurf y Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro i gofnodi safbwyntiau ar y trefniadau gweithio newydd, yr Arolwg Iechyd a Lles blynyddol diweddaraf i gofnodi teimladau staff ar draws ystod o faterion o'u llesiant i trefniadau gweithio, ac Adolygiad Gweithio Hybrid y Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio ym mis Mawrth 2023 i gofnodi adborth ar effeithiolrwydd y trefniadau gweithio hybrid newydd. Rhestrir rhai o'r arolygon rheolaidd a gynhaliwyd i sicrhau bod y Cyngor yn ymgysylltu â'i staff isod. Mae canfyddiadau'r ymarferion hyn wedi'u defnyddio yn yr hunanasesiad.

- Arolwg TG Gweithio O Gartref (Mehefin 2020)
- Arolwg Iechyd a Lles Coronafeirws (Tachwedd 2020)
- Arolwg Staff Y Ffordd Rydym yn Gweithio (Mawrth 2021)
- Arolwg Staff Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro (Gorffennaf 2022)
- Arolwg Iechyd a Lles (Chwefror 2020)
- Arolwg Pwls Iechyd a Lles Gweithwyr (Tachwedd 2021)
- Arolwg Iechyd a Lles Gweithwyr (Rhagfyr 2022)
- Adolygiad Gweithio Hybrid Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio

**Ymrwymiadau Cyhoeddus**

Cynhaliwyd saith ymarfer ymgysylltu wedi'u targedu yn ystod 2022-23. Roedd rhai yn cael eu rhedeg gan y Cyngor yn unig a rhai yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth ag eraill wrth i ni geisio lleihau 'blinder ymgynghori'. Bydd adborth o'r ymarferion hyn yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau a strategaethau ar gyfer y dyfodol. Ceir manylion yr ymarferion hyn drosodd.

# YMGYNHORIAD RHANDDEILIAD CORFFORAETHOL

**Yn ystod 2023 rydym yn rhedeg ein cyntaf o 'Arolygon Rhanddeiliad' mewn cyfres gyfredol i gefnogi hunanasesiad a thaith perfformiad cyfredol y cyngor.**

Mae'n galluogi ni i wirio gyda phreswylwyr, busnesau a rhanddeiliaid arall megis grwpiau cymunedol, ar nifer o faterion megis y cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant corfforaethol, y blaenoriaethau wrth symud ymlaen a'r ffordd yr ydym yn monitro a mesur perfformiad.

Mae'r cyntaf o rain yn cael i'w rhedeg yn ystod haf 2023 a bydd y canlyniadau yn cael ei defnyddio i hysbysu'r rownd nesaf o hunanasesiad.

Mae eich barnau yn bwysig i ni. Rydym yn croesawu eich barn ar yr adroddiad yma, ein perfformiad a'r camau yr ydym yn cymryd, unrhyw bryd.

Defnyddiwch y manylion cyswllt ar y clawr cefn i gysylltu efo ni neu cadwch lygad allan am yr arolwg rhanddeiliaid blynyddol.





**CYSYLLTWCH Â NI**


**Ebost:** clic@ceredigion.gov.uk

**Post:** Performance and Research
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Ffôn:** 01545 570881







# YMARFERION YMRWYMO YN 2022/23

| Amser yr Ymarfer | Disgrifiad | Ymateb | Beth Nesaf |
|---|---|---|---|
| **Datblygu Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol i ddarparu cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (Mai/Mehefin 2022)** | Cynhaliodd Tyfu Canolbarth Cymru (Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys) ymarfer ymgysylltu mewnol ac allanol i wahodd barn ar sut y dylid defnyddio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU dros y 3 blynedd nesaf. | 176 o ymatebion i arolwg ar-lein ynghyd â dros 150 o randdeiliaid a fynychodd weminar ac 20 o sefydliadau sy'n aelodau o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. | Defnyddiwyd ymatebion i helpu i lunio blaenoriaethau lefel uchel Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2022-25. Mae'r Cynllun yn rhoi arweiniad i fusnesau a sefydliadau lleol sy'n dymuno gwneud cais am gyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. |
| **Llifogydd yn Llanybydder, Llandysul a Phont-Tyweli (Mehefin - Awst 2022)** | Cynhaliodd Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ymgysylltiad 12 wythnos a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin i ofyn barn y cyhoedd i gael gwell dealltwriaeth o'r effaith y mae llifogydd yn ei chael ar y cymunedau. | 124 (58: Llanybydder a 66: Llandysul/ Pont-Tyweli). | Bydd ymatebion yn bwydo i gam nesaf y gwaith ac yn ffurfio rhan o wneud penderfyniadau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i ddylunio a gweithredu cynllun lleihau risg o lifogydd. |
| **Arolwg Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru (Gorffennaf - Medi 2022)** | Ymgysylltiad 7 wythnos a gynhelir gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys) i fod yn sail i Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru 2022-25. | 69 (73% o Bowys / 27% o Geredigion) | Lansiwyd Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru 2022-25 ym mis Mawrth 2023. Mae'r Cynllun yn nodi sectorau allweddol a sgiliau a blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad rhanbarthol i gefnogi swyddi a thwf yn rhanbarth Canolbarth Cymru. |
| **Addysg ôl-16 (Hydref 2022)** | Cynhaliodd Ysgolion a Diwylliant 4 wythnos o ymgysylltu â busnesau, rhieni, disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd a myfyrwyr prifysgol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am yr ystod o gyrsiau a'r math o ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer dysgwyr ôl-16. | 1,307 i'r arolwg ar-lein. | Bydd yr ymatebion yn bwydo i mewn i'r adolygiad o ddarpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion. |
| **Defnydd o Adeiladau'r Cyngor yn y dyfodol (Rhagfyr 2022/Ionawr 2023)** | Cynhaliodd Economi ac Adfywio ymgysylltiad 8 wythnos gyda'r cyhoedd i ofyn am eu barn ar y ffordd orau o ddefnyddio prif swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol. | 533 (508 i'r arolwg ar-lein a 25 i fersiwn bapur). Cafwyd ymatebion ychwanegol hefyd drwy Clic. | Bydd adborth yn cael ei ystyried, ochr yn ochr ag adborth gan staff y Cyngor a data ar ddefnyddio desgiau ac ystafelloedd cyfarfod mewn ardaloedd swyddfa hybrid peilot. |
| **Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn (Ionawr – Mawrth 2023)** | Cynhaliodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion ymgysylltiad 8 wythnos i gasglu barn am drosedd ac anhrefn yn y sir. | 89 o ymatebion i'r arolwg ar-lein, 3 ymateb ar arolwg papur a 9 ymateb o ddigwyddiad Cyngor Ieuenctid Ceredigion. | Bydd yr ymatebion yn sail i Gynllun Cyflawni Diogelwch Cymunedol Ceredigion sy'n ceisio amddiffyn cymunedau lleol rhag trosedd a helpu pobl i deimlo'n fwy diogel. |
| **Cynllun Gweithredu Dementia Ceredigion (Chwefror/Mawrth 2023)** | Cynhaliodd ein rhaglen Llesiant Gydol Oed 6 wythnos o ymgysylltu â'r cyhoedd, gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn, i sefydlu sut yr ydym yn gwneud a beth y gallwn ei wneud i wella bywydau pobl sy'n byw gyda dementia a'r rheini sy'n gofalu amdanynt. | 35 o'r arolwg ar-lein ynghyd â 10 o sesiynau galw heibio mewn 6 lleoliad ar draws y sir. Casglwyd ymatebion ychwanegol o ymweliadau wyneb yn wyneb â 5 grŵp/cartref gofal, sesiynau ffocws gyda darparwyr gwasanaethau a 55 x galwadau fideo un i un. | Bydd ymatebion yn bwydo i ddatblygiad Cynllun Gweithredu Dementia Ceredigion. |

# YMARFERION YMGYNGHORI YN 2022/23

Cynhaliwyd pum ymarfer ymgynghori i gael adborth y cyhoedd ar gynlluniau neu gynigion penodol. Cyflwynwyd canlyniadau'r ymarferion ymgynghori i'r Cabinet ochr yn ochr â'r cynllun neu'r polisi terfynol. Mae'r holl gynlluniau a pholisïau a gymeradwywyd bellach wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor (ar wahân i'r Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Canolbarth Cymru a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ar 06/06/23).

| Amser yr Ymarfer | Disgrifiad | Ymateb | Effaith yr Ymgynghoriad |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (Mai/ Mehefin 2022)** | Cynhaliodd Ysgolion a Diwylliant ymgynghoriad 4 wythnos i geisio barn partïon a chanddynt fuddiant ar adroddiad drafft yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Roedd y ddogfen ddrafft yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad helaeth argaeledd gofal plant yng Ngheredigion. | 17 | Roedd pobl yn cytuno'n gyffredinol â chynnwys yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Mae'n debyg bod hyn oherwydd yr ymgynghoriad helaeth a gynhaliwyd yn 2021-22 i fod yn sail i adroddiad yr asesiad. Datblygwyd y cynllun gweithredu yn unol â'r ddogfen wreiddiol. |
| **Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi (Gorffennaf-Medi 2022)** | Cynhaliodd Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ymgynghoriad 8 wythnos i ofyn am farn partïon a chanddynt fuddiant ar sut y dylai'r cyngor ymgysylltu â'r cyhoedd ac i ofyn am adborth ar y polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad drafft. | 112 | Diwygiwyd y polisi terfynol mewn ymateb i'r adborth a gafwyd. |
| **Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Canolbarth Cymru (Gorffennaf/ Awst 2022)** | Cynhaliwyd ymgynghoriad rhanbarthol 13 wythnos gan Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ofyn am farn partïon a chanddynt fuddiant ar y strategaeth hon sy'n canolbwyntio ar gymorth integredig yn ystod 7 mlynedd gyntaf bywyd plentyn. | 137 | Gwnaed gwelliannau i'r strategaeth yn seiliedig ar adborth a gafwyd. |
| **Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022-27 (Awst/ Medi 2022)** | Cynhaliodd Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ymgynghoriad 5 wythnos i ofyn barn trigolion Ceredigion ar Strategaeth Gorfforaethol ddrafft Cyngor Ceredigion a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol arfaethedig dros y 5 mlynedd nesaf. | 51 | Cafodd gwelliannau a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad eu hymgorffori yn y ddogfen derfynol. |
| **Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2023-28 (Hydref 2022-Ionawr 2023)** | Cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ymgynghoriad 14 wythnos i ofyn am adborth gan y cyhoedd ar gynnwys y Cynllun Llesiant Lleol drafft ar gyfer Ceredigion. Roedd y Cynllun drafft yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad helaeth, gan gynnwys ymgynghori, a gynhaliwyd yn 2021-22 ar gyflwr llesiant yng Ngheredigion. | 34 o arolygon wedi'u cwblhau, ynghyd ag adborth o sesiynau ffocws gydag 16 ysgol a Chyngor Ieuenctid Ceredigion. 7 ymateb manwl gan sefydliadau lleol a chenedlaethol a 15 ymateb ar y wal syniadau ar 'Dweud eich Dweud'. | Ymgorfforwyd sylwadau ac adborth yn y ddogfen derfynol a byddant hefyd yn gwella datblygiad y cynllun cyflawni manwl. |

# YMARFERION HYSBYSU 2022/23

Mewn rhai achosion, mae gan y Cyngor dyletswydd i hysbysu'r cyhoedd am cynig a darparu ffordd i grwpiau gyda diddordeb i ymateb. Cynhaliwyd pedwar ymarfer 'hysbysu' yn ystod y cyfnod.

| Teitl y Gweithgaredd | Disgrifiad | Ymateb |
|---|---|---|
| **Cais am Gofrestru Cae Erw Goch** | Rhestrir yr holl ohebiaeth, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd y Cabinet sy'n ymwneud â'r mater hwn, ar wefan y Cyngor | 2 |
| **Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol (GRTA)** | Gwnaethpwyd dau GRTA i gadw a diwygio nifer o fesurau rheoli traffig a gyflwynwyd yn flaenorol yn ystod y pandemig Covid-19 yn Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Chei Newydd trwy Orchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro. | 34, ynghyd â thrafodaethau gyda'r Fforwm Anabledd |
| **Cynlluniau Pensaer ar gyfer Ysgol Ardal Gymunedol Dyffryn Aeron** | Cynhaliwyd noson agored ar gampws Theatr Felinfach i bobl weld y cynlluniau pensaer a oedd hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. | 48 |
| **Cau llwybr troed Ysgol Uwchradd Aberaeron** | Rhestrir copi o'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, ymatebion, a sylwadau ar ymatebion gan y Cyngor ar wefan y Cyngor. Mae'r holl ymatebwyr hefyd yn cael ymateb ysgrifenedig gan y Cyngor. | 8 |

# YMGYNGHORIAD Y STRATEGAETH CORFFORAETHOL

Un enghraifft o ymgynghori a gynhaliwyd oedd ar Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2022 i 2027. Mae'r ddogfen hon yn bwysig oherwydd ei bod yn nodi Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd y Cyngor (blaenoriaethau corfforaethol) wrth symud ymlaen. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i randdeiliaid am y Strategaeth rhwng mis Medi a mis Hydref 2022. Er ein bod yn cydnabod mai nifer fach o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, mae'r ymatebion yn hollbwysig er mwyn deall beth sy'n flaenoriaeth i Geredigion ac sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth iddi.

Yn gyffredinol, roedd lefel uchel o gefnogaeth i'r Amcanion Llesiant Corfforaethol ac roedd y sylwadau ysgrifenedig lle'r oedd ymatebwyr yn tynnu sylw at themâu sy'n berthnasol iddynt, yn cyd-fynd yn agos â'r uchelgeisiau a'r camau yn y Strategaeth. Mae'r diagram gyferbyn yn dangos hyn.

## YR HYN A DDYWEDOCH WRTHYM

**78%**

Cytuno neu cytuno'n gryf gyda'r amcan Hybu'r Economi (6% yn anghytuno neu anghytuno'n gryf)

**75%**

Cytuno neu cytuno'n gryf gyda'r amcan Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach (8% yn anghytuno neu anghytuno'n gryf)

**71%**

Cytuno neu cytuno'n gryf gyda'r amcan Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd (4% yn anghytuno neu anghytuno'n gryf)

**73%**

Cytuno neu cytuno'n gryf gyda'r amcan Creu Cymunedau Cynaliadwy, mwy Gwyrdd ac sydd wedi'u Cysytlltu'n Dda a'i Gilydd (2% yn anghytuno neu anghytuno'n gryf)

# YMGYNGHORIAD Y STRATEGAETH CORFFORAETHOL

| YR HYN A DDYWEDOCH | SUT MAE EIN STRATEGAETH GORFFORAETHOL YN ALINIO |
|---|---|
| **Cefnogaeth i fusnesau, busnesau bach a chanolig a chynlluniau newydd** | • Parhau i ddatblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru gwerth £110m<br>• Cefnogi cais Ceredigion i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU<br>• Cefnogi datblygiad y prosiect Trefi Smart yn Aberteifi, yn ein trefi arall yng Ngheredigion |
| **Cysylltiad digidol i bawb, nid dim ond canran** | • Cefnogi cyflwyno Band Eang 4G |
| **Effaith amgylcheddol o ddatblygiad a thwf economaidd** | • Galluogi mentrau a mesurau lliniaru i helpu i ddatrys y mater ecolegol ffosffadau a maetholion yn Nyffryn Teifi a dalgylchoedd arall<br>• Dilyn Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion<br>• Blaenoriaethu cynnyrch o ffynonellau a chadwyni cyflenwi lleol mewn busnesau'r cyngor |
| **Cyfleusterau hamdden a chyfleoedd i bobl ifanc** | • Mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau ar ôl ysgol, gyda’r nos ac ar y penwythnos, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer Chwarae hunangyfeiried a ddewisir yn rhydd a bod y gwasanaethau hyn wedi’u cofrestru i alluogi rhieni i gael mynediad at gymorth ariannol<br>• Cefnogi disgyblion a theuluoedd i gael mynediad i glybiau ieuenctid lleol, grwpiau cymdeithasol a gweithgareddau wedi'u trefnu |
| **Cyfleoedd teithio effeithiol yn enwedig cerdded a beicio** | • Darparu cyfleusterau hamdden fodern, hygyrch ac ysbrydoledig ar draws y tair ardal yng Ngheredigion (gogledd, canolbarth a deheuol)<br>• Hybu pobl i wneud ymarfer corff fel bod modd iddynt fuddio o iechyd a lles positif<br>• Cyflwyno pecynnau aelodaeth well i ddefnyddio canolfannau hamdden sy’n cael ei rheoli gan y Cyngor<br>• Darparu cyfleoedd addysg gorfforol allgymorth tu allan i ganol trefi'r sir |
| **Heriau sy’n wynebu darpariaeth gofal cymdeithasol** | • Symud ymlaen gydag adeiladau cartref nyrsio newydd yn ardal Aberystwyth a darparu’r anghenion gofal nyrsio sydd angen ar ein poblogaeth<br>• Cefnogi’r uchelgais o greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru<br>• Symud ymlaen gyda Darpariaeth Model Gydol Oed, darparu 70% o fewn gwasanaethau cyffredinol a chymorth cynnar, 20% mewn gwasanaethau Asesiad a thymor byr a 10% mewn gwasanaethau Arbenigol |

| YR HYN A DDYWEDOCH | SUT MAE EIN STRATEGAETH GORFFORAETHOL YN ALINIO |
|---|---|
| **Cyfleoedd dysgu i oedolion a phobl hŷn** | • Datblygu fforwm cyflogwyr cadarn drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, yr Economi ac Adfywio, a LL&S<br>• Datblygu cysylltiadau ar-lein/cymdeithasol a digwyddiadau dros dro i farchnata rolau/sectorau yng Ngheredigion<br>• Ymgymryd ag adolygiad o addysg dros 16 a gweithredu’r argymelliadau cymeradwy<br>• Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth E-sgol<br>• Sicrhau bod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei defnyddio ar brosiectau a nodwyd i ddatblygu sgiliau priodol i gefnogi’r economi leol |
| **Cysylltu cymunedau trwy llwybrau teithio effeithiol** | • Sicrhau mwy o arian ar gyfer darparu ystod eang o welliannau teithio llesol<br>• Ymgyrchu dros lwybrau teithio llesol ar hyd ein cefnffyrdd i gyd<br>• Gwthio i gynnwys ein trefi bach ac ardaloedd gwledig yn feini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid i lwybrau teithio llesol |
| **Gwella cludiant cyhoeddus a chostau uchel** | • Cefnogi gwasanaeth ar-alw Bwcabus yn ein cymunedau gwledig yn amodol ar gyfleoedd ariannu parhaus a chynyddol gan Lywodraeth Cymru<br>• Dadleu yn gryf dros unrhyw uchelgeisiau gan Lywodraeth Cymru i fasnach freinio llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus i gynnwys cwmnïau bysiau bach lleol<br>• Gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi a chynnal y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus, ac adnabod cyllid/ gwelliannau ble mae’n bosib |
| **Darparu gofal plant a recriwtio siaradwyr Cymraeg** | • Hyrwyddo’r Cynnig Gofal Plant i rieni plant 3 i 4 oed sy’n gweithio<br>• Bydd rhieni/gwarcheidwaid sydd mewn addysg neu hyfforddiant ac sy’n bodloni’r meini prawf cymhwysedd yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant<br>• Cefnogi argaeledd gofal plant ar gyfer plant 2 oed<br>• Codi ymwybyddiaeth/hyrwyddo Gofal Plant Di-dreth i rieni sy'n gweithio<br>• Cefnogi datblygiad a chynaliadwyedd darpariaeth gofal plant cofrestredig |
| **Amddifadedd Gwledig** | • Datblygu canolfan adnoddau i gefnogi teuluoedd bregus / incwm isel<br>• Incwm cartref uwch ben y cyfartaledd cenedlaethol |

# ADOLYGIAD O’R AMCANION LLESIANT

Cyhoeddwyd y Strategaeth Gorfforaethol newydd ym mis Tachwedd 2022 a chytunwyd mai’r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd oedd:

- Hybu’r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi’u cysylltu’n dda â’i gilydd

Mae Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor yn galluogi darparu gwasanaethau a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion a chymunedau Ceredigion. Adolygwyd yr Amcanion yn ystod 2022 a chytunwyd ar set newydd i gyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer y cyfnod 2022-27. Nodwyd yr Amcanion newydd drwy amrywiaeth eang o dystiolaeth, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion ac uchelgeisiau'r weinyddiaeth wleidyddol newydd.

Cam cyntaf y broses oedd cynnal dadansoddiad pen bwrdd o amrywiol ddarnau o dystiolaeth, er mwyn nodi’r prif faterion sy’n effeithio ar lesiant dinasyddion Ceredigion. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, a oedd yn darparu darlun cynhwysfawr o lesiant yn y sir, gan gynnwys gwaith ymgysylltu eang â’r cyhoedd yn ystod 2021. Trwy hyn, cawsom wybod am bryderon pobl a’r meysydd y byddent yn dymuno eu gweld yn cael eu gwella.

Ar ôl hynny, tynnwyd yr adborth ynghyd a’i ddehongli gan ystyried blaenoriaethau’r weinyddiaeth newydd dros y bum mlynedd nesaf a’i gymharu â’r Asesiad i nodi unrhyw flychau. Cynhaliwyd gweithdai gyda gwasanaethau’r Cyngor fel cam arall yn y broses ac aethpwyd ati i ddatblygu’r camau unigol y byddai angen eu cymryd i gyflawni’r Amcanion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor osod a chyhoeddi Amcanion Llesiant sydd wedi’u cynllunio i wneud y mwyaf o’n cyfraniad at gyflawni’r saith Nod Llesiant ar gyfer Cymru a nodir yn y Ddeddf. Ar yr un pryd mae’n rhaid i ni gyhoeddi datganiad yn egluro pam y bydd cyflawni’r amcanion yn cyfrannu at gyflawni’r nodau llesiant a pha gamau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni’r amcanion.


Rydym yn adolygu ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol a’n camau bob blwyddyn i sicrhau mai dyma yw’r Amcanion iawn i Geredigion a’n bod ni yn eu cyflawni nhw.

Mae’r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o sut mae ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2022/23 yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol, adolygiad o gynnydd yn erbyn cyflawni’r Amcanion a sut rydym wedi cymhwyso’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

## Ein Gweledigaeth:

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy gwerth am arian sy’n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach wrth hyrwyddo llesiant yn ein pobl a’n cymunedau**

## Ein Amcanion Llesiant Corfforaethol:




Tudalen 98

# ASESU CYNNYDD

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu cynnydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant. Er ein bod yn adolygu cynnydd yn barhaus, rydym yn cyhoeddi ein perfformiad diweddaraf bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Hunanasesu.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno gofynion adrodd statudol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wrth asesu ein cynnydd drwyddi draw, rydym yn defnyddio Gwiriwr Siwrnai Cenedlaethau'r Dyfodol i gynorthwyo wrth lunio asesiad safonol o'n cynnydd yn erbyn pob Amcan Llesiant Corfforaethol.

Mae'r Gwiriwr Siwrnai yn offer defnyddiol sy'n categoreiddio cynnydd yn ôl pum maen prawf, sy'n amrywio o 'Dim Newid' lle nad oes cynnydd wedi'i wneud i 'Arwain y Ffordd' sy'n golygu y gwnaed cynnydd da a bod lefel ein dealltwriaeth am y materion sy'n effeithio llesiant yn gynhwysfawr a bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu deall a'u hystyried gan bawb. Gwelir y categorïau hyn yn y system sgorio yn y tabl isod.

Mae'r Gwiriwr Siwrnai yn ffordd ddefnyddiol o asesu'r camau gweithredu unigol a wnaed, yn ogystal ag asesu sut rydym yn cyflawni'r amcanion.

Ar y tudalennau canlynol ceir adolygiad o'n cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys rhai uchafbwyntiau a llwyddiannau diweddar, ynghyd â rhai o'r cyflawniadau i'r hirdymor wrth gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol.

### Gwiriwr Taith Cenedlaethau'r Dyfodol

| DIM NEWID | NEWID SYML | MWY ANTUROL | HUNAIN UCHELGAIS | ARWAIN Y FFORDD |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |



## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

Yn ystod 2022/23 ymdriniodd ein canolfan cyswllt cwsmeriaid (CLIC) â'r ymholiadau canlynol:

**130,908**

Galwad ffôn wedi derbyn yn ystod y flwyddyn 2022/23

**35,852**

E-bost wedi ymateb i yn ystod y flwyddyn 2022/23

**95,421**

Ymholiad wedi cofnodi yn ystod y flwyddyn 2022/23 (cynnydd o 17,500 ar y flwyddyn flaenorol)

**16%**

O galwadau ffôn (neu 20,970) yn y Gymraeg



HYBU'R ECONOMI, CEFNOGI BUSNESAU A GALLUOGI CYFLOGAETH

# Cynnydd a Wnaed

- Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru yn dod yn ei flaen yn dda ers llofnodi'r Cytundeb Terfynol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phartneriaid rhanbarthol yn Ionawr 2022.
- Datblygwyd y Fargen Twf o'r Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, a chyrhaeddwyd carreg filltir arwyddocaol yn 2022 pan lofnodwyd Cytundeb y Fargen Derfynol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chynghorau Ceredigion a Phowys, yn seiliedig ar ddatblygu a chyflwyno Achos Busnes y Portffolio. Cytunodd y ddwy lywodraeth i roi £55m, cyfanswm o £110m dros gyfnod o hyd at 15 mlynedd. Cyflwynwyd Achos Busnes Portffolio Strategol diwygiedig yn ffurfiol ym mis Mawrth 2023 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a disgwylir rhyddhau'r gyfran gyntaf o gyllid y Cynllun Twf yn ystod 2023/24 drwy Ddyfarniad Grant ffurfiol.
- Llwyddodd y Cyngor yn ei gais am £10.9m ar gyfer Aberystwyth o gyllid Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Defnyddir y cyllid hwn i gyflawni tri phrosiect adfywio a fydd yn helpu i drawsnewid yr Hen Goleg yn Aberystwyth, adfywio'r promenâd a chreu 'harbwr byw'.
- Cydweithiodd y Cyngor â Chyngor Sir Powys ac amryw o fusnesau lleol i lansio Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022-25 drwy Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru. Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r problemau sy'n effeithio ar fusnesau yn y Canolbarth. Mae'n nodi sectorau a sgiliau allweddol, blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol i gefnogi swyddi a thwf, ac yn egluro'r mecanwaith i greu seilwaith sgiliau mwy llewyrchus ar gyfer y rhanbarth am y 3 blynedd nesaf a thu hwnt.
- Mae Gweithffyrdd+ Ceredigion wedi parhau i helpu pobl nad ydynt mewn cyflogaeth i gael mynediad wedi'i ariannu at hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein, profiad gwaith, cyfleoedd gwirfoddoli a swyddi. Swyddogion o Gyngor Sir Ceredigion yw staff y cynllun a chaiff ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae cymorth ar gael i helpu pobl yr effeithir arnynt gan gyflyrau iechyd neu anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio; gofalwyr; y rhai â chymwysterau isel neu ddim cymwysterau; pobl â chyfrifoldebau gofal plant; pobl dros 54 oed; pobl mewn aelwyd ag un oedolyn neu aelwyd ddi-waith neu unrhyw berson o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Yn sgil buddsoddiadau, Ceredigion yw'r sir gyntaf i gael rhwydwaith LoRaWAN sydd ar gael i bartneriaid yn y sector preifat a chyhoeddus i wella'r defnydd o dechnoleg i gynorthwyo ag effeithlonrwydd busnes. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gosod 40 o byrth LoRaWAN ar nifer o asedau'r Cyngor er mwyn creu'r rhwydwaith. Ceredigion yw'r rhwydwaith ehangaf o blith holl awdurdodau lleol eraill Cymru a'r cyntaf i gael gwasanaeth ar draws llawer o'r sir. Yn hollbwysig, yn ogystal â'r Cyngor yn cael mynediad, bydd y rhwydwaith hefyd ar gael ac yn hygyrch i bob busnes, sefydliad a phreswylydd, gyda'r rhyddid iddynt ddefnyddio'r rhwydwaith yn y modd y teimlant sydd fwyaf effeithiol.
- Sicrhawyd gwerth £2.8m o fuddsoddiad o Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU, ac fe'i defnyddir ar hyn o bryd drwy 12 o brosiectau sy'n cynnwys rhanddeiliaid yn cefnogi unigolion a busnesau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chamau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Economaidd.
- Mae un prosiect, dan arweiniad Antur Cymru, yn mynd i'r afael â'r mwyfwy o bobl sy'n ystyried entrepreneuriaeth sy'n seiliedig ar angen ond sy'n wynebu rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth busnes sefydledig. Mae'r prosiect yn grymuso unigolion i ennill sgiliau trosglwyddadwy trwy gymryd rhan mewn prosiect sy'n cyflwyno sgiliau busnes sylfaenol.
- Cafwyd £379k o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth o brosiectau i roi defnydd economaidd i asedau canol trefi ac i wella seilwaith gwyrdd yng nghanol trefi. Mae buddsoddiad yn cynnwys prynu 10/11 Sgwâr Harford yn Llanbedr Pont Steffan, a datblygu prosiect Seilwaith Gwyrdd yn Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan.
- Y Cyngor yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn Rhanbarth Canolbarth Cymru. Y cyllid dangosol ar gyfer Ceredigion yw £12.4m ar gyfer y blynyddoedd 2022/23 i 2024/25. Mae £2.9m yn gyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf gyda £9.5m ar gyfer prosiectau refeniw. Mae'r UKSPF yn rhan o gyfres o gyllid gan Lywodraeth y DU fel rhan o'i Pholisi Ffyniant Bro a'i fwriad yw meithrin balchder mewn ardaloedd lleol a grymuso cymunedau lleol.
- Mae pedwar prosiect yng Ngheredigion, ynghyd â phump ym Mhowys, wedi derbyn cyfanswm o ychydig dros £1.3m gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, a rhagwelir y bydd hyn yn sbarduno buddsoddiad posibl gwerth ychydig dros £3m. Mae'r prosiectau hyn yn rhan o'r cynllun Grant Creu Lleoedd trosfwaol sy'n rhan o'r rhaglen Trawsnewid Trefi. Y trefi yng Ngheredigion lle cynhelir y prosiectau yw Aberystwyth, Aberteifi a Llandysul. Mae Trawsnewid Trefi yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig £7 miliwn pellach i adfywio canol trefi yn y canolbarth dros dair blynedd.
- Gyda chymorth cyllid LEADER drwy raglen Cynnal y Cardi, mae yna Swyddog Datblygu Trefi sy'n ymgysylltu â chynrychiolwyr trefi i helpu i hwyluso a chefnogi syniadau i adfywio trefi gwledig Ceredigion.
- Cafwyd dros £250,000 i wella mynediad i asedau naturiol Ceredigion drwy Grantiau Gwella Mynediad a'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.
- Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion fabwysiadu parhad y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a

Lletygarwch ar gyfer 2023/24, sy'n rhoi modd i oddeutu 800 o fusnesau yng Ngheredigion fanteisio ar ostyngiad o 75% ar ardrethi annomestig, gyda chyfanswm o £3.6m ar gael i fusnesau o dan y cynllun.

- Mae Cyngor Sir Ceredigion a'i bartneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn dal i weithio'n rhagweithiol i liniaru achosion tlodi a'i effaith yng Ngheredigion.
- Rhoddodd Cyngor Sir Ceredigion £30,000 i fanciau bwyd ledled y sir o'r gronfa atal digartrefedd a roddir i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru. Daw'r hwb hwn wrth i fanciau bwyd weld cynnydd mawr yn y galw oherwydd yr argyfwng costau byw.
- Lansiwyd cynllun ECO4 ym mis Hydref 2022, gan anelu at aelwydydd incwm isel ac agored i niwed sy'n dlawd o ran tanwydd ac yn byw mewn eiddo aneffeithlon o ran ynni.
- Mae cryn waith wedi'i wneud i godi proffil gweithlu Cynorthwywyr Personol Taliadau Uniongyrchol trwy fynd ati'n weithredol i recriwtio wrth i aelodau'r tîm fynychu ffeiriau swyddi a digwyddiadau galw heibio mewn canolfannau gwaith. Mae 56 o Gynorthwywyr Personol wedi'u recriwtio hyd yn hyn, sy'n gynnydd sylweddol.
- Mae'r Porth Cymorth Cynnar yn arwain ar brosiect i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu cyfleoedd mentrau cymdeithasol a micro. Cafwyd cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac mae'r Cyngor wedi cefnogi cynllunio'r fanyleb ar gyfer microfentrau i fynd allan i dendr yn ail chwarter 2023/24. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o sefydlu sut y gall Taliadau Uniongyrchol fod yn un o'r mecanweithiau talu pan sefydlir microfentrau.
- Er mwyn cefnogi sector gofal annibynnol sy'n gynaliadwy a chadarn, mae'r rhaglen dendro newydd a manyleb Gofal Cartref wedi'u cwblhau gyda chontractau newydd i'w dyfarnu yn ail chwarter 2023/24.
- Mae'r Cyngor yn cefnogi'r sector annibynnol trwy gydweithio a darparu cymorth ar y cyd, cyllid ac adnoddau, offer yn ogystal â chyngor ar iechyd a diogelwch.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn llwyddiannus yn cael cyllid i symud ymlaen â phrosiect i alluogi 'Trefi SMART' yng Ngheredigion. I ddechrau arni bydd y prosiect yn cynnwys gosod pwyntiau mynediad wi-fi yn Aberaeron, Llandysul, Llanbedr Pont Steffan, Cei Newydd a Thregaron, gydag Aberystwyth ac Aberteifi eisoes â systemau ar waith. Yn ogystal â darparu 'Wi-fi yn y Dref' ym mhob un o'r trefi, bydd yr offer yn rhoi modd casglu data dienw ar nifer yr ymwelwyr, defnydd o le ac amser aros, a bydd yn galluogi Cynghorau Tref a'r Cyngor Sir i gynnal dadansoddiadau i gynorthwyo trefi a busnesau i nodi pa ddulliau sydd orau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu busnes.
- Darganfyddodd adolygiad dilynol y Gwasanaeth Cynllunio fod y Cyngor wedi cymryd camau cyflym i ddechrau ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru a bod cynnydd da yn cael ei wneud, gan gynnwys newidiadau i'r trefniadau llywodraethu i gefnogi'r Pwyllgor Rheoli Datblygu newydd. Rydym yn parhau i weithio drwy'r argymhellion sy'n weddill yn ogystal ag unrhyw argymhellion ychwanegol a wneir

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**£10.9m**
o gyllid cyfalaf wedi'i sicrhau trwy'r Gronfa Codi'r Gwastad 2022-25

**£760,000**
cyllid cyfalaf allanol a ddenwyd

**37**
o Fusensau wedi'i cefnogi ar draws Ceredigion

**7,547**
Derbynwyr Grant Tanwydd Gaeaf a dalwyd yn ystod yr argyfwng costau byw, gyda chyfanswm gwerth o £3.2m

**21,363**
£150 o daliadau Cymorth Costau Byw wedi'u gwneud i dderbynwyr gwerth cyfanswm o £1.51m

**41**
Swydd newdd wedi creu yn ystod y flwyddyn

**703**
Talwyd cyfanswm o £352,000 i dderbynwyr y Cynllun Grant Gofalwyr

**£42.4m**
Cymeradwyo cais rhanbarth Canolbarth Cymru ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

# GWELLA CANLYNIADAU

## CREU CYFLEOEDD

Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi parhau i symud ymlaen yn ystod 2022/23 gyda rhai datblygiadau mawr a fydd yn dod â'r buddsoddiad o £110m i'r rhanbarth gam yn nes. Llofnodwyd Cytundeb y Fargen Derfynol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chynghorau sir Ceredigion a Phowys yn 2022. Ar ddiwedd y flwyddyn, ym mis Mawrth 2023, cyflwynwyd Achos Busnes Portffolio Strategol diwygiedig yn ffurfiol i Lywodraethau Cymru a'r DU a disgwylir cyfran gyntaf y cyllid yn ystod y flwyddyn 2023/24.

Mae'r Fargen Twf yn bartneriaeth sy'n torri tir newydd i ddod â chyfanswm buddsoddiad o £110m gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a disgwylir y bydd yn denu buddsoddiad ychwanegol sylweddol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill. Disgwylir i'r rhaglenni a'r prosiectau a gefnogir gan y Fargen Twf esgor ar fuddion cymdeithasol ac economaidd ehangach, megis **gwell ansawdd bywyd, creu cyfleoedd busnes** yn dilyn effaith COVID-19, datgarboneiddio mewn diwydiant ac ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd.

- Dyma'r canlyniadau y gellid eu cyflawni yn y Canolbarth drwy fuddsoddiad y Fargen Twf:
- Creu rhwng 1,100 a 1,400 o swyddi newydd yn y Canolbarth erbyn 2032.
- Cefnogi cynnydd GVA net ychwanegol o rhwng £570 miliwn a £700 miliwn ar gyfer economi'r Canolbarth erbyn 2032.

## DATBLYGU SGILIAU

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys ac amrywiaeth o fusnesau lleol i lansio Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022-25 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r materion sy'n effeithio ar fusnesau yn y Canolbarth. Mae'n nodi sectorau a sgiliau allweddol, blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol i gefnogi swyddi a thwf, ac yn nodi'r mecanwaith i greu seilwaith sgiliau mwy llewyrchus i'r rhanbarth ar gyfer y 3 blynedd nesaf a thu hwnt.

Trwy ymwneud yn agos â busnesau, **gan roi llais iddynt ddylanwadu ar flaenoriaethau** ar gyfer y rhanbarth, mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â phwysigrwydd gwneud **cysylltiadau cryf rhwng y system ddysgu leol a'r sgiliau sydd eu hangen ar draws y rhanbarth,** fel ein bod yn **creu'r amodau cywir ar gyfer gweithlu ffyniannus.**

Lansiwyd y Cynllun yn y digwyddiad Tyfu–Diffinio–Cyflawni Gyda'n Gilydd, a'r Cynllun yn nodi sectorau a sgiliau allweddol, blaenoriaethau ar gyfer **buddsoddiad rhanbarthol i gefnogi swyddi a thwf** yn rhanbarth y Canolbarth ac yn nodi'r mecanwaith i greu **seilwaith sgiliau mwy llewyrchus** i'r rhanbarth ar gyfer y 3 blynedd nesaf a thu hwnt.

Yn ystod 2023, bydd y Bartneriaeth yn ymgynghori â busnesau a rhanddeiliaid ynghylch yr heriau y mae busnesau yn eu hwynebu ac, yn benodol, recriwtio sgiliau nawr ac yn y dyfodol, i'n helpu i lywio'r ddarpariaeth sgiliau sydd eu hangen er mwyn i'r economi a

## RHANNU LLWYDDIANT

Mae Strategaeth Economaidd 15-mlynedd Ceredigion yn nodi sut y byddwn yn cydweithio tuag at sicrhau twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy gwydn i Geredigion, wedi'i greu a'i rannu gan bawb. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y meysydd dylanwad lle gall y Cyngor wneud gwahaniaeth i'r economi, h.y. sut mae'n defnyddio ei asedau cyfalaf, dynol a refeniw i gael effaith gadarnhaol ar economi Ceredigion.

Cyflwyna'r ddogfen strategaeth y camau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd yn yr economi leol. Mae'n canolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth – Pobl, Menter, Lle a Chysylltedd, gyda phob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyriwyd.

Mae llawer o fentrau eisoes wedi'u datblygu a'u gweithredu o dan y cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Strategaeth Economaidd. Sicrhawyd swm sylweddol o gyllid allanol gan ystod o brif randdeiliaid, a bydd hyn yn galluogi gosod y sylfeini ar gyfer twf economaidd pellach.

Er enghraifft, mae Cynllun Grantiau Cyfalaf Bach a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at bron i £500,000 o fuddsoddiad grant mewn busnesau lleol, gan ddenu £631,000 pellach o gyllid y sector preifat, a hyn wedi arwain at greu 146 o swyddi newydd a diogelu 408 o swyddi eraill mewn 81 o fusnesau. Sicrhawyd pecyn cyllid pellach gwerth £173,000 yn 2022 gan arwain at werth £250,000 o arian cyfatebol gan y sector preifat ar gyfer 10 busnes yng Ngheredigion, gan greu 35 o swyddi newydd a diogelu 86 ohonynt.

Mae'r buddsoddiad a chynnal y prosiectau hyn hyd yma wedi cefnogi nodau'r strategaeth i **gefnogi busnesau i ddechrau a thyfu, gan hyrwyddo Ceredigion fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef, gan arwain at ddatblygu sgiliau yn y gweithlu**.

Bydd y Strategaeth yn parhau i arwain datblygu prosiectau pellach i gyflawni amcanion y Strategaeth dros y pymtheng mlynedd nesaf.

## CRYFHAU CYMUNEDAU

Ym mis Rhagfyr 2022 cymeradwywyd cais rhanbarth y Canolbarth i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gan alluogi mynediad at £42.4 miliwn sydd wedi'i ddyrannu i'w fuddsoddi yn y Canolbarth hyd at fis Mawrth 2025, gyda Cheredigion yn gymwys i gael bron i £15m o gyllid.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i roi trefniadau ar waith i alluogi sefydliadau a mudiadau lleol i gyflwyno eu syniadau ar gyfer cyllid.

Bydd y cyllid yn cefnogi amcanion Ffyniant Bro sy'n ceisio rhoi **hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw** drwy dyfu'r sector preifat, **gwella gwasanaethau cyhoeddus, adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, grymuso arweinwyr a chymunedau lleol a chynyddu lefelau rhifedd yn y boblogaeth oedolion.**

# DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

## Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn ***dda*** ac mae'r rhagolygon gwella yn ***dda***. Mae'r camau i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a datblygu cynlluniau partneriaeth gydweithredol ac arloesol yn symud ymlaen yn dda. Un pwynt penodol ydy'r symudiad yn nes at dynnu lawr y fargen dwf o £110m ar gyfer y rhanbarth i ddatgloi potensial yr economi leol a chreu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a datblygu sgiliau busnesau lleol yn arbennig o bwysig.

Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn enghraifft o gydweithio i sicrhau ein bod yn cryfhau'r economi leol a rhanbarthol fel rhan o Gymru lewyrchus a chydnerth ar ôl COVID-19.

### YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

### MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol.

▶

- Llewyrchus
- Cydnerth
- Iachach
- May Cyfartal
- Cydlynus
- Diwylliant
- Byd-eang

### Hirdymor

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn cynllunio ar gyfer datblygiad hirdymor yr economi hyd at 2035
- Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r Strategaeth Economaidd yn mynd i'r afael â gwendid-au strwythurol hirdymor
- Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn gosod y weledigaeth ar gyfer amserlen 15+ mlynedd
- Defnyddiwyd dadansoddiad tueddiadau yn y dyfodol i ddatblygu gweledigaeth Tyfu Canol-barth Cymru

### Atal

- Bydd mwy o gyfleoedd economaidd yn atal allfudo pellach o bobl ifanc medrus
- Bydd twf economaidd yn atal effaith negyddol patrymau mudo yn y dyfodol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru
- Bydd ymyriadau yn y Strategaeth Economaidd yn atal twf pellach yn y bwlch cynhyrchiant
- Bydd denu a chreu cyfleoedd swyddi â chyflogau uchel yn helpu i atal aelwydydd rhag mynd i dlodi a chaledi

### Cydweithio

- Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn dod â'r sectorau cyhoeddus, preifat ac academ-aidd ynghyd i gyflawni nodau a rennir
- Gweithio gyda Chyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru a'r DU i wneud y defnydd gorau o adnoddau a manteisio ar gyfleoedd
- Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn dod ag arweinwyr busnes a rhan-ddeiliaid ar draws y rhanbarth ynghyd i ddeall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion y farchnad lafur, er mwyn ysgogi buddsoddiad sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithlu.

### Cynnwys

- ae busnesau'r sector preifat, ysgogwyr twf economaidd yn y dyfodol, yn rhan o'r gwaith o nodi blaenoriaethau a strategaethau allweddol
- Y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n ymwneud â llunio rhaglen y Cyn-llun Twf sy'n dod i'r amlwg
- Ymgymerwyd yn helaeth â datblygiad y Strategaeth Economaidd
- Seiliwyd yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol sy'n allweddol o ran llywio'r holl strategaethau lleol ar ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid

### Integreiddio

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn darparu gweledigaeth a chamau gweithredu a rennir ar gyfer datblygu'r economi leol a bydd yr ymyriadau a gynhwysir ynddi yn cael eu cyflawni gan amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid dros y 15 mlynedd nesaf.
- Strategaethau twf economaidd wedi'u hintegreiddio â gwasanaethau eraill a ddarperir, gan gynnwys addysg, sgiliau, cynllunio a seilwaith

## CYNNAL Y CARDI

Mae Cynnal y Cardi yn parhau i gefnogi gweithgarwch adfywio cymunedau gwledig o'r gwaelod i fyny drwy brosiectau peilot, astudiaethau dichonoldeb, hwyluso, gweithgareddau rhwydweithio a hyfforddiant a mentora.

Mae tua 70 o weithgareddau wedi'u cefnogi gan gynnwys:

- "Ceredigion360," dichonoldeb i ddarganfod a oes awydd i greu a chynnal gwefannau ardaloedd lleol bywiog, cynaliadwy ar draws ardaloedd o Geredigion;
- Gwaith dichonoldeb i'r cyfleoedd i ddatblygu "Canolfan Tir Glas" ar gampws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan;
- Treialu cynllun oergell gymunedol yn Aberporth;
- Treialu dysgu dwyieithog, digidol yn yr awyr agored drwy ddatblygu cyrsiau mewn coetiroedd;
- Cefnogi gyda gweithgareddau ymgysylltu ac archwilio dichonoldeb menter gymunedol Tafarn Gymunedol Dyffryn Aeron.

Mae Cynnal y Cardi yn brosiect LEADER, sydd wedi derbyn cyllid trwy Raglen Datblygu Gwledig Cymru. Nod y prosiect yw ysgogi datblygiadau arloesol sy'n cynyddu gwerth ac amrywiaeth y cyfleoedd economaidd cynaliadwy i bobl Ceredigion.



CREU CYMUNEDAU GOLFALGAR AC IACH

# Cynnydd a Wnaed

- Mae Ceredigion wedi ymateb i'r heriau o ran darparu gofal cymdeithasol drwy symud tuag at gyfuno'r gwasanaeth plant ac oedolion a oedd ar wahân yn flaenorol, yn un Gwasanaeth Gydol Oed a Llesiant. Mae hyn yn dileu rhwystrau adrannol, yn darparu gwasanaeth gydol oes fwy cyson i ddefnyddwyr ac yn cynnal sgiliau generig a hyblygrwydd staff.
- Mae'r gwasanaeth gofal cymdeithasol sydd wedi'i drawsnewid yn canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar i helpu cysylltu pobl i'r cymunedau a'r cyfleusterau o'u cwmpas, adeiladu gwydnwch unigol a theuluol ac atal problemau rhag gwaethygu fel bod angen gwasanaethau lefel uwch.
- Mae’r Cyngor bellach yn gweithredu model Llesiant Gydol Oes i ddarparu’r hyn a ystyrid yn draddodiadol yn wasanaethau Gofal Cymdeithasol.
- Parhau y mae’r gwaith i roi’r Rhaglen Llesiant Gydol Oes ar waith wrth i drawsnewid gwasanaethau ddod yn ei flaen yn dda yn sgil yr integreiddio ar Ofal Cymdeithasol a Dysgu Gydol Oes yn dri gwasanaeth, sef Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal sydd, ynghyd â Chyswllt Cwsmeriaid, yn ffurfio’r 4 prif faes yn y Rhaglen Llesiant Gydol Oes.
- Fodd bynnag, mae Gofal Cymdeithasol yn parhau i weld cynnydd yn y galw ar wasanaethau sy’n arwain at bwysau costau sylweddol ar draws y model Rhaglen Llesiant Gydol Oes. Mae’r rhain i’w cael yn arbennig mewn meysydd fel Plant sy’n Derbyn Gofal (yn y sir), Lleoliadau Plant y Tu Allan i’r Sir, lleoliadau Pobl Hŷn a lleoliadau Anabledd Dysgu. Mae’r Cyngor hefyd yn gweld mwy o gymhlethdod yn yr achosion ar draws y gwasanaethau hyn gan ychwanegu deinamig pellach at y cynnydd yn y galw.
- Mae buddsoddiad cyfalaf yn cael ei wneud mewn meysydd allweddol megis Cyfleusterau Plant yn y Sir, Canolfannau Llesiant, Cartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol a threialu Gofal wedi’i alluogi gan Dechnoleg.
- Fel rhan o'i waith atal, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn rhoi cydnabyddiaeth a chefnogaeth lawn i rôl gofalwyr, yn enwedig trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer seibiant, gan ganiatáu i ofalwyr gael seibiant o'r hyn a all fod yn rôl heriol 24/7.
- Manteisiwyd ar y Grant Cyfleusterau i’r Anabl, a chyllid cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru, i addasu cartrefi er mwyn galluogi pobl i aros yn eu cymunedau.
- Fel yr awdurdod lleol Cymraeg cyntaf i wirfoddoli i groesawu ffoaduriaid o Syria, mae Ceredigion wedi croesawu ac integreiddio 74 ffoadur i’r sir. Mae'r rhaglenni adsefydlu pobl sydd wedi'u dadleoli yn mynd yn dda.
- Adsefydlwyd 146 o ffoaduriaid yng Ngheredigion yn ystod 2022/23.
- Mae Cysylltwyr Cymunedol yn cynorthwyo trigolion o bob oed yng Ngheredigion, drwy eu helpu i gael mynediad at gyfleoedd cymorth yn eu hardal a allai gynnal a gwella eu lles.
- Drwy gydol gaeaf 2022/23, bu tîm o Gysylltwyr Cymunedol Ceredigion yn gweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion a llawer o grwpiau cymunedol i sefydlu Mannau Croeso Cynnes. Mae Mannau Croeso Cynnes yn fannau diogel, cynnes sy’n rhad ac am ddim ac yn groesawgar i bob oed, ac mae rhai ohonynt hefyd yn darparu diodydd poeth, byrbrydau a gweithgareddau. Agorodd caffis, eglwysi, canolfannau cymunedol, neuaddau pentref, llyfrgelloedd a siopau llyfrau ar draws y sir eu drysau a chroesawu pobl o bob oed. Roedd y Mannau Croeso Cynnes yn fan cyfarfod cymdeithasol i bobl ddod at ei gilydd a meithrin cyfeillgarwch. Roedd 42 o Fannau Croeso Cynnes ar draws Ceredigion.
- Roedd y prosiect “Ar Eich Beic” a ariannwyd gan Cynnal y Cardi a’i reoli gan Iechyd a Gofal Gwledig Cymru wedi gosod 9 beic ymarfer corff mewn tair tref i annog pobl ifanc i wneud mwy o weithgarwch corfforol awyr agored, gan y profwyd bod hynny yn gwella iechyd corfforol a lles meddyliol. Y trefi yn y prosiect yw Aberteifi, Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan.
- Cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion drosglwyddo Cartref Gofal Hafan y Waun i berchnogaeth y Cyngor ym mis Medi 2023 gan fod â ffocws ar sicrhau bod y cartref parhau i weithredu er budd y preswylwyr a’r staff fel ei gilydd. Mae’r penderfyniad yn gam pwysig tuag at gynnal dyfodol yr adnodd hanfodol hwn a rhoi sicrwydd i drigolion a’u teuluoedd. Hafan y Waun yw prif gyfleuster preswyl y Sir gan fod â lle i 90 o welyau.
- Symudwyd ymlaen â chynlluniau i greu Canolfan Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan, a datblygu cynlluniau i greu Canolfannau Llesiant yng Ngogledd a De’r sir hefyd.
- Mae’r Gwasanaeth Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) bellach yn brysur iawn – derbyniwyd 1,011 o atgyfeiriadau yn 2022-23 gyda 343 o gleientiaid yn cwblhau’r rhaglen 16 wythnos yn ystod y flwyddyn. Mae’r Gwasanaeth yn un o amryw o ddosbarthiadau a gweithgareddau ymyrraeth iechyd, gan gynnwys Ffit am Byth a Cherdded er Budd Lles. Cynigiwyd 424 o ddosbarthiadau a gweithgareddau bob mis yng Ngogledd, Canolbarth a De’r Sir. Mae’r rhaglenni’n boblogaidd iawn ymhlith cleientiaid ar draws Ceredigion.
- Mae prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Cylch Caron mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn parhau i symud ymlaen. Mae’r Bwrdd Prosiect yn datblygu manyleb y tendr ac yn gweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu’r cynnig.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cefnogi’r dyhead o greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i blant, teuluoedd ac oedolion yng Nghymru a sut y gellid gwneud gofal am ddim pan fo angen. Mae hon yn rhaglen

genedlaethol yn dilyn y cytundeb cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

- Mae gwaith wedi dechrau ar nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau Gofal Trwy Gymorth Technoleg (TEC). Bydd hyn yn llywio datblygiad ein strategaeth gofal wedi'i alluogi gan Dechnoleg gan gynnwys gwelliannau digidol i ystâd yr Awdurdod Lleol.
- Ymgorfforir dull gweithredu gydol oes at frysbennu ac asesu.
- Mae'r Adolygiad o Wasanaethau Uniongyrchol yn parhau a disgwylir ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2023. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu wedyn.
- Mae'r Gwasanaeth Cydlynu Cyfarfodydd Grŵp Teulu bellach wedi cyrraedd ei gapasiti ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cyfleoedd i gefnogi ataliaeth a chymorth cynnar.
- Parhau y mae'r adolygiad ar y model seibiant Gydol Oes a disgwylir ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2023. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu wedyn.
- Mae manyleb Gofal Cartref a rhaglen dendro newydd wedi'u cwblhau gyda chontractau newydd i'w dyfarnu yn ystod ail chwarter 2023/24.
- Yn ystod 2022/23, roedd ehangu Dechrau'n Deg yng Ngheredigion yn cynnwys Llechryd, gan ymuno ag Aberteifi, Penparcau, Llanarth, Llandysul ac Aberporth. Mae Dechrau'n Deg yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n helpu teuluoedd â phlant ifanc yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Dechrau'n Deg Ceredigion yn cynnwys gwasanaeth iechyd y blynyddoedd cynnar, gofal plant sesiynol wedi'i ariannu ar gyfer plant 2-3 oed, cymorth rhianta i ddatblygu sgiliau siarad, iaith a chyfathrebu plant.
- Yn dilyn gweithredu Strategaeth Gweithio Hybrid a Pholisi Hybrid Dros Dro Cyngor Sir Ceredigion, mae cyfleoedd sylweddol i ad-drefnu a gwneud gwell defnydd o ofod swyddfa'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus eraill drwy weithio gyda sefydliadau partner. Mae rhan o Ganolfan Rheidol yn Aberystwyth bellach yn cael ei defnyddio gan Hywel Dda i gynnig gwasanaethau ffisiotherapi i gleifion allanol. Mae'r symudiad hwn yn rhoi'r cyfle i'r bwrdd iechyd ddod â gwasanaethau clinigol yn nes adref i drigolion gogledd Ceredigion i'w helpu i fyw bywydau egnïol ac iach.
- Yn ystod y flwyddyn, dyfarnwyd £98,528 o'r Gronfa Gofalwyr i 536 o ofalwyr i helpu i wella eu hiechyd a'u lles.
- Cefnogi Gofalwyr Ceredigion i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i 805 o ofalwyr sy'n oedolion ledled Ceredigion a darparu 2,016 awr o ofal amgen i roi seibiant i ofalwyr o'u rôl ofalu.
- Cynyddodd aelodaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr 14% i 1,888 o ofalwyr, gan ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud â gwasanaethau a deddfwriaeth a chymorth sydd wedi'i deilwra i anghenion unigol. Mae aelodaeth yn cael gwybodaeth am y Fforwm i Ofalwyr sy'n cwrdd yn rheolaidd i rannu cefnogaeth, gwybodaeth a chyfeillgarwch, gwybodaeth am ddigwyddiadau i Ofalwyr, cyrsiau hyfforddi perthnasol, hysbysiadau am ymgynghoriadau sy'n digwydd ar faterion lleol a chenedlaethol. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod gan ofalwyr lais ar faterion sy'n effeithio arnynt.
- Rhwng mis Mai a mis Medi 2022, talwyd cyfanswm o £351,500 i 703 o ymgeiswyr cymwys ar gyfer taliadau cymorth Llywodraeth Cymru o £500 ar gyfer gofalwyr di-dâl.
- Mae'r Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn arwain ar gefnogi'r gwaith hwn yng Ngheredigion. Cynhelir cyfarfodydd Monitro Tensiwn wythnosol i gadw golwg ar arwyddion cynnar tensiynau cymunedol ac ystyried materion gweithredol mewn da bryd.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**607**
Atgyfeiriadau at y Cysylltwyr Cymunedol am gefnogaeth a dderbyniwyd

**99,457**
Safbwyntiau ar adnoddau Ceredigion ar wefan Dewis Cymru sy'n ceisio cefnogi llesiant pobl

**4,250**
Cylchgrawn gofalwyr wedi'i phrintio a'i dosbarthu ar draws Ceredigion

**146**
Ffoadur wedi'i ailsefydlu ar draws Ceredigion

**42**
Mannau Cynnes ar gael ar draws Ceredigion yn ystod gaeaf 2022/23

**531**
Pobl sy'n derbyn taliad uniongyrchol i gefnogi eu gofal cymdeithasol eu hunain

**1,150**
Camau gorfodi diogelu'r cyhoedd a gymerwyd i wella llesiant ac iechyd y cyhoedd pobl a chymunedau

**1,567**
Pobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael cymorth yn y gymuned

**453,000**
Pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni gweithgaredd corfforol a gefnogir / a ddarperir gan y Ganolfan Llesiant

**15**
Ymarferion ymgysylltu a gwblhawyd gan y Cyngor yn 2022/23

# GWELLA CANLYNIADAU

## CEFNOGI POBL BREGUS

Sefydlwyd tîm newydd Ailsefydlu Ffoaduriaid mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y ffoaduriaid oherwydd y gwrthdaro yn Wcráin.

Mae'r Cyngor wedi parhau i roi cymorth parhaus i 7 teulu sydd wedi ffoi o'r sefyllfaoedd peryglus yn Affganistan a Syria, wedi croesawu 1 teulu newydd o Affganistan ac wedi croesawu 114 o deuluoedd newydd o Wcráin i Geredigion yn ystod y flwyddyn 2022-23.

Mae llawer o'r teuluoedd o Wcráin, yn enwedig y rhai a gyrhaeddodd y Ganolfan Groeso, bellach wedi symud allan o Geredigion i leoliadau eraill yn y DU ac ar draws y byd. Mae paratoadau ar y gweill i sicrhau ein bod yn barod i groesawu ceiswyr lloches i Geredigion fel rhan o'n cyfraniad i'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gwasgaru Ceiswyr Lloches.

Mae gan Geredigion hanes o gefnogi teuluoedd sy'n ffoi rhag rhyfel, newyn a digartrefedd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi llwyddo i gefnogi ffoaduriaid o Syria i gael eu croesawu i'r gymuned, a byddwn yn parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth helpu ffoaduriaid a'u hailsefydlu yn ein cymunedau. Wrth wneud hynny, gallwn roi **lle diogel iddynt hwy a'u teuluoedd**, cyfle i gael **cartref diogel**, i **ailadeiladu eu bywyd** ac i **gyfrannu at gymdeithas**. Nid yn unig y mae hyn yn cefnogi ein huchelgais i greu cymunedau gofalgar, mae hefyd yn cefnogi'r nod llesiant cenedlaethol o Gymru yn wlad sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang.

## GWELLA LLESIANT I BAWB

Mae rhoi cymorth i'r holl oedrannau ac anghenion yn her sylweddol i'r Cyngor gan fod adnoddau yn brin. Mae cryn newid wedi bod yn ystod y degawd diwethaf yn nemograffeg a phroffil y gymdeithas, gyda chynnydd sylweddol mewn camddefnyddio sylweddau a'i effaith, cynnydd mewn iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig ac yn nifer y grwpiau oedran hŷn sy'n byw yng Ngheredigion.

O ganlyniad, mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny.

Mae'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes yn nodi'r weledigaeth a'r dull gweithredu a ddefnyddir i drawsnewid y ffordd y cefnogir llesiant a diogelwch pobl Ceredigion.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu model gweithredu Llesiant Gydol Oes sydd wedi'i gynllunio i **sicrhau bod pobl yn cael cymorth o'r math a'r lefel gywir**, ar yr adeg gywir, er mwyn **atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, ac i wneud y mwyaf o annibyniaeth pobl a'u galluogi i aros yn eu cartref eu hunain ac yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd.**

Rydym yn nhrydedd flwyddyn y Rhaglen ac mae cynnydd yn parhau i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion.

Ym mis Chwefror/Mawrth 2023 cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolwg o'n gwasanaethau cymdeithasol. Cadarnhaol oedd barn yr arolwg ar ein Model Llesiant Gydol Oes, gan sôn am sawl maes o arfer da, a hefyd wedi rhoi argymhellion adeiladol i ni i'n helpu i gynnal y rhaglen a thrawsnewid y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn y Sir.

Yn benodol, nodwyd y gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol gref i wasanaethau cymdeithasol yng Ngheredigion, ynghyd ag uwch arweinyddiaeth gref yn y gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd adborth a gasglwyd gan yr arolygwyr yn dangos diwylliant a oedd yn **canolbwyntio ar les, meithrin a chynnal perthnasoedd a sicrhau canlyniadau diogel i bobl.**

## BYWYDAU ANNIBYNOL & CHYFLAWN

Mae preswylwyr cyntaf cynllun gofal ychwanegol newydd Aberystwyth wedi siarad ynghylch sut y mae'r cynllun wedi trawsnewid eu bywydau, o sbarduno cyfeillgarwch newydd i ddarparu llwyfan ar gyfer dechrau newydd mewn bywyd.

Mae Maes y Môr, a ddarperir gan Tai Wales & West mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion, wedi'i leoli ym Mhen yr Angor yn Aberystwyth, gan edrych dros y dref a'r harbwr. I lawer o'i drigolion newydd, mae wedi cynnig llawer mwy na golygfeydd godidog o'r môr.

Cyniga eu cartrefi newydd fynediad rhwydd i ystod o gyfleusterau, gofal a chymorth 24 awr ar y safle yn ogystal â Swyddog Llesiant, gan sicrhau bod preswylwyr yn byw **bywyd annibynnol, iach a llawn boddhad.**

## CYSYLLTU POBL

Mae Cysylltwyr Cymunedol yn cefnogi trigolion o bob oed a'u teuluoedd i wneud cysylltiadau, cael cyngor a chyfleoedd cymorth yn ogystal â chanfod gwasanaethau a grwpiau priodol yn eu cymunedau eu hunain, megis grwpiau cymdeithasol a all gael effaith **gadarnhaol a gwella eu llesiant.**

Mae Cysylltwyr Cymunedol hefyd yn edrych yn ehangach ar y cyfleoedd sydd ar gael a all helpu i **gyfrannu at fywyd cyflawn**. Mae hyn yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth am wasanaethau a rhoi cymorth i gael mynediad atynt, megis gwneud addasiadau bychain i'r cartref neu gymorth â siopa, ac wrth wneud hynny **meithrin hyder, gwella iechyd meddwl, creu cyfleoedd ac felly adeiladu cymunedau gwydn.**

Yn ystod y flwyddyn cofnodwyd 971 o ymholiadau am gymorth drwy ganolfan Cyswllt Cwsmer Ceredigion (CLIC), derbyniwyd 845 o atgyfeiriadau ac atgyfeiriwyd 468 o unigolion a grwpiau cymunedol at wasanaethau eraill y cyngor, at wasanaethau iechyd ac at fudiadau'r trydydd sector.

# DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

## Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn ***dda*** ac mae'r rhagolygon gwella hefyd yn ***dda***.

Mae'r cynnydd o ran cefnogi pobl i fod yn iach a chreu cymunedau sy'n gofalu yn dda ac mae canlyniadau eisoes i'w gweld megis creu canolfannau llesiant ar draws y sir, darpariaeth barhaus y rhaglen Llesiant Gydol Oes a'r cymorth i ffoaduriad Wcrain i ailsefydlu yn y Sir.

Er gwaethaf yr heriau sy'n bodoli, megis recriwtio mewn gofal cymdeithasol, mae cynlluniau ar waith i sicrhau manteision pellach yn y flwyddyn i ddod.

## YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

## MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol. ▶

- Llewyrchus
- Cydnerth
- Iachach
- May Cyfartal
- Cydlynus
- Diwylliant
- Byd-eang

### Hirdymor

- Mae Model Gydol Oed yn ymwneud â chynllunio hirdymor i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y 15 mlynedd + nesaf
- Mae Tueddiadau'r Dyfodol, megis newid demograffig wedi'u defnyddio yn y Model
- Mae'r Strategaeth Llesiant Trwy Oedran yn cwmpasu cyfnod o chwe blynedd o 2021 i 2027
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i wella llesiant corfforol a meddyliol yn cymryd agwedd hirdymor at gefnogaeth i ymateb

### Atal

- Mae'r Model Gydol Oed yn darparu dull cydgysylltiedig o ymdrin â gofal cymdeithasol er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, a chaniatáu i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae atal digartrefedd a hyrwyddo annibyniaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â digartrefedd
- Mae Datblygu'r Canolfannau Llesiant yn cefnogi'r uchelgais i greu cymunedau iach
- Fel rhan o'i waith atal, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn rhoi cydnabyddiaeth lawn a chefnogaeth i ofalwyr drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer seibiant o'u rôl heriol 24/7.

### Cydweithio

- Mae'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor a phartneriaid y Trydydd Sector yn cydweithio i roi rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar waith ar draws gorllewin Cymru
- Mae cyfarfodydd monitro tensiwn wythnosol aml-asiantaeth yn mynd i'r afael ag arwyddion cynnar tensiynau cymunedol trwy ymyrraeth gynnar ac atal.
- Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid drwy Is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi ar draws y Sir.

### Cynnwys

- Mae cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol pobl yn effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy llewyrchus
- Roedd yr Amcan o greu cymunedau gofalgar ac iach yn cynnwys canfyddiadau o'r Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion ac ymgynghoriad helaeth

### Integreiddio

- Cydweithio cyhoeddus a phreifat i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at Gymru iachach a nodau eraill
- Mae cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol pobl yn effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**100%**

O blith aelodau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, derbyniodd Siarter Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr di-dâl

**158**

Cefnogi gofalwyr ifanc drwy weithio gyda Gofalwyr Ceredigion i gael bywyd y tu allan i'w rôl ofalu

**3,000**

Dosbarthu llyfrynnau Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc i ysgolion ar draws y Sir

**144%**

Cynnydd yn aelodau Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Ifanc



DARPARU'R DECHRAU GORAU MEWN BYWYD A GALLUOGI BOBL O BOB OED I DDYSGU

## Cynnydd a Wnaed

- Mae'r Cyngor yn parhau i foderneiddio sefydliadau addysg, er enghraifft, drwy ddefnyddio cyllid rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif i adeiladu ysgol ardal ar gyfer Dyffryn Aeron yn ogystal â gwelliannau i Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ysgol Gynradd Aberteifi a Chanolfan y Môr yn Ysgol Uwchradd Aberaeron.
- Dyfarnwyd cyllid o £5.7m i'r Cyngor yn 2022 tuag at Ganolfan Drochi wedi'i lleoli yn yr Ysgol Gymraeg ac adeiladu dosbarthiadau newydd yn yr ysgol.
- Mae cynlluniau i adeiladu ysgol gynradd newydd Dyffryn Aeron yn Felin-fach yn mynd rhagddynt. Bydd y cynllun dylunio ac adeiladu gwerth £13m yn darparu 30 o leoedd yn y feithrinfa a 210 o leoedd yn yr ysgol gynradd (gweler drosodd).
- Mae datblygiadau ysgol sydd eisoes ar y gweill yn cynnwys £100k ar gyfer gwaith adeiladu yn Ysgol Uwchradd Penglais, gan roi cyfleusterau newydd a gwell i'r ysgol, £160k o waith adeiladu yn Ysgol Henry Richard a £5.4m o waith ar Ysgol Uwchradd Aberteifi fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Mae ymgynghorwyr proffesiynol a chontractwyr wrthi'n cael eu penodi i weithio ar yr estyniad newydd gwerth £5.4m yn Ysgol Gymraeg, Aberystwyth, sef yr ysgol gyfrwng Cymraeg gyntaf yng Nghymru.
- Mae ymgynghorwyr hefyd wrthi'n cael eu penodi ar gyfer gwaith gwerth tua £1m i Amgueddfa Aberystwyth.
- Enillodd meithrinfa yng Ngheredigion, sef Meithrinfa Plas Gogerddan, Wobr Meithrinfa'r Flwyddyn yng Nghymru yng Ngwobrau Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) ym mis Mehefin 2022. Mae Plas Gogerddan yn un o nifer o feithrinfeydd yng Ngheredigion sy'n darparu addysg Cyfnod Sylfaen a ariennir gan Gyngor Sir Ceredigion yn eu sesiynau Cylch Meithrin.
- Cynhaliodd Porth Cymorth Cynnar 88 o weithdai i bobl ifanc 16+ oed gan ddarparu cymorth ac ataliaeth. Roedd y gweithdai yn cynnwys gwirfoddoli yn y gymuned, bowlio dan do, garddio a darganfod diwylliant a threftadaeth Gymreig.
- Roedd 125 o bobl ifanc a weithiodd gyda gweithwyr ieuenctid wedi dangos gwelliant i'w lles a'u hyder. Er enghraifft, aeth un person ifanc nad oedd yn fodlon gadael ei gartref o gwbl ar daith gerdded llesiant gyda gweithiwr ieuenctid.
- Roedd y ddarpariaeth ieuenctid teithiol wedi ymgysylltu â 10 cymuned a 176 o bobl ifanc. Cyflwynwyd sesiynau pêl-droed wythnosol am ddim gyda Heddlu Dyfed-Powys a Sefydliad Pêl-droed Abertawe, ac un person ifanc wedi'i enwebu'n llysgennad ifanc oherwydd ei ymrwymiad.
- Ymgysylltodd Twf Swyddi Cymru+ (hyfforddeiaethau newydd) yn Hyfforddiant Ceredigion â 51 o ddysgwyr, ac aeth 75% ohonynt wedyn naill ai i gyflogaeth neu ddysgu pellach. Mae Twf Swyddi Cymru+ yn rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed sydd angen y sgiliau, y cymwysterau a'r profiad i fynd ymlaen i brentisiaeth, sefydlu busnes neu gael swydd newydd.
- Derbyniodd Sgiliau Gwaith 126 o atgyfeiriadau y llynedd gyda 69 o ddysgwyr yn ennill cymwysterau.
- Mae Hyfforddiant Ceredigion wrthi'n gweithio i gynnwys prentisiaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Thrydanol i'w cynnal yng Ngheredigion. Mae'r contract prentisiaethau yn parhau i dyfu bob blwyddyn fel rhan o rwydwaith ACT, gan gryfhau cronfa'r ymgeiswyr medrus a chymwys iawn yn y Sir drwy ddatblygu prentisiaethau newydd, micro-fentrau a mentrau cymdeithasol.
- Mae gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Ceredigion yn adolygu ei gynnig cwricwlwm yn gyson. Mae Dysgu Bro yn parhau i gynnig cyrsiau mewn dysgu cyfunol gyda mwyafrif y cyrsiau wedi dychwelyd i wyneb yn wyneb. Mae'r Tîm Cymorth Cyflogaeth yn rhedeg Cymunedau am Waith a Mwy+ i roi cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith.
- Mae Dysgu Bro yn cynnal nifer o gyrsiau trwy Geredigion mewn lleoliadau cymunedol. Cafwyd grant ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cyrsiau trwy fideos ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â gallu cynnig cyrsiau am ddim. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn hysbysebu am Gynghorwyr Hyfforddiant Rhifedd fel rhan o raglen Lluosi (y Gronfa Ffyniant Gyffredin).
- Mae Twf Swyddi Cymru+ yn Hyfforddiant Ceredigion yn cynnig profiad gwaith â thâl drwy'r elfen Ymgysylltu.
- Mae system addysg Ceredigion yn parhau i gael ei hystyried ymhlith y mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Mae canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso ar lefel 2 (graddau TGAU A*-C neu gyfwerth) yn 91.7% yng Ngheredigion, sy'n uwch na'r cyfartaledd (86.6%) ac yn un o'r uchaf yn

genedlaethol.

- Cydweithiodd y Cyngor gyda'r trydydd sector a busnesau preifat i roi profiad gwaith i unigolion/grwpiau bregus.
- Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu gweithgor cyflogwyr a fydd yn cynnwys partneriaid allweddol fel yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Gyrfa Cymru, Busnes Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.
- Mae Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn mynychu nifer o sioeau amaethyddol i godi proffil y cyrsiau a gynigir. Er enghraifft, aeth y gwasanaeth i sioe Aberystwyth gan gynnig nifer o sesiynau blasu i'r cyhoedd.
- Aeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau hefyd i Ysgol Bro Pedr ac Ysgol Henry Richard i hyrwyddo Twf Swyddi Cymru+ a phrentisiaethau.
- Mae'r Gymraeg yn cael ei hintegreiddio i Strategaeth Gorfforaethol newydd Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y cyfnod 2022 i 2027.
- Cymeradwyodd y Cyngor ei Gynllun Strategol newydd Cymraeg mewn Addysg 2022-32. Mae'r cynllun yn nodi'r camau i gyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gyda'r nod cyffredinol o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir erbyn 2032.
- Mae Cered, menter yr iaith Gymraeg, yn parhau i gefnogi, dylanwadu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yng Ngheredigion. Maent yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i sicrhau bod yr iaith yn ffynnu ac yn parhau i fod yn iaith greiddiol a bod ganddi rôl ganolog yng nghymunedau Ceredigion. Mae llwyddiannau diweddar yn cynnwys yr ymgyrch 'Dechrau pob sgwrs yn Gymraeg', y 'Powerhouse Project' i wella'r cyfleoedd i gymunedau gymdeithasu a chyfrannu, a'r Siarter Iaith lle mae dros 26 o sefydliadau, busnesau a chlybiau wedi derbyn siarter aur, arian neu efydd. am eu hymrwymiad i'r Gymraeg.
- Cyhoeddodd y Cyngor ymgyrch, 'sut i gysylltu â'r Cyngor dros y ffôn, ar-lein, wyneb yn wyneb, ac yn eich dewis iaith' i sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'u hawl i ddefnyddio eu dewis iaith a'r sianeli sydd ar gael i wneud hynny.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal Sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg ynghyd â throsolwg o ofynion Safonau'r Gymraeg i Gynghorwyr.
- Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i dreialu cwrs preswyl Codi Hyder i Ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i recriwtio mwy o ofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg, ac felly cefnogwyd ymgyrchoedd recriwtio diweddar ac archwiliwyd cyfleoedd i gyflawni hyn.
- Yn dilyn grant o £20,000 gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, mae'r hen feddygfa yn Aberaeron wedi'i hailagor fel oriel – Oriel Gwyn. Arweiniwyd y prosiect gan Gyngor Sir Ceredigion ac fe'i hagorwyd yn swyddogol ym mis Ebrill 2022, gan arddangos gwaith artistiaid sefydledig yn ogystal ag ymarferwyr creadigol ar ddechrau eu gyrfa.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**907**
Dysgwyr wedi cofrestru ar bob cwrs Dysgu Gydol Oed a Sgiliau

**189**
Pobl yn ymgysylltu â'r Tîm Cymorth Cyflogaeth

**53**
O bobl a ymgysylltodd a'r Tîm Cefnogi Cyflogaeth wedi bod yn llwyddiannus wrth gael swydd

**126**
Person wedi'i chyfeirio Sgiliau Bywyd Sgiliau Gwaith

**117**
Prentis wedi mynychu HCT yn y flwyddyn ddiwethaf

**82%**
O brentisiaethau a fynychodd HCT wedi cwblhau ei phrentisiaeth

**87.5%**
O blith y dysgwyr yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, wedi ennill gymwysterau priodol

**98.65%**
Plant/pobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael budd cadarnhaol o weithgareddau allgyrsiol a gwyliau

**8,620**
Sesiynau cyfrifiadurol cyhoeddus wedi defnyddio ar draws y llyfrgelloedd

**268,572**
Benthyciad gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (yn gorfforol ac adnodd digidol)

# GWELLA CANLYNIADAU

## CYFLEUSTERAU MODERN

Mae cynlluniau i adeiladu Ysgol Gynradd newydd Dyffryn Aeron yn Felin-fach yn mynd rhagddynt. Mae'r cynllun dylunio ac adeiladu gwerth £13m ar gyfer ysgol gynradd unllawr gydag Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol, Canolfan Iaith, Meithrin, a seilwaith yn cynnwys mynediad ffordd newydd, maes parcio a maes chwarae amlddefnydd.

Bydd y prosiect yn dod â thair ysgol gynradd at ei gilydd, sef Ysgol Gynradd Ciliau Parc, Ysgol Gynradd Dihewyd ac Ysgol Gynradd Felin-fach yn ogystal â'r Ysgol Feithrin a'r Ganolfan Drochi Iaith yn Felin-fach.

Yn yr ysgol ardal newydd hon i blant 3-11 oed, bydd 30 o leoedd meithrin/gofal cofleidiol a 210 o leoedd yn yr ysgol gynradd a chyflogir tua 56 o staff addysgu yn y cyfleusterau.

Bydd y cyfleuster newydd yn codi'r adeiladau dysgu yn Nyffryn Aeron i safonau Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt).

Yn ogystal â darparu cyfleusterau addysgu **modern a gwell**, bydd y prosiect hefyd yn golygu **ysgol ddi-garbon** sydd â **chostau rhedeg is** sy'n cefnogi uchelgais carbon sero net y Cyngor yn ogystal â rhoi mwy o **gyfleoedd ar gyfer dysgu a gweithgarwch corfforol** ar y cae chwaraeon newydd.

## LLEIHAU ANGHYDRADDOLDEB

Cymeradwywyd Strategaeth Cydraddoldeb ac Amddifadedd newydd Partneriaeth Canolbarth Cymru gan y Cabinet ym mis Chwefror 2023. Yn y strategaeth newydd ceir canllawiau i ysgolion sy'n cefnogi pobl ifanc ddifreintiedig.

Y brif neges sydd wrth wraidd y strategaeth yw bod angen mwy o gymorth yn amlach ar ddysgwyr difreintiedig er mwyn iddynt gael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion.

Gostyngwyd y trothwy cymorth i bobl ifanc ddifreintiedig ymgysylltu â'r Swyddogion Cynhwysiant Addysgol , a hyn yn golygu eu bod yn cael cymorth yn gynt na phobl ifanc nad ydynt dan anfantais.

Gwyddys bod cartref a chymuned plant a phobl ifanc yn dylanwadu'n gryf ar eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae'r strategaeth yn rhoi mwy o gymorth i athrawon fynd i'r afael â'r problemau y mae rhai plant a phobl ifanc yn eu hwynebu.

Mae cyflawni'r strategaeth yn sicrhau yr eir i'r afael â'r heriau y mae rhai o blant a phobl ifanc Ceredigion yn eu hwynebu a'u bod yn **cael mynediad teg a chyfartal i addysg a chyfleoedd.**

Mae'r Strategaeth hefyd yn cefnogi gwaith parhaus y Cyngor i **fynd i'r afael ag effaith tlodi**, gan gynnwys yr **effaith ar gyrhaeddiad addysgol**, a fydd yn **helpu i sicrhau safonau uchel a dyheadau i bawb yn y Sir.**

## CREU CYFLEOEDD

Mae Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Gwasanaeth Ieuenctid, Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith oll yn aelodau o Banel NEET (ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant). Cynigiwyd sesiynau blasu mewn lleoliadau fel gwaith coed, mecaneg, trin gwallt, harddwch a phlymwaith. Hyrwyddwyd prentisiaethau mewn sawl digwyddiad Gyrfaoedd, mewn ysgolion a digwyddiadau eraill ledled y sir. Enillodd 64% o ddysgwyr a gefnogwyd gan Porth Cymorth Cynnar gymwysterau mewn hyfforddeiaethau ac enillodd 70% o ddysgwyr gymwysterau mewn prentisiaethau. Mae **creu cyfleoedd** yn **cefnogi uchelgais y Cyngor i wella'r ddarpariaeth sgiliau a chyfleoedd dysgu i bobl 16+ oed.**

## CYMUNEDAU CRYF

Mae Amgueddfa Ceredigion yn falch iawn o gael £115,894 o gyllid datblygu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer y prosiect: Perthyn: archwilio sut y gall casgliadau **greu cymuned yng Ngheredigion**.

Mae Perthyn yn brosiect uchelgeisiol sy'n ceisio sicrhau y gall pob un o drigolion Ceredigion ddod o hyd i rywbeth yng nghasgliad yr amgueddfa sy'n cyd-fynd â'u **hymdeimlad o hunaniaeth a'u gwerthoedd**, waeth beth fo'u hoedran, eu rhywedd, eu hethnigrwydd, eu credoau, eu rhywioldeb, eu gallu, neu nodweddion eraill y maent yn uniaethu â nhw.

## CEFNOGI CYFLOGAETH

Mae Gwaith wedi gweld cynnydd mewn niferoedd ac wedi derbyn 126 o atgyfeiriadau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain yn ddysgwyr blwyddyn 10 ac 11 sydd wedi ymddieithrio ac mewn perygl o gael eu gwahardd.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod dysgwyr bregus yn cael **mynediad at gwricwlwm galwedigaethol pwrpasol** i ddiwallu eu hanghenion drwy gynnig ystod o gyrsiau gwahanol i roi'r **cyfle gorau iddynt gyflawni a chyrraedd eu llawn botensial**.

Llwyddodd cyfanswm o 69 o ddysgwyr i ennill cymwysterau y flwyddyn academaidd hon.

Mae hyn yn rhan o uchelgais y Cyngor i gefnogi'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi ymddieithrio, a **sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngheredigion gyrchfan i'w taith.**

## Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn ***dda*** ac mae rhagolygon gwella yn ***dda.***

Mae buddsoddiadau cyfalaf mewn ysgolion yn mynd rhagddynt megis adnewyddu ac ehangu i greu ysgol 3-16 Henry Richard. Mae cyrhaeddiad addysgol disgyblion Ceredigion yn parhau i fod ymhlith yr uchaf yn genedlaethol, ac mae dysgu ôl-16 yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chymorth i agor cyfleoedd newydd i holl ddysgwyr Ceredigion.

Mae strategaethau allweddol wedi'u cyflawni yn y flwyddyn ddiwethaf i greu'r sylfeini ar gyfer gwelliannau pellach megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir a'r Strategaeth Cydraddoldeb ac Amddifadedd ar gyfer ysgolion a fydd yn cefnogi disgyblion yr effeithir arnynt yn anghymesur.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

## MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o bob oed I Ddysgu** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol. ▶

| |
|---|
| Llewyrchus |
| Cydnerth |
| Iachach |
| May Cyfartal |
| Cydlynus |
| Diwylliant |
| Byd-eang |

### Hirdymor

- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ceredigion yn strategaeth 10 mlynedd i gryf-hau'r ddarpariaeth Gymraeg a gweithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru erbyn 2050.
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi yn cymryd agwedd hirdymor
- Mae gwelliannau i ysgolion yn darparu cyfleusterau gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr

### Atal

- Mae cefnogi pob dysgwr yn helpu i roi gwell cyfleoedd dysgu a gyrfa iddynt
- Bydd gweithio i godi lefelau incwm ar draws y Sir yn helpu i atal tlodi mewn gwaith
- Mae cefnogi pobl trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor neu Daliadau Tai Dewisol yn elfennau allweddol o gymorth ariannol i aelwydydd drwy'r argyfwng costau byw ac i atal eu sefyllfa rhag gwaethygu.

### Cydweithio

- Gweithio gyda'r Trydydd Sector i ddarparu cymorth iechyd meddwl i bobl ifanc yn dilyn pandem-ig COVID-19
- Bydd gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru yn helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bobl ifanc Ceredigion.
- Cefnogi darpariaeth Cinio Ysgol am Ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd ac ariannu gofal plant i bob plentyn dwy oed

### Cynnwys

- Mae cefnogi Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc ledled Ceredigion yn cael eu clywed
-

### Integreiddio

- Bydd darparu'r dechrau gorau mewn bywyd yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.
- Mae gwell sgiliau a swyddi yn cynyddu lefelau incwm ac felly'n galluogi'r economi leol i dyfu
- Mae Rhaglen Arfor i gefnogi a chryfhau'r cysylltiadau rhwng twf economaidd a'r Gymraeg hefyd yn cryfhau pob un o'r pedair piler llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwyllian-nol)

## CYFLAWNIADAU PELLACH

**51**
Twf Swyddi Cymru + Dysgwyr yn ymgysylltu â Hyfforddiant Ceredigion Training

**75%**
O'r bobl a oedd yn ymwneud â Hyfforddiant Ceredigion aeth ymlaen naill ai i gyflogaeth neu ddysgu pellach

**91.9%**
Presenoldeb disgyblion cynradd

**88.9%**
Presenoldeb disgyblion uwchradd



CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY, MWY GWRYDD SYDD WEDI'U CYSYLLTU'N DDA A'I GILYDD



# Cynnydd a Wnaed

- Mae'r Cyngor wedi parhau i geisio cael cyllid ar gyfer gwaith amddiffyn yr arfordir ac yn dal yn cwblhau'r gwaith hwnnw yn Aberaeron, Aberystwyth, y Borth a Llangrannog, a'r gwaith rheoli perygl llifogydd yn Llandre, Aberaeron, y Borth, Talybont a Chapel Bangor:
- Mae contract adeiladu Cynllun Amddiffyn Arfordirol Aberaeron ar fin cael ei ddyfarnu. Cwblheir Achos Busnes Amlinellol Aberystwyth yn ystod 2023/24, tra bydd yr achos busnes ar gyfer Llangrannog yn destun ymgynghoriad yn ystod hydref 2023. Yn Nhal-y-bont a Chapel Bangor, mae'r achosion busnes amlinellol bron wedi'u cwblhau, ac mae trafodaethau'n parhau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae Achos Cyfiawnhad Busnes Llandre, Aberaeron a'r Borth wrthi'n cael eu datblygu. Gohiriwyd Achos Busnes Amlinellol y Borth tra bod CNC yn cynnal eu ABA ar gyfer aber Afon Dyfi.
- Sicrhawyd cyllid i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer atebion i lifogydd yn Llanybydder a Llandysul, a rhagwelir y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain y gwaith adeiladu unwaith y bydd yr achos busnes wedi'i gwblhau a chytuno arno.
- Mae'r gwasanaeth torri glaswellt amwynder wedi'i adolygu ac mae bellach yn cynnwys 'Mai Di-dor'/ 'No Mow May' i gefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth yn y Sir. Adolygir y gwaith rheoli cyson ar ymylon ffyrdd er mwyn galluogi bioamrywiaeth a blodau gwyllt i ffynnu a gwella hyn ymhellach.
- Gan weithio gyda chwmnïau bysiau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, mae'r Gwasanaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd wedi llwyddo i sicrhau gwasanaeth ar y lefel orau y gallai gweithredwyr ei ddarparu.
- Parhau y mae'r gwaith yn archwilio, cynnal ac atgyweirio'r rhwydwaith priffyrdd yn amodol ar y cyllid sydd ar gael a cheisir am gyllid ychwanegol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i adnewyddu priffyrdd.
- Rhoddir blaenoriaeth i newid hinsawdd a lleihau carbon. Ers 2007 mae'r Cyngor wedi cynnal cyfres o dri Chynllun Rheoli Carbon 5 mlynedd.
- Yn 2019, datganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd ac ymrwymodd y Cyngor i gyflawni Net Carbon Sero erbyn 2030.
- hyn wedi golygu newid cannoedd o fylbiau o amgylch y sir, gan arwain at arbediad o dros £2 filiwn.
- Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae Ceredigion wedi cyflawni un o'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru a'r DU yn gyson ac ar hyn o bryd mae'n 70.3% ar gyfer y deuddeg mis hyd at fis Mehefin 2022, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 65.5% a'r trydydd uchaf yn genedlaethol. Mae lefelau uchel o ailgylchu yn y Sir yn dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno mentrau Effeithlonrwydd Ynni sy'n rhoi cyngor a mesurau effeithlonrwydd yng nghartrefi pobl.
- Aethpwyd ati i wella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus ar hyd coridor TrawsCymru drwy Gyllid Trafnidiaeth Leol.
- Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Carbon Sero Net newydd ar gyfer Cyngor Ceredigion a hwnnw'n nodi ei ymateb i'r argyfwng hinsawdd ledled y sir, ac yn egluro pam fod angen i ni gymryd y camau hyn a pham mae targed 2030 mor bwysig i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- Mae'r Cyngor wedi cydnabod ers tro bwysigrwydd newid hinsawdd a'i effaith hirdymor ar gymunedau ac ar yr amgylchedd. Mae ganddo ymrwymiad parhaus i leihau ei ôl troed carbon, a bydd hyn o fudd i'r Awdurdod a'r gymuned ehangach drwy leihau allyriadau carbon a hefyd arbedion costau ynni.
- Fel rhan o'r ymrwymiad hwn mae'r Cyngor wrthi'n datblygu map ffordd â thri cham iddo i symud tuag at ei nod o gyflawni statws allyriadau carbon sero net erbyn 2030. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ac mae'n gyson â nod datganedig Llywodraeth Cymru o ddatgarboneiddio sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030.
- Bu heriau gweithredol yn ystod y gaeaf diwethaf i'r Gwasanaeth Gwastraff, ond mae dulliau newydd eisoes wedi'u treialu i oresgyn rhai o'r rhain (e.e. gwneud casgliadau Gŵyl y Banc yn gynharach) ac mae perfformiad ailgylchu yn parhau'n gryf. Casglwyd 89.33% o lwybrau casglu gwastraff ar y diwrnod casglu a drefnwyd, a 96.56% o lwybrau casglu gwastraff wedi'u casglu ar yr wythnos gasglu a drefnwyd.
- Mae Strategaeth Rheoli Gwastraff newydd ar y gweill a defnyddir hon i adolygu'r gwasanaeth a blaenoriaethu sut orau i ddyrannu adnoddau. Mae Priffyrdd a'r Gwasanaeth Amgylcheddol wrthi'n comisiynu ymgynghorwyr i gynorthwyo â chynnal adolygiad cyfannol o'r gwasanaeth gwastraff.
- Yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid yn 2021, dyfarnwyd £420,000 o'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVTF) ar gyfer datblygu Strategaeth ULEV Ceredigion sy'n cyd-fynd â Strategaeth Ynni Tyfu Canolbarth Cymru i ddatblygu rhaglenni gwaith ULEV.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi partneru â Silverstone Green Energy Limited i weithredu ei fannau gwefru ac mae eisoes wedi dechrau gosod mannau gwefru cerbydau trydan mewn 11 o feysydd parcio cyhoeddus Talu ac Arddangos yn y sir. Rhagwelir twf sylweddol yn y galw am bwyntiau gwefru Cerbydau Trydan (EV) cyhoeddus a phreifat yn ystod y 10 mlynedd nesaf wrth i werthiant cerbydau trydan gynyddu.
- Hyd yma mae Cyngor Sir Ceredigion wedi

gosod bron i 450kW o baneli solar ar nifer o adeiladau, gan gynhyrchu mwy na 400,000kWh o drydan gan fod â photensial i ddarparu hyd at £113,000 o arbedion refeniw y flwyddyn (yn ôl prisiau cyfredol).

- Mae buddsoddi mewn lleihau carbon wedi cyfateb i ostyngiad cronnol o 20.48% mewn allyriadau carbon yn erbyn targed o 15% (2017/18 i 2021/22).
- Bydd pump o draethau mwyaf poblogaidd Ceredigion yn chwifio Baneri Glas unwaith eto yn 2023 ar ôl derbyn y wobr gan Cadwch Gymru'n Daclus. Traethau'r Faner Las yw'r Borth, De Aberystwyth, Llangrannog, Tresaith ac Aberporth.
- Mae pedwar traeth arall wedi ennill statws Gwobr Glan Môr sef Gogledd Aberystwyth, Harbwr Cei Newydd, Traeth y Dolau, Cei Newydd a Chlarach. Rhaid i draethau sy'n ennill statws gwobr y Faner Las ac Arfordir Glas fodloni'r safon uchaf o ran ansawdd dŵr "rhagorol" a chânt eu beirniadu am ddarparu cyfleusterau i ddefnyddwyr traethau ac am ddangos rheolaeth dda a darpariaeth diogelwch.
- Mae Traeth Gwyn Cei Newydd, Cilborth, Llanrhystud, Mwnt a Phenbryn oll wedi ennill y Wobr Arfordir Glas. Mae'r Wobr Glan Môr yn cydnabod traethau sydd ag ansawdd dŵr o safon "dda" yn gyffredinol, cyfleusterau cyhoeddus, darpariaeth diogelwch a rheolaeth ar y traeth.
- Fel awdurdod lleol, rydym wedi gweithio'n agos gyda datblygwyr a landlordiaid i ddarparu ystod o dai fforddiadwy yn y sir. Cwblhawyd 657 o gartrefi fforddiadwy net ers 2017.
- Mae lobïo sylweddol gan Gyngor Sir Ceredigion ac eraill wedi arwain at ddarpariaeth band eang Ffibr llawn o 40.9% a galluogrwydd dros 100 Mbps. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae darpariaeth Ffibr i eiddo (FTTP) wedi cynyddu o 28.3% i 40.9%.
- Yn dilyn cwblhau Rhaglen Cyflymu Cymru disgwylir y bydd 90% o Geredigion yn gallu derbyn +30Mbps. Mae buddsoddiad yn digwydd lledled y sir wrth i 4 darparwr rhwydwaith amgen gwahanol gynnig prosiectau ffeibr, gan olygu dros 20 o ardaloedd i elwa o'r prosiect sydd i'w ddechrau yn 2022 a 2023.
- Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Strategaeth Ddigidol newydd a fydd yn amlinellu'r cyfeiriad strategol ar lefel uchel a'r cynlluniau ar gyfer ei ddarpariaeth ddigidol a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i gwsmeriaid.
- Mae'r Tîm Argyfyngau Sifil Posibl yn paratoi ar gyfer argyfyngau sifil ar draws y Sir ac yn paratoi sut i ymateb iddynt. I wneud hyn, mae ymarfer lleol wedi'i flaenoriaethu ochr yn ochr â digwyddiadau ymarfer a hyfforddi rhanbarthol. Yn ogystal, mae cynlluniau parodrwydd wedi'u diweddaru a'u hadolygu dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â diweddariadau i Gynlluniau Parhad Busnes.
- Mae ansawdd aer wedi aros ymhell o fewn y terfyn cyfreithiol ar gyfer NO2 ym mhob safle monitro yn y sir yn Chwarter 1. Mae monitro ansawdd aer yn fisol yn parhau i ddigwydd ynghyd ag adroddiadau blynyddol ar dueddiadau.
- Aethpwyd ati'n rhagweithiol i weithio gyda Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru) a Grŵp Gorchwyl a Gorffen Enwau Lleoedd Hanesyddol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- Llwyddwyd i atal 67% o aelwydydd a gefnogwyd gan y Tîm Digartrefedd rhag dod yn ddigartref.
- Yn dilyn ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd, datblygodd Cyngor Sir Ceredigion Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (ATNMs) a gymeradwywyd gan y Gweinidog dros Newid Hinsawdd ym mis Awst 2022. Mae'r mapiau'n cynnwys llwybrau arfaethedig ar gyfer y dyf-

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**70.3%**
gwastraff wedi'i ailgylchu wedi'i gompostio neu ei ailddefnyddio am y deuddeg mis hyd at fis Mehefin 2022

**1.8m**
Cyfanswm yr oriau cilowat o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gan asedau'r cyngor

**1.67**
diwrnod ar gyfartaledd i glirio tomenni anghyfreithlon ledled y Sir

**20.5%**
Ostyngiad cronnus mewn allyriadau carbon ers 2017/18, uwchben y targed o 15%

**14**
o draethau Ceredigion wedi adnabod mewn Gwobrau Arfordir Cymru eleni

**93.6%**
O'r diffygion priffyrdd categori 1 a gaiff eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf

**2**
Gwobr Effeithlonrwydd Ynni Rhanbarthol i gydnabod y gwaith o helpu perchnogion tai i leihau eu biliau ynni, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon

**40.9%**
O gynnydd i ddarpariaeth band eang Ffibr i'r Adeilad (FTTP) o 28.3%, oherwydd buddsoddiad mewn cysylltedd digidol dros y ddwy flynedd ddiwethaf

# GWELLA CANLYNIADAU

## TAI FFORDDIADWY LLEOL

Defnyddir ystod o fesurau gan y Gwasanaeth Tai i geisio cael y nifer uchaf posibl o dai fforddiadwy i fod ar gael yn y sir. Mae hyn bellach yn cynnwys Cynllun Tai Cymunedol sydd newydd ei lansio sy'n defnyddio arian o'r Premiwm ar Ail Gartrefi drwy'r Dreth Gyngor bresennol.

Ym mis Mawrth 2022, gwnaeth y Cyngor ymrwymiad i gefnogi'r cynllun sy'n helpu pobl i gael tai fforddiadwy yn eu cymunedau lleol drwy greu llwybr i fod yn berchen ar d[illegible].

Mae hyn oherwydd y galw cynyddol am eiddo gwledig a bod unedau fforddiadwy ar gael mewn aneddiadau gwledig. Cynlluniwyd y cynllun i **atal aelwydydd cymwys rhag cael eu prisio allan o'r farchnad, atal dirywiad gwledig a diboblogi pellach**, a **chynnig opsiynau newydd i bobl aros yn eu cymuned leol.** Gall cynlluniau fel hyn arwain at fwy o ymdeimlad o gysylltiad, gan arwain at **gynaliadwyedd hirdymor cymunedau**.

Mae arian a godir o Bremiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor yn cael ei glustnodi i ariannu'r cynllun Tai Cymunedol, er mwyn cynorthwyo trigolion lleol i brynu cartrefi yn y Sir trwy gynnig benthyciadau ecwiti a rennir di-log. Bwriadir lansio'r cynllun ym mis Medi 2023.

## DATBLYGU CYFRIFOL

Yr estyniad newydd yn Ysgol Llwyn yr Eos ym Mhenparcau, Aberystwyth, yw adeilad sero net cyntaf y Cyngor.

Gosodwyd gwres o'r ddaear a phaneli solar fel rhan o'i gynllun, a'r bwriad yw y bydd hyn yn gosod meincnod ar gyfer gwaith adeiladu'r Cyngor yn y dyfodol.

Mae ynni adnewyddadwy bob amser hefyd yn rhan o waith adnewyddu adeiladau ac yn rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i'w darged carbon sero net o 2030.

Gwyddom fod plant yn teimlo'n gysylltiedig â'u hamgylchedd naturiol lleol a sylweddolwn bwysigrwydd diogelu'r amgylchedd ar gyfer eu cenhedlaeth hwy a rhai'r dyfodol. Yn yr Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion dywedodd plant mai newid yn yr hinsawdd yw'r her fwyaf a wynebir ar hyn o bryd. Bydd buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, lleihau allyriadau carbon a gweithio'n rhagweithiol gyda chontractwyr i gyflawni uchelgeisiau carbon sero net y Cyngor nid yn unig yn helpu i **ddiogelu'r amgylchedd**, ond hefyd yn **lleihau costau ynni** ac yn **lleihau ei ôl troed amgylcheddol**.

## DIOGELU HANES & DIWYLLIANT

Mae'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd wedi'i ddiweddaru i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i annog perchnogion tai i ystyried mabwysiadu enwau tai Cymraeg, a all fod â tharddiad ieithyddol, ac yn cyfeirio at elfennau hanesyddol neu ddiwylliannol yn y cyffiniau.

Mae'r dull hwn wedi derbyn cydnabyddiaeth o arfer da gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, a gofynnwyd am ganiatâd i rannu'r arfer da hwn gydag awdurdodau lleol eraill ledled y wlad.

Pan gofrestrir enwau tai yng Ngheredigion, caiff pob ymgeisydd wybodaeth am yr iaith Gymraeg a diwylliant yr ardal er mwyn helpu i annog y defnydd o enwau Cymraeg neu enwau hanesyddol. Mae mwyafrif y ceisiadau am enwau tai yng Ngheredigion yn Gymraeg ac/neu ag arwyddocâd hanesyddol.

Mae'r dull hwn yn **annog cadw enwau lleoedd hanesyddol Cymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol** ac yn cefnogi nod llesiant cenedlaethol o gael Cymru yn wlad sydd â **Diwylliant Bywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu.**

## CYNYDDU EFFEITHLONRWYDD EGNI

Ym Mehefin 2022, yng Ngwobrau Effeithlonrwydd Ynni Rhanbarthol Cymru, enillodd Cyngor Sir Ceredigion ddwy wobr am eu Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni.

Mae'r Gwobrau Effeithlonrwydd Ynni yn cydnabod gwaith y sector arbed ynni yng Nghymru. Cyflwynwyd y mesurau i helpu perchnogion tai i **leihau eu biliau ynni**, mynd i'r afael â **thlodi tanwydd** a **lleihau allyriadau carbon.**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn rhedeg Cynllun Hyblygrwydd ECO ynghyd â Chynllun Cartrefi Clyd Ceredigion ers nifer o flynyddoedd. Fel rhan o'r cynlluniau hyn, mae nifer o fesurau inswleiddio a systemau gwresogi wedi'u gosod mewn amrywiol adeiladau i wella eu **heffeithlonrwydd o ran ynni.**

Hyd yma, mae'r Cyngor wedi buddsoddi dros £5 miliwn mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon, a'r buddsoddiadau hyn wedi arbed £2.8miliwn hyd yn hyn.

## DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

### Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn ***dda*** ac mae'r rhagolygon gwella yn ***dda iawn***.

Mae Ceredigion wedi cymryd rhan flaenllaw yn ei huchelgeisiau i gyflawni sero net a diogelu ei hamgylchedd unigryw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er gwaethaf yr heriau sy'n bodoli o ran cyflawni sero net, mae'r camau i leihau ein hôl troed carbon, gwella teithio llesol a chysylltu cymunedau ar y trywydd iawn ac mae datblygiadau pellach ar y gweill yn y flwyddyn i ddod.

Mae Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor, y Cynllun Tai Cymunedol a pherfformiad uchel parhaus mewn ailgylchu yn enghreifftiau o sut mae Ceredigion yn arwain y ffordd wrth gyflawni'r amcan hwn.

### YN ARWAIN Y FFORDD

### MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Creu Cymunedau Cynaliadwy, mwy Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda a'l Gilydd** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol. ▶

- Llewyrchus
- Cydnerth
- Iachach
- May Cyfartal
- Cydlynus
- Diwylliant
- Byd-eang

### Hirdymor

- Bydd cynllunio hirdymor i leihau allyriadau carbon yn helpu i ddiogelu ein tirwedd hardd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Defnyddiwyd dadansoddiad Tueddiadau'r Dyfodol i ddatblygu Cynllun Rheoli Carbon 5 Mlynedd y Cyngor

### Atal

- Mae'r amcan cyntaf yn canolbwyntio ar atal effaith pellach ar yr amgylchedd, yn enwedig lleihau allyriadau carbon, ond hefyd yr effaith ar fioamrywiaeth ar draws y Sir
- Mae teithio llesol yn rhan allweddol o strategaeth Ceredigion i wella iechyd a llesiant, ac felly atal problemau sy'n ymwneud ag iechyd yn y dyfodol.
- Mae bod yn gysylltiedig wedi dod i'r amlwg dros ers pandemig COVID-19, a bydd budd-soddi mewn cysylltedd yn helpu i greu cymunedau cryfach a mwy llewyrchus.

### Cydweithio

- Bydd gweithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid yn helpu i sicrhau dull cydgysylltiedig o leihau effaith newid yn yr hinsawdd a'n bod i gyd yn canolbwyntio ar fathau mwy cynali-adwy o ynni yn y dyfodol.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, er enghraifft, i ddatblygu Prosiect Gwresogi Ardal Penglais lle bydd pob sefyd-liad sector cyhoeddus yn yr ardal yn gallu manteisio ar ynni gwyrdd.

### Cynnwys

- Mae pawb yn cymryd rhan ac yn cael eu hannog i wneud dewisiadau a fydd yn lleihau cost-au nawr ac yn gwarchod yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol

### Integreiddio

- Mae datgarboneiddio, gwella iechyd y Sir trwy annog teithio llesol, a gwella cysylltedd yn dod â buddion clir ar gyfer cynyddu ein cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant

## CYFLAWNIADAU HIR-DYMOR

**210**
Uned Tai Cymdeithasol wedi Datblygu

**£3.5m**
Cronfa Cartrefi Cynnes ar gyfer gwresogi a ynysiadau / uwchraddio

**£510,853**
Wedi'i wario ar 35 o Fenthyciadau Gwella Cartrefi

**56**
Uned o lety Gofal Ychwanegol ar safle newydd Maes y Môr

# CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithio i greu Cymru gynaliadwy. Ei bwriad yw helpu i greu Cymru yr ydym ni eisiau byw ynddo, nawr ac yn y dyfodol. Mae 7 nod llesiant cenedlaethol sy'n nodi gweledigaeth a rennir i bob corff cyhoeddus weithio tuag at (dangosir ar y dde).

Gwyddom ein bod yn wynebu heriau yng Ngheredigion - mae pandemig COVID-19 wedi bod yn ddigynsail o ran ei effaith ar bob cefndir, ond yn fwy diweddar mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer o aelwydydd yn y Sir. Mae rhai o'r materion hyn wedi'u gwaethygu gan y pandemig ac wedi dod i'r amlwg fel fforddiadwyedd tai, tra bod eraill yn parhau i fod yn her gyson fel mynd i'r afael a thlodi.

Mae hefyd angen tyfu'r economi leol a chreu cyfleoedd i bobl leol aros a ffynnu yn eu cymunedau lleol. Bydd demograffeg newidiol y Sir tuag at boblogaeth sy'n heneiddio ac allfudiad o bobl iau yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar draws y pedwar piler llesiant.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cydweithio â'i bartneriaid lleol a rhanbarthol i fynd i'r afael â'r materion cymhleth hyn i greu'r Ceredigion yr ydym ei heisiau. Rhai enghreifftiau yw Bargen Twf Canolbarth Cymru yn ysgogi cyllid sylweddol ar gyfer adfywio ar draws y rhanbarth, yr ymateb cydgysylltiedig i bandemig COVID-19 gydag amrywiaeth o bartneriaid ar draws y Sir, ac Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth fynd i'r afael ag effaith Tlodi ar draws y sir.

Roedd Amcanion Llesiant 2021/22 y Cyngor yn canolbwyntio ar yr ymateb uniongyrchol i pandemig COVID-19 ac yn cefnogi'r adferiad tymor hwy. Fe'u gosodwyd yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion lleol ac ar farn pobl leol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i bennu'r anghenion hyn gan gynnwys Asesiad diwethaf Ceredigion o Lesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol.

Bydd yr Amcanion Llesiant yn ein helpu i wella canlyniadau i bobl leol a hefyd yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

Rydym yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r Amcanion yn rheolaidd ac yn cynhyrchu Adroddiad Hunanasesu blynyddol lle rydym yn cyfleu cynnydd.


Mae **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion** yn dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y Sir a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghyd, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir drwy gryfhau cydweithio ar draws gwasanaethau'r Sir.

Fel y Cyngor, datblygwyd ei flaenoriaethau gan ddefnyddio tystiolaeth ac adborth ymgysylltu o ffynonellau allweddol megis yr Asesiad o Lesiant Lleol.

Mae hyn yn sicrhau bod Amcanion Llesiant Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi'u halinio i ganolbwyntio ar anghenion blaenoriaeth y Sir, a chynyddu'r cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

Mae themâu cyffredin fel mynd i'r afael a thlodi, cyfrifoldeb amgylcheddol, creu cyfleoedd a darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i gyd yn cyd-fynd yn agos ac yn caniatáu i ni ddarparu ymateb cydgysylltiedig a rennir i wella llesiant. Mae'r tabl trosodd yn dangos sut mae Amcanion Llesiant Ceredigion yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant cenedlaethol.

## Y 7 NOD LLESIANT CENEDLAETHOL




**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi 7 Nod Llesiant ar waith.**

**Mae'r Ddeddf yn rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i ni wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.**

**Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio yn well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.**

| ▼ Nod Llesiant | Sut mae Amcanion Llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol ▼ |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Mae ein holl Amcanion Llesiant yn adlewyrchu'r pwysigrwydd o ddatblygu economi leol Ceredigion. Bydd galluogi cyflogaeth, datblygu sgiliau, darparu tai fforddiadwy, amddiffyn yr amgylchedd, cefnogi busnesau a buddsoddi mewn adfywio i gyd yn cyfrannu tuag at y nod cenedlaethol o Gymru lewyrchus. Bydd cefnogi busnesau i ymateb i effeithiau Covid-19 yn helpu'r ymateb ar unwaith a'r ymateb yn y tymor hir wrth i ni edrych i gynyddu tyfiant economaidd, creu mwy o swyddi a swyddi tal gwell ac i gefnogi'r gweithlu trwy ddarparu cyfleoedd i ddysgu. |
| Cymru gydnerth | Bydd cyflwyno ein huchelgais o fod yn garbon net sero, cynyddu cyfleoedd i deithio llesol a sicrhau bod cymunedau wedi'i chysylltu yn dda yn helpu amddiffyn ein hamgylchedd naturiol ac yn creu cymunedau cryf a gydnerth. Mae hyn yn cyfrannu tuag at y nod llesiant cenedlaethol o greu Cymru gydnerth trwy leihau ein heffeithiau ar yr amgylchedd a gwella ein gallu i addasu i newid. |
| Cymru iachach | Mae cefnogi dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant, amddiffyn pobl rhag tlodi, a hybu bywydau iachach a mwy llesol yn ceisio adeiladau Ceredigion a Chymru iachach. Mae hyn hefyd yn galluogi byw annibynnol ac yn darparu ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal i'r rhai sy'n agored i niwed. Bydd cefnogi dinasyddion sydd wedi'i effeithion anghymesur gan COVID-19 i wella ei llesiant ffisegol ac emosiynol yn cefnogi mentrau arall i ddarparu Cymru iachach. |
| Cymru sy'n fwy cyfar-tal | Mae pob un o'n Hamcanion Llesiant yn ceisio sefydlu Cymru fwy Cyfartal drwy sicrhau cyfle cyfartal i bawb mewn cyflogaeth, tai, addysg, ffyrdd iach-ach o fyw a chymunedau cynaliadwy. |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Mae adeiladu cryfder ein cymunedau yn nodwedd allweddol yn ein Hamcanion Llesiant. Bydd darparu cefnogaeth i'n cymunedau fod yn gryf ac wedi'u cysylltu'n dda fel eu bod yn gallu ffynnu er gwaethaf Covid-19 yn gwella Cymru o gymunedau cydlynol. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion. Amlygwyd piler diwylliannol Llesiant fel un sy'n arbennig o bwysig i Ddinasyddion yn Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion, ac mae mesurau pellach i hyrwyddo dwyieithrwydd a'r Iaith Gymraeg yn eu lle. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Wrth ystyried ein Hamcanion Llesiant, rydym wedi ystyried Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion a gweithgarwch ymgysylltu er mwyn sicrhau y gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. Mae cymorth ar gyfer teithio llesol, dulliau eraill o deithio a ffyrdd newydd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais di-garbon yn parhau â'n gwaith yn y maes hwn. |

# YR EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY

**Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac mae'n amlinellu'r 5 ffordd o weithio y mae'r rhaid i bob corff cyhoeddus eu mabwysiadu. Datblygu Cynaliadwy yw'r egwyddor drefnu ganolog sy'n llywio'r hyn yr ydym yn ei wneud a'r ffordd yr ydym yn gwneud hynny.**

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ymdrechu i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r dull hwn yn rhoi cyfle i feddwl yn arloesol, gan adlewyrchu'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau a'r hyn a ddisgwyliwn gan ein gwasanaethau cyhoeddus

Rydym wedi gwreiddio'r egwyddor ar draws y Cyngor ac wedi mabwysiadu'r egwyddor wrth gynllunio a chyflawni ein Hamcanion Llesiant.

Mae rhai o'r ffyrdd yr ydym wedi defnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wedi'u hamlinellu i'r dde.

| | Ffyrdd o Weithio | Sut mae'r Cyngor wedi dangos yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy |
|---|---|---|
| | **Hirdymor**<br>Edrych i'r tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu anghenion eu hunain | • Mae Cynllunio Ariannol Tymor Canolig yn sicrhau bod penderfyniadau yn ystyried yr effaith ar cenedlaethau'r dyfodol<br>• Mae cynllunio'r gweithlu yn sicrhau datblygiad sgiliau'r gweithlu ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod gwasanaethau yn cynaliadwy yn hir dymor.<br>• Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn ceisio datblygu a gwella llesiant cymdeithasol, economi, amgylcheddol a diwylliannol Ceredigion dros y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt.<br>• Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig COVID-19 yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi a mabwysiadu ymagwedd hirdymor at ddatblygu economaidd yn adlewyrchu hyn. |
| | **Integreiddio**<br>Cymryd ymagwedd integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu Hamcanion llesiant | • Mae'r Amcanion Llesiant yn cyd-fynd â rhai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion sy'n hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ac ymateb cydgysylltiedig i'r heriau y mae Ceredigion yn eu hwynebu i wella llesiant dinasyddion. |
| | **Cynnwys**<br>Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt | • Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor wedi ystyried Asesiad o Lesiant Lleoly Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gynhyrchwyd yn dilyn ymgysylltu helaeth â dinasyddion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig.<br>• Mae'r Cyngor yn ymgynghori'n flynyddol â dinasyddion a'i grwpiau ymgysylltu ar adolygu a gosod ei Amcanion Llesiant blynyddol.<br>• Bydd Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad y Cyngor yn helpu i sicrhau bod lleisiau holl grwpiau Ceredigion yn cael eu clywed. |
| | **Cydweithio**<br>Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir | Mae'r cyngor yn cefnogi'r partneriaethau canlynol, ynghyd ac eraill;<br>• Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.<br>• Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.<br>Gweithiodd y Cyngor ochr yn ochr â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a phartneriaid eraill i ymateb i COVID-19, gan gynnwys sefydlu dau ysbyty dros dro, canolfannau brechu torfol a phanel amlasiantaethol i sicrhau bod lleoliadau cymunedol yn cael eu hailagor yn ddiogel. |
| | **Atal**<br>Deall achosion sylfaenol problemau i'w hatal rhag digwydd | • Mae Amcanion Llesiant y Cyngor wedi'u pennu er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael ag effeithiau tlodi, materion gwledigrwydd a gwella llesiant pobl o bob oed, o'r blynyddoedd cynnar hyd at oedran hŷn.<br>• Mae'r Model Gydol Oes yn darparu dull cydgysylltiedig o ymdrin â gofal cymdeithasol er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, a chaniatáu i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain. |

# UNO EIN DOGFENNAU - CYSYLLTAU I ADNODDAU ALLWEDDOL

## ADNODDAU ALLWEDDOL

**Mae ein Hadroddiad Hunanasesu yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas â pherfformiad y Cygnor a gosod ac adolygu amcanion llesiant.**

**Mae gofynion Hunanasesu yn cyd-fynd â'r dyletswyddau a amlinellir mewn Deddfau eraill, ac yn eu cefnogi. Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o'r dyletswyddau hyn a pholisi neu strategaeth briodol y Cyngor sydd ar waith i ymateb i'r ddyletswydd.**

- Cydraddoldebau
- Yr Iaith Gymraeg
- Cyllid
- Caffaeliad
- Llywodraethu
- Rheoli Asedau
- Adnoddau Dynol
- Llesiant Gydol Oes
- Economi
- Mynd i'r afael a Chaledi
- Strategaeth Gweithio Hybrid
- Tai

## CYDRADDOLDEBAU

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cygnor yn egluro sut y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod y camau a gymerwn yn deg i bawb. Mae cael eich trin yn deg a chyda pharch yn berthnasol i bob un ohonom ac i'n teuluoedd a'n ffrindiau. Dyma bum Amcan Cydraddoldeb y Strategaeth:

- Cyflogwr cyfle cyfartal enghreifftiol
- Meithrin perthnasoedd da a mynd i'r afael â rhagfarn
- Ymgysylltu a chyfranogi
- Urddas, parch a mynediad i wasanaethau
- Addysg deg a chynhwysol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd ac yn disodli'r cyfreithiau gwrthwahaniaethu blaenorol. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall a chydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r Ddeddf yn diogelu hawliau unigolion ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae'n cynnwys rhoi dyletswydd gyffredinol ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus i roi 'sylw dyledus' i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu'n anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu trwy fynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth ohono.

Mae'n ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus adolygu eu Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'u cynllun gweithredu bob pedair blynedd. I wneud hyn, rydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'n cymunedau lleol i lywio'r cynllun a'r amcanion. Mae Cyngor Ceredigion yn aelod o Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin, a chytunodd y Grŵp hwn i fynd ati fel rhanbarth i ymdrin â'r darn hwn o waith. Datblygwyd y cynllun ymgysylltu ac ymgynghori rhanbarthol yn Ch4 2022-23 a bydd yn cael ei roi ar waith yn ystod 2023-24 er mwyn i'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol diwygiedig fod yn barod i'w cyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2024.

## YR IAITH GYMRAEG

Er mwyn cynnal cymunedau Cymraeg hyfyw lle mae'r Gymraeg yn iaith cyfathrebu naturiol yng Ngheredigion, mae Strategaeth Iaith y Cyngor yn cydnabod tri maes blaenoriaeth allweddol, sef

- Cynyddu sgiliau iaith trigolion Ceredigion
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion
- Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion.

Cydnabyddir bod cynaladwyedd y Gymraeg yn dibynnu ar y broses o gryfhau cymunedau Cymraeg trwy ddarparu cyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith yn feunyddiol.

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y Cyngor yn annog y Gymraeg ac yn hybu ei defnyddio'n ehangach yn yr ardal leol, drwy gydweithio â sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Mae'r Strategaeth yn cefnogi gweledigaeth gyffredinol y Cyngor i sicrhau gwerth am arian, gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy, a hefyd gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Mae'r Cyngor yn credu bod cyhoeddi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â gweithredu Strategaeth y Gymraeg yng Ngheredigion, wedi ysgogi rhywfaint o newid mewn agweddau tuag at y Gymraeg, ac o ganlyniad, nifer y bobl sy'n dymuno dysgu a siarad. mae'r iaith yng Ngheredigion wedi cynyddu. Dyma grynodeb o brif lwyddiannau gweithredu'r Strategaeth Iaith:

- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) oedd un o'r cynghorau gwirfoddol sirol cyntaf yng Nghymru i ennill cydnabyddiaeth drwy gynllun Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg.
- Enillodd Cyfoeth Naturiol Cymru Wobr Cyflogwr y Flwyddyn Cymraeg Gwaith yn 2022
- Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi ymuno â chynllun Cymraeg Gwaith i ddarparu cyrsiau magu hyder i 100 o'u staff
- Mae Coleg Ceredigion wedi rhoi polisi ar waith sy'n mynnu bod pob aelod o staff yn dilyn rhaglen hyfforddi fewnol i greu dosbarthiadau dwyieithog, 'Sylfaenol, Gwell, Gorau'
- Dadansoddodd y Cyngor ddata Cyfrifiad 2021 o ran ei oblygiadau ar ddefnydd iaith yng Ngheredigion a chyhoeddwyd yr adroddiad llawn ar wefan y Cyngor, a rhannwyd y canlyniadau'n eang gyda phartneriaid.
- Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn buddsoddi mewn datblygiadau ar raddfa fawr sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg gan gynnwys croesawu ei myfyrwyr nyrsio cyntaf a fydd yn derbyn hyfforddiant i fod yn Nyrsys Oedolion ac Iechyd Meddwl ac a fydd yn gallu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

## CYLLID

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhoi fframwaith llywodraethu ariannol i weithredu ynddo drwy nodi'r materion i'w hystyried wrth gynllunio'n ariannol ar gyfer y tymor canolig.

Trwy ddwyn ynghyd yn y ddogfen hon ragdybiaethau ariannol, safonau darparu gwasanaeth, anghenion demograffig, a materion cynllunio'r gweithlu, disgwylir y bydd y Cyngor yn gallu ystyried rheolaeth gyffredinol ei adnoddau yn well er mwyn cyflawni ei amcanion.

Nod ariannol y Cyngor yw defnyddio adnoddau'n ofalus a chyfrifol a sicrhau cynnal a chryfhau cydnerthedd ariannol y Cyngor.

# UNO EIN DOGFENNAU - CYSYLLTAU I ADNODDAU ALLWEDDOL

Mae deall y cyd-destun ariannol cyfan yn bwysig er mwyn sicrhau cyllideb gadarn a chytbwys ar gyfer y blynyddoedd nesaf gan y gwyddys y bydd cwtogi ar gyllid y Sector Cyhoeddus. Mae'r rhagolwg ariannol yn cynnwys rhagolwg cyllideb tair blynedd. Er gwaethaf yr heriau sy'n bodoli, gall cyfleoedd godi o'r heriau hyn drwy ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau'n wahanol ac yn well.

## CHAFFAEL

Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer caffael, fel y datganir yn ei **Strategaeth Gaffael**, yw sicrhau gwerth am arian drwy fynd ati'n effeithiol i gaffael y gofynion ar gyfer ei wasanaeth, a dangos gwelliant parhaus yn ei weithgarwch caffael.

Mae'r Cyngor yn gwario dros £60m yn flynyddol drwy drydydd parti i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus. Trwy broses gaffael strategol ofalus, caiff y gwariant hwn ei dargedu ar gynorthwyo i wireddu gweledigaeth gyffredinol y Cyngor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Mae Strategaeth Gaffael y Cyngor am sicrhau'r canlynol:

- Gwerth am arian drwy seilio penderfyniadau caffael ar gyfuniad priodol o ansawdd a phris.
- Caffael gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion defnyddwyr gwasanaethau, ac yn eu dewis iaith, drwy ymgynghori, ac ymgorffori Mesur y Gymraeg
- Amgylchedd iach trwy gaffael atebion cynaliadwy a thrwy gymhwyso cyflenwyr o flaen llaw yn ôl eu hanes a'u gwerthoedd cynaliadwyedd.
- Y cyfraniad mwyaf posibl tuag at ddatblygu cynaliadwy drwy sicrhau bod Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan annatod o brosesau Caffael.

Yn ystod 2023/24, byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r Strategaeth Gaffael fel rhan o'i hadolygiad pum mlynedd safonol i sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben. Nod yr adolygiad fydd sicrhau bod y Strategaeth yn parhau i gefnogi busnesau lleol a'r economi leol ehangach, a sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau ariannol.

## LLYWODRAETHU

Wrth weithredu ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ac am sicrhau y gweithredir ei swyddogaethau'n effeithiol, a hynny'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risgiau.

Golyga hyn sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian y cyhoedd yn cael ei ddiogelu, ei gyfrifo'n gywir, a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae ei drefniadau llywodraethu i gefnogi cyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol a'i ymrwymiad parhaus i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y Sir.

Mae **Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol** y Cyngor yn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, yn unol â'i werthoedd. Cefnogir y Cod Lleol gan **Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu** sy'n nodi pa sicrwydd y mae'r Cyngor yn ceisio ei gael, a sut y gwneir hyn.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn dwyn ynghyd mewn un ddogfen yr holl drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sydd gan y Cyngor ar waith. Mae'n seiliedig ar ganllawiau arfer gorau a nodir yn Fframwaith Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016 CIPFA/SOLACE. Mae Cod diweddaraf 2022/23 wedi'i adolygu i ystyried newidiadau parhaus i lywodraethu oherwydd pandemig COVID-19.

Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei lywodraethu yn erbyn Fframwaith Sicrhau Llywodraethu Da CIPFA/SOLACE. Hwn yw'r **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**. Mae'r broses adolygu yn cynnwys gweithdy i aelodau/swyddogion lle caiff Dogfen Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor ei dadansoddi a'i hadolygu. Cymeradwywyd yr adolygiad o Fframwaith 2021/22 gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2022 gan roi sicrwydd 'uchel' bod system gadarn o graffu a chadernid ar waith. Rhaid i holl Swyddogion y Cyngor gydymffurfio â'r **Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol**, tra bod yn rhaid i Gynghorwyr y Cyngor gydymffurfio â'r **Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau**.

## RHEOLI ASEDAU

Diben **Polisi Datblygu Asedau**'r Cyngor yw nodi dull Cyngor Sir Ceredigion o wneud y gorau o'i asedau drwy brydlesu, gwaredu a chaffael er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion. Mae amcanion allweddol y Polisi fel a ganlyn:

- Nodi'r prif gamau wrth fynd ati i adolygu Datblygu Asedau. Gweler y Siart Llif am y broses Datblygu Asedau (atodiad C).
- Gosod cyd-destun strategol ar gyfer rheoli tir ac adeiladau sy'n wag neu sy'n cael eu tanddefnyddio.
- Sicrhau bod gan Gyngor Sir Ceredigion y portffolio asedau mwyaf effeithiol ac addas i gyd-fynd â'i amcanion.
- Cael y refeniw mwyaf posib o'r asedau sydd dan berchnogaeth y Cyngor.
- Nodi'r asedau nad oes bellach eu hangen at eu defnydd gwreiddiol, a chael yr incwm mwyaf posib drwy eu datblygu ac/neu eu gwaredu.
- Ychwanegu at y portffolio asedau lle bo'n briodol er mwyn cyflawni'r amcanion corfforaethol.
- Defnyddia'r Cyngor ystod o wahanol gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn, gan gynnwys cael gwared ar dir ac adeiladau sy'n wag neu nad oes eu hangen mwyach, buddsoddi mewn tir ac adeiladau i gynyddu incwm trwy gytundebau prydles, a buddsoddi i ddatblygu tir ac adeiladau ar gyfer defnyddiau masnachol neu ddefnyddiau eraill yn unol ag Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor.

Yn hollbwysig, mae hefyd yn ystyried defnydd y Cyngor o ofod. Mae hyn yn bwysig oherwydd yn ystod 2023/24 byddwn yn adolygu'r Polisi ac yn cyhoeddi Cynllun Rheoli Asedau newydd ar gyfer materion cyfredol. Yn benodol, bydd hyn yn golygu cefnogi ffyrdd newydd y Cyngor o weithio, buddsoddi mewn technoleg newydd ac ailaddasu ein hasedau at ddibenion newydd i drawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau i'n cwsmeriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer y tymor hir.

## ADNODDAU DYNOL

Sail llwyddiant Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw gweithlu sy'n perfformio'n dda, ac sy'n gweithio mewn ffordd sy'n arloesol, yn ddigidol aeddfed ac yn gynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae gennym **Gynllun Gweithlu**, sy'n amlinellu dull y Cyngor o reoli ei weithlu i ddiwallu ei anghenion darparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol. Mae'n cynnwys dadansoddi gofynion gweithlu'r sefydliad, nodi unrhyw fylchau, a chanolbwyntio ar y cynlluniau datblygu i fynd i'r afael â hwy.

Yn ystod 2023, mae Cynllun y Gweithlu yn cael ei ddiweddaru i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n cynnwys recriwtio, cadw staff a chynllunio olyniaeth i sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi â staff sydd â'r cymwysterau priodol. Yn

dilyn cyhoeddi Strategaeth Gorfforaethol newydd 2022-27, bydd y Cynllun Gweithlu wedi'i ddiweddaru yn cyd-fynd â'r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd. Bydd hefyd yn cefnogi ffyrdd newydd y Cyngor o weithio a gwireddu'r buddion sy'n cynnwys cynhyrchiant uwch, llai o deithio a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Mae'r Cynllun Gweithlu diwygiedig ar gyfer 2023-2028 yn cydnabod yr hyn a gyflawnwyd dros gyfnod y cynllun blaenorol, y cysylltiad â strategaethau corfforaethol eraill, proffil ein gweithlu ac yn nodi pedair prif flaenoriaeth thematig i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd.

Dyma'r pedair blaenoriaeth thematig a nodir yn y cynllun:

1. Gwireddu potensial
2. Profiad ymgeiswyr a denu doniau
3. Ffyrdd newydd o weithio
4. Ein diwylliant

Yng Nghynllun Gweithlu 2023-2028 ceir trosolwg o bob thema cyn manylu ar y camau i'w cymryd er mwyn cyflawni gofynion y Cynllun. Ar ddiwedd y ddogfen ceir casgliad o fesurau arfaethedig i roi modd monitro cynnydd yn effeithiol dros gyfnod tair blynedd y cynllun. Disgwylir i'r Cynllun Gweithlu diwygiedig fynd drwy'r broses ddemocrataidd i'w gymeradwyo yn ystod haf 2023.

## LLESIANT GYDOL OES

Mae cynnig cymorth i bob oed a phob angen yn her sylweddol i'r Cyngor gan fod adnoddau yn brin. Mae demograffeg a phroffil y gymdeithas wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf gyda chynnydd sylweddol mewn camddefnyddio sylweddau a'i effaith, cynnydd mewn iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig ac yn nifer y grwpiau oedran hŷn sy'n byw yng Ngheredigion. O ganlyniad, mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny.

Mae'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes yn nodi'r weledigaeth a'r dull gweithredu a ddefnyddir i drawsnewid y ffordd y cefnogir llesiant a diogelwch pobl Ceredigion.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu model gweithredu Llesiant Gydol Oes sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod pobl yn cael cymorth o'r math a'r lefel gywir, ar yr adeg gywir, er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, ac i wneud y mwyaf o annibyniaeth pobl a'u galluogi i aros yn eu cartref eu hunain ac yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd.

## YR ECONOMI

Cyhoeddwyd Strategaeth Economaidd Ceredigion ym mis Mawrth 2021. Mae'n nodi fframwaith ar gyfer gweithredu yn ystod y cyfnod o bymtheng mlynedd hyd at 2035, gan amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy gwydn i Geredigion, wedi'i greu a'i rannu gan bawb.

Yn y strategaeth sonnir am y camau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd yn yr economi leol, gan ganolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth sef Pobl, Menter, Lle a Chysylltedd, gyda phob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyriwyd.

Bydd gwaith yn parhau ar ddatblygu'r cynlluniau gweithredu manwl yn ystod 2023/24. Mae llawer o fentrau eisoes wedi'u datblygu a'u gweithredu o dan y cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Strategaeth Economaidd. Sicrhawyd swm sylweddol o gyllid allanol gan ystod o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, a bydd hyn yn galluogi gosod y sylfeini ar gyfer twf economaidd pellach. Mae'r Strategaeth yn gyfle cyffrous i adeiladu ar seiliau cadarn Ceredigion a chefnogi economi ffyniannus uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.

## TRECHU CALEDI & THLODI

Mae Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 yn cynnwys pedwar amcan llesiant ynghyd â thema drawsbynciol ar fynd i'r afael â chaledi a thlodi sy'n cysylltu â phob un o'r amcanion sy'n ymwneud â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio â chonglfeini llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r mecanwaith ar gyfer gweithredu'r thema trechu caledi a thlodi drwy Is-gr�p Tlodi y Bwrdd yn cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner sy'n craffu ar waith y Bwrdd i wella'r gwaith a wneir i fynd i'r afael â thlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan.

## GWEITHIO HYBRID

Mae'r Strategaeth Gweithio Hybrid Dros Dro yn egluro'r weledigaeth a'r dull gweithredu a ddefnyddir i sicrhau bod gan y Cyngor weithlu sydd â'r sgiliau a'r gallu i weithio mewn ffordd sy'n addas ar gyfer dyfodol y sefydliad.

Ar ôl ymateb yn dda i'r heriau cychwynnol a achoswyd gan y pandemig, symudodd y ffocws i sut y gallai'r Cyngor ddysgu o'r profiad ac adeiladu ar hynny. Gan ddefnyddio canfyddiadau ymchwil ac ymgysylltu â staff, datblygwyd y Strategaeth Gweithio Hybrid i nodi'r egwyddorion a'r broses ar gyfer gweithredu model gweithio hybrid sy'n cynnal y lefel uchel ofynnol o ran darpariaeth gwasanaeth tra hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i weithwyr wrth gydbwyso eu bywyd gwaith a chartref.

Bydd y polisi dros dro mewn grym am 12 mis er mwyn rhoi modd treialu gweithio'n hybrid wrth i'r rheolwyr a'n gweithlu ganfod ffordd newydd effeithiol o weithio ar ôl y pandemig. Wrth i'r cyfnod interim ddod i ben yn ystod 2023, cynhelir adolygiad o'r trefniadau gweithio gyda golwg ar ddatblygu Polisi Gweithio Hybrid parhaol.

## HOUSING

Mae Strategaeth Dai sydd wedi'i diweddaru ar gyfer 2023-28 wedi'i datblygu yn ystod 2023 sy'n nodi gweledigaeth ac uchelgeisiau tai'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023 i 2028. Rydym wrthi'n ymgynghori ar y strategaeth newydd a byddwn yn bwrw ymlaen â hi i'w mabwysiadu ym mis Hydref 2023.

Gweledigaeth y strategaeth newydd yw: *bydd digon o letyau addas a chynaliadwy i gwrdd ag anghenion preswylwyr nawr ac yn y dyfodol.* Rydym yn cydnabod y rôl bwysig mae tai yn chwarae ynghyd a'i ddylanwad ar iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae'n ymateb i heriau allweddol, gan gynnwys darlun y dirwasgiad economaidd cenedlaethol, newidiadau deddfwriaethol, yr arferiad o pandemig COVID-19 a'r broblem ffosffadau sy'n effeithio ar ddatblygiad yn y Sir, sydd i gyd yn chwarae ei ran wrth effeithio tai Ceredigion.

Dwy brif flaenoriaeth y Strategaeth newydd yw:

- Cynyddu cyflenwad a gwella amodau tai.
- Cefnogi preswylwyr yn gartrefi a chymunedau ei hunan.

Mae'r Strategaeth Dai bresennol, sy'n dod i ben yn 2023, ar gael ar wefan y Cyngor.

# EIN PERFFORMIAD

### Sut yr ydym yn Meincnodi ein Perfformiad

Mae’r Cyngor yn monitro ac yn meincnodi ei pherfformiad yn rheolaidd fel rhan o’i threfniadau rheoli perfformiad cyfredol. Mae meincnodi perfformiad yn cyfrannu at ein heffeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth alluogi ni i adnabod arferion gorau a chyfleoedd i wella.


Gyda’r newid deddfwriaeth yn pryderu llywodraethiad y prif gynghorau yn 2021, cafodd y set genedlaethol o Fesuriadau Atebolrwydd Perfformiad (PAMs), a defnyddiwyd ar draws y ddau ar hugain cyngor yn Gymru i’w  diddymu.

Yn y gorffennol, mae Ceredigion wedi perfformio yn dda yn erbyn y mesuriadau yma. Yn y flwyddyn gyfan ddiwethaf o recordio’r PAMs yn 2019/20, casglwyd dau ddeg un mesuriad, gyda Cheredigion yn cyflawni 14 neu 72% ohonynt ar darged, 3 neu 14% arall ychydig oddi wrth y targed a 4 neu 13% i ffwrdd o’r targed yn arwyddocaol.


Yn dilyn y newid i ddeddfwriaeth, rydym nawr yn defnyddio pedwar prif ddull o feincnodi rheolaidd; ein Cynlluniau Busnes Lefel 1, a set o fesuriadau meincnodi allweddol, set o fesuriadau meincnodi cymunedol ac asesiad cyfnodol o berfformiad unigol yn erbyn y dangosyddion llesiant cenedlaethol. Mae’r tudalennau dilynol yn darparu crynodeb o’r canlyniadau yma.

### Perfformiad Cynllun Busnes

Mae ein perfformiad cynllun busnes yn cael ei monitro triwyr Bwrdd Perfformiad, ac ar sail gyfredol, gan y Grŵp Arweiniol. Ar ddiwedd 2022/23 mae ein perfformiad yn dangos bod 72% o’n mesurau ar darged a 71% o’n hamcanion naill ai’n gyflawn neu’n unol â’r amserlen (gweler y siartiau isod ar y chwith). Mae'r mesurau a'r amcanion oddi ar y targed yn cael eu craffu'n fanylach gan y Bwrdd Perfformiad a'r Grŵp Arweiniol.




| | | |
|---|---|---|
| Ar targed: | 117 | (72%) |
| Oddi ar y targed gan llai na 15%: | 26 | (16%) |
| Oddi ar y targed gan mwy na 15%: | 20 | (12%) |





| | | |
|---|---|---|
| Ar amser / wedi cwblhau: | 206 | (71%) |
| Ar y gweill ond ar ei ôl hi: | 75 | (26%) |
| Heb cychwyn / heb cwblhau: | 9 | (3%) |

### Gwerth am Arian


Gall Gwerth am Arian cael i’w diffinio fel y perthynas rhwng yr Economi, Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd. Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd. Mae’n term sy’n cael i’w denfyddio i asesu os bod y Cyngor wedi cael y budd mwyaf o'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n eu caffael ac yn eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adnoddau cyfyngedig sy'n wynebu'r Cyngor.

Er enghraifft, mae dau fesur effeithlonrwydd allweddol, sef casglu Treth y Cyngor ac ardrethi Annomestig (busnes), yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd o hyd, er bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar gyfraddau casglu yn genedlaethol.


Cyfraddau casglu'r dreth gynor





Treth gyngor band D gyfartalog




Cyfraddau casglu ardrethu annomestig




Gwariant alldro refeniw




Mae'r Dreth Gyngor Band 'D' gyfartalog, a ddefnyddir yn aml fel cymharydd rhwng gwahanol Siroedd, yn dangos bod cyfraddau presennol ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ledled Cymru sef £1,908, tra bod ein harbedion cronnol a wnaed dros y deng mlynedd diwethaf yn gwneud cyfanswm o £60m drwy ailstrwythuro, prosiectau ailgynllunio a thrawsnewid gwasanaethau. Roedd gwariant alldro refeniw y pen yn £2,843 am y flwyddyn lawn ddiwethaf a gwariant a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol 2023/24 yn £3,173.

### Mesuriadau Perfformiad Alweddol

Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion perfformio i fonitro pa mor dda mae ein gwasanaethau yn perfformio wrth gyrraedd anghenion defnyddwyr gwasanaeth ac er mwyn mesur effeithlonrwydd a gwerth am arian.

Maent yn mesur perfformiad ar draws ystod eang o wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys: rheolaeth ariannol, addysg, tai, gwasanaethau hamdden, rheolaeth gwastraff a glanhau strydoedd. Mae'r tudalennau dilynol (49-50) yn darparu detholiad o'r mesuriadau yma, yn dangos perfformiad y Cyngor i gymharu â'i chymdogion agosaf yn rhanbarthau canolbarth a de canolbarth Cymru. Mae'r data a darparwyd yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn llawn ddiwethaf ac mae'r cyfnod amser wedi nodi ar bob siart unigol.




### Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru

Mae'r 46 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol wedi'u cynllunio i gynrychioli'r canlyniadau i Gymru a'i phobl a fydd yn helpu i ddangos cynnydd tuag at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol.
Nid ydynt yn ddangosyddion perfformiad yn benodol ar gyfer y Cyngor, maent yn ganlyniadau sirol, y mae'r Cyngor, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, yn cyfrannu atynt. Fodd bynnag, rydym yn adolygu cyfraniad Ceredigion at y dangosyddion hyn o bryd i'w gilydd. Cynhaliwyd yr olaf o'r ymarferion hyn yn 2022 fel Atodiad 9 Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022.


Mae adroddiad blynyddol 'Llesiant Cymru' yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yng Nghymru tuag at gyflawni'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol sy'n tynnu ar ganlyniadau'r dangosyddion cenedlaethol diweddaraf.


### Cynlluniau i'r Dyfodol


Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda Data Cymru a phob un o'r 21 o gynghorau eraill ledled y wlad i gefnogi datblygiad yr Offeryn Data Hunanasesu newydd. Mae'r Offeryn, a ddatblygwyd gan Data Cymru, yn darparu mynediad i ystod eang o ddata perfformiad ar draws gwasanaethau llywodraeth leol.

Bydd gwaith pellach yn digwydd yn ystod 2023 a 2024 i gryfhau'r mesurau a llenwi bylchau mewn data megis asesu gwerth am arian, rheoli asedau ac ymgynghori.

# MESURIADAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL




Tudalen 123


Continued overleaf ▶

# MESURAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL

## Tipio Anghyfreithlon

**Nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth (2021/22)**


▼ Nifer




## Dysgu Cymunedol

Nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer dysgu cymunedol awdurdod lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth (2021/22)


▼ Nifer




## Cwnsela Ysgol

Nifer y plant a phobl ifanc a gafodd gwnsela yng Nghymru fesul 1,000 o'r boblogaeth 10-18 oed (2021/22)


▼ Nifer




## Prentisiaethau

Nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni prentisiaeth fesul 1,000 o'r boblogaeth (2021/22)


▼ Nifer




## Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Gadawyr ysgol Blwyddyn 13 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (2022)


▼Canran




## Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Canran yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (2021-22)

▼ Canran





Tudalen 124

## Cwynion a Dderbyniwyd gan yr Awdurdod Lleol

Nifer y cwynion a dderbyniwyd fesul 1,000 o drigolion (2022/23)


▼ Nifer




## Cinio Ysgol Am Ddim

**Canran y disgyblion cymwys a fanteisiodd ar y cynnig o brydau ysgol am ddim (2021/22)**


▼ Canran




## Casglu Treth y Cyngor

Canran Treth y Cyngor a gasglwyd (2022-2023)


▼ Canran



# MESURAU CYMUNEDOL EHANGACH


## Goroesi Busnes

**Canran goroesi 1 flwyddyn o fentrau newydd yn 2020**
(Demograffeg Busnes 2021, ONS)
▼ Canran





## Iechyd Cyffredinol

**Canran y boblogaeth sydd mewn iechyd da neu dda iawn**
(ONS Cyfrifiad 2021)
▼ Canran





## Boddhad gyda'r Ardal Leol

Canran yr oedolion (16+) sy'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw
(Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-2022)
▼ Canran





## Cyfradd Cyflogaeth

**Cyfradd cyflogaeth Ionawr 2022 i Rhagfyr 2022**
(ONS Arolwg Poblogaeth Blynyddol)
▼ Canran





## Ymddygiadau Iach

**Canran y bobl sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach**
(Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 a 2022/23)
▼ Canran





## Cydlyniant Cymunedol

**Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch**
(Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22)
▼ Canran





## Diweithdra

**Cyfradd ddiweithdra Ionawr 2022 i Rhagfyr 2022**
(ONS Arolwg Poblogaeth Blynyddol)
▼ Canran





## Sgiliau a Chymwysterau

**Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i Lefel 2 neu uwch (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2022)**
▼ Canran




## Gwneud Penderfyniadau

**Canran y bobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardaloedd lleol**
(Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22)
▼Canran



## Dweud eich dweud

Rydym yn croesawu eich barn ar yr adroddiad hwn a pherfformiad y Cyngor. Cysylltwch unrhyw bryd.

# Cysylltwch â Ni


**Post:**

Cyngor Sir Ceredigion

Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Ffôn :**

01545 570881


Mae Fersiwn **Testun Plaen** neu Fersiwn **Hawdd ei Ddarllen** o'r ddogfen yma ar gael o Gyngor Sir Ceredigion

www.ceredigion.gov.uk

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda ddydd Dydd Llun, 11 Medi 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Gwyn Wigley Evans, Endaf Edwards
**YN BRESENNOL YN RHITHWIR:** Y Cynghorwyr Chris James, Caryl Roberts, Marc Davies, Rhodri Evans, Wyn Evans.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod o’r Cabinet.
Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod o’r Cabinet.
Y Cynghorydd Alun Williams, Aelod o’r Cabinet (Yn rhithwir).
Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod o’r Cabinet (Yn rhithwir).

**AELODAU NAD YDYNT AR Y PWYLLGOR YN BRESENNOL YN RHITHWIR:** Y Cynghorydd Hugh Hughes.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil, Tim Bray, Rheolwr Argyfyngau Sifil Posibl a’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu, Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu, Llinos Williams a Lliwen Jones, Cyfieithwyr.

(9.30 am - 12.00 pm)

**9 Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod.
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Ceris Jones ac Elaine Evans am na allent fynychu'r cyfarfod.

**10 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae’n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

Dim.

**11 Adroddiad Diogelu Gr?p Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 4 2022/23**

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 4, rhwng y cyfnod 1af Ionawr i 31ain Mawrth 2023, 2022/23.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Alun Williams, Aelod o'r Cabinet, i roi crynodeb o'r pwyntiau allweddol, a oedd fel a ganlyn:

Crynodeb o'r pwyntiau Allweddol:

- Yn Chwarter 4, roedd gostyngiad yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch plant/pobl ifanc o'i gymharu â Chwarter 3 gyda 1112 o gysylltiadau/adroddiadau wedi'u derbyn yn Chwarter 3 o'i gymharu â 1010 o gysylltiadau/adroddiadau yn Chwarter 4.
- Fodd bynnag, roedd cynnydd yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a aeth ymlaen i gymryd camau o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant o 193 yn Chwarter 3 o'i gymharu â 200 yn Chwarter 4.
- Canran yr adroddiadau a aeth ymlaen i Drafodaeth Strategaeth yn y chwarter hwn oedd 19.8% o'i gymharu â 17.3% yn Chwarter 3.
- Yn Chwarter 3, aeth 7.3% o adroddiadau ymlaen i Ymholiad Adran 47 o'i gymharu ag 8.4% yn Chwarter 4. Yn y chwarter hwn, roedd angen i 1.6% o adroddiadau a dderbyniwyd fynd ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant, sef yr un ganran a aeth ymlaen i gynhadledd yn Chwarter 3.
- Cyfanswm y plant sy'n destun Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant yn Chwarter 4 oedd 23, ac mae hyn yn cymharu â 35 yn Chwarter 3.
- Cyfanswm y plant a gafodd eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn Chwarter 4 yn dilyn y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant oedd 20 o'i gymharu â 31 yn Chwarter 3.
- Cyfanswm y plant a gafodd eu dileu o'r gofrestr ar ôl Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn oedd 15 o'i gymharu â 28 yn Chwarter 3.
- Cyfanswm yr Ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y chwarter hwn oedd 85 o'i gymharu ag 81 yn Chwarter 3. Cafodd 70 o'r ymholiadau hyn eu cynnal ar y cyd â'r Heddlu, a chafodd 25 eu cynnal fel un Asiantaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Y prif gategori o gam-drin a arweiniodd at ymholiad Adran 47 yn Chwarter 4 oedd cam-drin corfforol (32), cam-drin/cam-fanteisio rhywiol (24), cam-fanteisio arall (11), esgeulustod (9) a cham-drin emosiynol (8). Mae hyn yn dilyn yr un patrwm a welwyd yn Chwarter 3.
- Roedd 52 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd y chwarter hwn, o'i gymharu â 49 ar ddiwedd Chwarter 3. Roedd 22 o blant wedi'u cofrestru o dan y categori cam-drin emosiynol/seicolegol yn y chwarter hwn, 26 o dan y categori

esgeulustod a 4 o dan y categori esgeulustod a cham-drin emosiynol/seicolegol.

- Y prif ffactorau risg ar gyfer y 52 o blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31/03/23 oedd cam-drin domestig, iechyd meddwl rhieni, rhieni'n camddefnyddio sylweddau/alcohol a rhieni'n gwahanu.
- O ran Diogelu Oedolion, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso, gyda 190 o oedolion mewn perygl wedi'u hadrodd yn y chwarter hwn o'i gymharu â 142 yn Chwarter 3.
- Unwaith eto, y categori cam-drin yr adroddwyd amdano fwyaf y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol/seicolegol, gyda 97 o adroddiadau o oedolion mewn perygl lle mai hwn oedd y prif gategori o gam-drin. Esgeulustod oedd yr ail brif gategori o gam-drin a adroddwyd (66), yna cam-drin corfforol (62), cam-drin ariannol (40), a cham-drin rhywiol (24). Mae hyn yn dilyn patrwm y chwarter blaenorol.
- O'r adroddiadau a dderbyniwyd, mewn perthynas â phob categori o gam-drin, adroddir mai menywod sy'n wynebu'r risg fwyaf, a hynny o gryn dipyn. Fodd bynnag, o ran pryderon ynghylch esgeulustod, roedd mwy o wrywod (36) yn cael eu heffeithio gan y categori hwn o gam-drin na merched (30), sydd yn wahanol iawn i'r chwarteri blaenorol.
- Yn Chwarter 4, fel yn Chwarter 3, yr Heddlu oedd y ffynhonnell fwyaf o adroddiadau (46).

Yna atebodd Elizabeth Upcott, Rheolwr Tîm, y cwestiynau a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaethau, nodwyd y canlynol:

- Ymhellach i gwestiwn ynglŷn â'r cynnydd yn nifer y cyfarfodydd a gynhelir, cadarnhawyd gan eu bod yn gyfarfodydd Statudol ac felly bod yn rhaid eu cynnal. Gyda sawl asiantaeth ynghlwm gall hyn weithiau atal uwchgyfeirio ac arbed adnoddau yn yr hirdymor.

Cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch gyda'r Awdurdod Lleol, fel bod gwaith llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner yn cael ei fonitro.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Alun Williams, Aelod o'r Cabinet ac Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, am fynychu a chyflwyno yng nghyfarfod y bore 'ma.

**12 Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad drafft a Fframwaith Rheoli Perfformiad**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies yr adroddiad ynghylch y Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad Drafft a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad. Roedd Rob Starr, Rheolwr Ymchwil a Pherfformiad, Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, ac Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, hefyd yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn cryfhau ei ddull o reoli perfformiad corfforaethol fel rhan o'i "siwrnai" barhaus o ran perfformiad. Mae wedi:

- Cyflwyno proses newydd symlach o gynllunio busnes,
- Cyflwyno dangosfyrddau perfformiad newydd i fonitro'r cynnydd - ar sail cynlluniau busnes lefel 1 - drwy'r Bwrdd Perfformiad,
- Adfywio System Berfformio Teifi,
- Diweddaru'r broses o reoli perfformiad yn dilyn COVID-19 er mwyn cynnwys "ymarfer myfyriol" fel elfen graidd.

Adlewyrchir hyn yn yr adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan Archwilio Cymru i ddull y Cyngor o reoli perfformiad.

Mae deddfwriaeth ddiweddar, ar ffurf y drefn berfformio newydd sy'n seiliedig ar Hunanasesu, hefyd wedi golygu bod angen ffordd newydd o asesu ein perfformiad cyffredinol. Llwyddwyd i gyflwyno proses Hunanasesu newydd yn 2022/23 a chyhoeddwyd Adroddiad Hunanasesu cyntaf y Cyngor ym mis Ionawr 2023.

Ar ôl cyflwyno'r prosesau newydd hyn mae'r Cyngor bellach mewn sefyllfa i dynnu'r rhain ynghyd i greu dogfen ddrafft Fframwaith Rheoli Perfformiad. Ystyrir bod Fframwaith Rheoli Perfformiad yn arfer da ac mae'n esbonio:

- Sut mae'r broses gorfforaethol o reoli perfformiad yn gweithio,
- Sut mae'r prosesau unigol yn cyd-fynd â'i gilydd i gefnogi cynllunio corfforaethol
- Sut mae rheoli perfformiad yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a chanlyniadau gwell.

Mae nod dwbl i'r Fframwaith.

1) darparu dull safonol i'r Cyngor o reoli perfformiad a,
2) fel rhan allweddol o'r trywydd archwilio i ddangos bod gan y Cyngor drefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith.

Mae Datganiad y Polisi Rheoli Perfformiad yn cyd-fynd â'r Fframwaith Perfformiad. Mae'r Datganiad yn nodi prif egwyddorion y Cyngor o ran rheoli perfformiad ac yn ystyried y ddeddfwriaeth newydd ac arfer da. Yn benodol, mae'n tynnu sylw at rôl hanfodol rheoli perfformiad wrth wella'r canlyniadau i bobl a chymunedau Ceredigion ac wrth ategu'r gwaith o lunio polisïau a dod i benderfyniad ar sail tystiolaeth.

Yn dilyn trafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Perfformiad yn parhau.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod mesurau perfformiad monitro cyfyngedig yn eu lle, ac yn parhau i fod, gyda chymariaethau gan Awdurdodau Lleol cyfagos ac Awdurdodau Lleol o faint tebyg.
- Yn dilyn cwestiwn, cadarnhawyd bod y Mesurau Atebolrwydd Perfformiad cenedlaethol blaenorol bellach wedi darfod yn dilyn cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fodd bynnag, mae Data Cymru yn arwain prosiect i ddisodli'r mesurau gyda Theclyn Data Hunanasesu newydd a fydd yn rhoi data meincnodi cenedlaethol. Bydd gwaith pellach yn parhau i ddatblygu'r teclyn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac mae Ceredigion yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r prosiect.

Cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:

- Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad drafft a'r Ffframwaith Rheoli Perfformiad.

Er mwyn mabwysiadu Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad diweddaredig a Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n amlinellu'r prif egwyddorion ar gyfer rheoli perfformiad yn y Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd y Cyngor a'r Swyddogion am yr adroddiad ac am y gwaith da parhaus.

13 **Offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig**

Roedd y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod o'r Cabinet, yn bresennol i gyflwyno offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig Cyngor Sir Ceredigion. Roedd Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant hefyd yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau oedd yn codi.

Eglurodd y Cynghorydd Davies fod offeryn Asesiad Effaith Integredig Cyngor Sir Ceredigion wedi'i gynllunio i helpu swyddogion ac aelodau etholedig i ystyried effaith polisi, strategaeth neu wasanaeth newydd neu ddiwygiedig. Mae'n asesiad integredig sy'n galluogi swyddogion y Cyngor ac aelodau etholedig i wirio bod ein penderfyniadau yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor, yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys ein dyletswydd economaidd-gymdeithasol, ac yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014. Mae'r offeryn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion y Cyngor ystyried a ydynt wedi cynllunio eu cynnig yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi rheoli unrhyw risg sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn gosod gofynion ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus. Rhaid i Gyngor Sir Ceredigion feddwl hefyd am yr angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt, ac annog cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd

warchodedig a’r rhai nad ydynt. Ymdrinnir â’r gofynion hyn yn yr adran ‘Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru fwy cyfartal’ yn y templed. Dyluniwyd yr offeryn presennol dros bum mlynedd yn ôl ac mae wedi’i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig, a bod gweithdy ynghylch ei ddefnyddio yn cael ei gynnig i bob Aelod Etholedig.

**14 Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft Ceredigion 2024-28**

Cyflwynodd y Cynghorydd M S Davies, Aelod o’r Cabinet, Gynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft Ceredigion 2024-28. Roedd Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant, yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau oedd yn codi.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gorff cyhoeddus penodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb Penodol Sector Cyhoeddus Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb ac yna eu hadolygu bob pedair blynedd. Rhaid cyhoeddi’r amcanion diwygiedig ar gyfer 2024-28 a’r cynllun gweithredu cysylltiedig erbyn 31ain Mawrth 2024.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:

- cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2024-28 cyn iddo fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod gaeaf 2023.

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2024-28 arfaethedig yn datblygu nod y Cyngor o fynd i’r afael ag anghydraddoldeb, cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rheini nad ydynt yng Ngheredigion.

**15 Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-23**

Cyflwynodd y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod o’r Cabinet yr Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-23. Roedd Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant, yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau oedd yn codi.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ystyried anghenion pob unigolyn wrth gyflawni ein gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Penodol i Gymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol, rhaid adolygu'r rhain bob pedair blynedd. Mae hybu a defnyddio’r Gymraeg wedi’i nodi ym Mesur y Gymraeg 2011, yn hytrach na’r Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, rydym yn ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb fel bod ein hagwedd at anghenion cyfathrebu pob cymuned yn cael ei chydlynu. Mae cynllun gweithredu yn sicrhau bod

Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-24 yn cael ei gyflawni, wedi'i grwpio o dan bum Amcan Cydraddoldeb, sef:

1. Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol
2. Meithrin Perthynas Dda a Mynd i'r Afael â Rhagfarn
3. Ymgysylltu a Chyfranogi
4. Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau
5. Addysg Deg a Chynhwysol

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch dogfennau PDF sy'n cael eu harddangos ar Wefan y Cyngor, cadarnhaodd Cathryn Morgan na all rhaglenni darllen sgrin a ddefnyddir gan rai pobl ag amhariad ar eu golwg ddarllen cynnwys y ddogfen, ac mai'r arfer orau yw rhoi gwybodaeth yn uniongyrchol ar y dudalen we yn hytrach na lanlwytho dogfen ar ffurf pdf.
- Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â phobl anabl yn nodi nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r arfordir, cadarnhawyd bod dwy gadair olwyn yn y Sir ar hyn o bryd, un ar gael yng Ngheinewydd. Fodd bynnag, mae angen ymchwilio ymhellach i hyn.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:

- Cael a chymeradwyo Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2022-23.

Mae'n ofynnol yn ôl Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus bod yr Awdurdod yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blynyddol ar gyfer 2022/23 a'i gyhoeddi ar y wefan allanol erbyn 31/03/24.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod o'r Cabinet, a Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant, am gyflwyno'r adroddiadau uchod.

**16 Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2023 ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2023**

Roedd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, yn bresennol i gyflwyno'r Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2023 ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2023.

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'r holl awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru, adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chyhoeddi gwybodaeth am y gweithlu yn flynyddol.

Mae'r gofyniad i adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i wneud chwe chyfrifiad ynglŷn â'r gweithlu ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata a gymerwyd am y gweithle ar 31 Mawrth 2023.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:

1. Cael Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2023,
2. Cael Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2023.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor, a Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, am gyflwyno'r adroddiad.

**17 Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Hazel Lloyd-Lubran, Prif Weithredwr, CAVO, i'r cyfarfod a'i llongyfarch ar ei phenodiad diweddar yn Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Roedd Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, a Tim Bray, Swyddog Argyfyngau Sifil Posibl a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, hefyd yn bresennol.

Cyflwynodd Mrs Hazel Lloyd-Lubran, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin y 13eg 2023 yn amlinellu'r prif flaenoriaethau a'r gwaith sy'n mynd rhagddo.

**Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i:**

- Gael cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 13eg Mehefin 2023.

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**18 Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Matthew Vaux, Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol a Tim Bray, Swyddog Argyfyngau Sifil Posibl a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gyfrifol am gwblhau Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn ac am roi Strategaeth Diogelwch Cymunedol ar waith ar gyfer y Sir. Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn awgrymu y dylai'r Asesiad Strategol gynnwys data a sylwebaeth oddi wrth y cyhoedd a'r holl asiantaethau sy'n bartneriaid ac y dylid defnyddio'r wybodaeth hon wrth lunio'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae'r Asesiad Strategol yn cynnwys data rhwng 1 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2022 (gan gynnwys y dyddiad hwnnw) ac felly ceir blwyddyn gyfan o ddata i'w ddadansoddi.

Paratowyd holiadur cynhwysfawr a'i ddosbarthu'n eang yn y gymuned. Roedd yr holiadur hwn yn un dwyieithog ac ar gael ar ffurf papur. Hefyd, roedd modd ymateb drwy ffurflen electronig ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Ar ben hyn, rhoddwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ac anfonwyd datganiadau at y cyfryngau er mwyn cyfeirio'r cyhoedd at yr ymarfer ymgysylltu a'u hannog i gymryd rhan.

Er mwyn sicrhau sylfaen tystiolaeth ehangach a chefnogi'r holiadur, cafodd data hefyd ei gasglu o nifer o ffynonellau perthnasol. Yn adroddiad yr Asesiad Strategol ystyriwyd y data ychwanegol ochr yn ochr â'r ymatebion i'r holiadur. Roedd hyn yn gyfle i gymharu canfyddiadau'r cyhoedd ac ofn troseddau â data empirig o ran troseddau a'r ffigurau ynghylch ymwneud pobl â'r gwasanaeth.

Yng nghyfarfod Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a gynhaliwyd ar Fehefin y 19$^{eg}$ 2023, cytunwyd ar gyfres o flaenoriaethau yn seiliedig ar adolygiad o'r dystiolaeth a gasglwyd. Cytunwyd y dylid rhannu'r blaenoriaethau i ddau gategori: Y Blaenoriaethau o ran Troseddau a'r Blaenoriaethau o ran Teimlo'n Ddiogel.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i:

1. Nodi canfyddiadau Asesiad Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol
2. Nodi'r blaenoriaethau o ran Troseddau a Theimlo'n Ddiogel a fydd yn rhan o Strategaeth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2023-2024

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Vaux, Aelod o'r Cabinet a'r Swyddogion am fynychu'r cyfarfod.

**19 Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu**

Cyflwynodd Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu, yr adroddiad blynyddol ar ran Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu yn amlinellu'r prif faterion a ystyriwyd gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod 2022/2023. Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar y dudalen we ynghylch Trosolwg a Chraffu ar wefan y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Bu cryn dipyn o Graffu yn ystod y cyfnod adrodd. Llongyfarchwyd y Cadeiryddion am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad a ganlyn:

- Nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad cyn i'r adroddiad cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 21 Medi 2023.

Er mwyn bodloni'r gofyniad statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol am y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

**20 Hunanwerthuso'r trefniadau craffu**

Cyflwynodd Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu, adroddiad Hunanwerthuso'r trefniadau Craffu.

Yn 2018, cytunwyd y byddai'r Swyddogion Craffu yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau Trosolwg a Chraffu yng Nghyngor Sir Ceredigion ac y byddai hyn yn cael ei wneud bob blwyddyn yn y dyfodol. Adolygwyd y broses yn 2020 a chytunwyd i wneud y canlynol:

1. Parhau i gynnal yr arolwg yn flynyddol.
2. Lleihau nifer y cwestiynau gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad.
3. Adolygu fformat yr adroddiad, cyfuno'r ymatebion Cymraeg a Saesneg, a chyfieithu'r ddogfen yn ei chyfanrwydd. Ar gyfer adolygiad 2022-23, gwahanwyd ymatebion Aelodau Cabinet ac Aelodau Craffu. Derbyniwyd cyfanswm o 15 o ymatebion, mae hyn yr un faint â nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn 2021, ond yn ostyngiad o'i gymharu â'r 25 ymateb a dderbyniwyd yn 2020. Ni chynhaliwyd adolygiad yn 2022 oherwydd yr etholiadau. Ni ddatgelir enwau aelodau.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i'r Aelodau:

- Ystyried yr ymatebion a ddaeth i law o'r holiadur hunanwerthuso a nodi unrhyw feysydd i'w gwella os oes angen.

Er mwyn sicrhau swyddogaeth trosolwg a chraffu effeithiol.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r ymatebion fel y'u dangosir yn Atodiadau A a B papurau'r agenda.

**21 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod Cydlynu a gynhaliwyd ar Fai'r 22$^{ain}$ 2023 fel cofnod cywir o'r trafodion.

Gofynnodd y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans i ba Bwyllgor y byddai adroddiad Caffael yn cael ei gyflwyno. Eglurodd Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu, fod y Pwyllgor Cydlynu wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ymchwilio i Gaffael yn 2019, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar Ionawr yr 22$^{ain}$ 2019. Eglurodd y byddai'n dibynnu ar beth yw'r materion yr hoffai'r aelodau graffu arnynt pa Bwyllgor y byddai'n ymchwilio iddynt. Cytunwyd felly ar ôl cael y Strategaeth Caffael a Chomisiynu a oedd i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar Hydref

y 19eg 2023, y byddai trafodaeth bellach yn cael ei chynnal mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cydlynu gyda'r Cadeiryddion yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i Gadeiryddion drafod hyn gydag Aelodau eu Pwyllgorau.

**22 Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft**

Rhoddodd pob Cadeirydd yn ei dro ddiweddariad ar Flaengynlluniau Gwaith eu Pwyllgorau.

1. Pwyllgor Cydlynu
Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar gynllun gwaith y Pwyllgor Cydlynu ar gyfer y dyfodol.
2. Adnoddau Corfforaethol
Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â chynllun gwaith Adnoddau Corfforaethol yn y dyfodol.
3. Cymunedau Iachach
Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â chynllun gwaith Cymunedau Iachach yn y dyfodol.
4. Cymunedau Ffyniannus
Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â chynllun gwaith Cymunedau Ffyniannus yn y dyfodol.
Mynegodd y Cadeirydd ei siom gydag ansawdd y sain yng nghyfarfod mis Gorffennaf pan fynychodd cynrychiolwyr o Dŵr Cymru y cyfarfod rhithwir a gofynnodd i hyn gael ei ymchwilio.
Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ymweld â Chanolfan Fwyd Horeb ac Ystâd Ddiwydiannol Glanyrafon.
Cytunwyd i ofyn am adroddiad ar Dorri Gwair/Cloddiau a diweddariad ar y Gyllideb i'w roi ar y Blaengynllun Gwaith.
5. Cymunedau sy’n Dysgu
Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â chynllun gwaith Cymunedau sy'n Dysgu yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor, Aelodau o’r Cabinet, Swyddogion am fynychu a daeth y trafodion i ben am hanner dydd.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 6 Tachwedd 2023**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Cydlunu Trosolwg a Chraffu**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **6 Tachwedd 2023**

**Teitl:** **Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/2024**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Adolygu Rhaglen waith bresennol y Pwyllgor**

**Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**
**Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod**

**Cefndir:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor

- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**<u>Y Sefyllfa Gyfredol:</u>**
**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Na

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:**
**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**
**Integreiddio:**

**<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>**
**Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.**

**<u>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**

**<u>Enw Cyswllt:</u>** Lisa Evans

**<u>Swyddogaeth:</u>** Swyddog Safonau a Craffu

**<u>Dyddiad yr adroddiad:</u>** 30/10/23

**<u>Acronymau:</u>**

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2023/24

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cydlynu*** | | | |
| 22 Mai 2023 | Dyletswydd Trais Difrifol<br><br>Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a chyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023<br><br>Adroddiad ar ddefnydd yr Awdurdod o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)<br><br>CYSUR / CWMPAS | | |
| 11 Medi 2023 | Fframwaith rheoli perfformiad<br><br>Adolygiad IIA<br><br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 24-28<br><br>Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol<br><br>Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2023 ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2023<br><br>Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Canlyniad Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn 2023 a gynhaliwyd gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol<br><br>CWMPAS/CYSUR<br><br>Adroddiad Blynyddol craffu<br><br>Hunanwerthuso’r trefniadau craffu | | |
| 6 Tachwedd 2023 | Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Adroddiad Hunan-asesiad<br><br>CWMPAS / CYSUR | Timothy Bray<br><br>Rob Starr<br><br>Elizabeth Upcott | |
| 19 Chwefror 2024 | Cyllideb | | |
| 4 Mawrth 2024 | Diweddariad RIPA<br><br>Chwythu'r chwiban<br><br>Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gweithredol Diogelu Rhanbarthol<br><br>CYSUR /CWMPAS<br><br>Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Elin Prysor<br><br>Elin Prysor<br><br>Ricky Cooper<br><br>Elizabeth Upcott<br><br>Timothy Bray | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd y dyfodol | | | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Adnoddau Corfforaethol*** | | | |
| 12 Mehefin 2023 | Trefi SMART<br><br>Diweddariad Cysylltedd Digidol<br><br>Adroddiad Blynyddol Cynllun Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-23 | Arwyn Davies<br><br>David Owen<br><br>Cathryn Morgan | Ar gais y Cadeirydd<br><br>Ar gais y Cadeirydd |
| 19 Gorffennaf 2023 | Polisi'r Menopos<br><br>Cynllun y Gweithlu<br><br>Diweddariad ar weithio'n Hybrid<br><br>Diweddariad ar Clic (wedi gofyn am)<br><br>Medium Term Financial Plan (MTFP)<br><br>Strategaeth Caffael a Comisynu | Geraint Edwards<br><br>Geraint Edwards<br><br>Russell Hughes-Pickering/Geraint Edwards<br><br>Joy Lake/Anna Gawthorpe<br><br>Duncan Hall<br><br>Duncan Hall | Cyn Cabinet<br><br>Cyn Cabinet<br><br>Ar gais y Pwyllgor |
| 19 Hydref 2023 | I Ethol is-gadeirydd ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2023/2024 I gychwyn yn syth<br><br>Mynd i'r Afael â Chaledi<br><br>Adroddiadau Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth<br><br>Diweddariad ar y contract Bancio | Cathryn Morgan<br><br>Marie Niege-Hadfield<br><br>Duncan Hall | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7 Rhagfyr 2023 | Adroddiad cynnydd ar y Cynllun Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-23 | Cathryn Morgan | Cytunwyd yng nghyfarfod Mehefin |
| 22 Ionawr 2024 - ARBENNIG | Gwahodd Peter Williams WG a Openreach i diweddaru'r Pwyllgor ar y gwaith yng Ngheredigion<br><br>Adroddiad hanner blwyddyn ar canmoliaeth, cwynion, rhyddid gwybodaeth pob gwasanaeth<br><br>Strategaeth Digidol a ICT<br><br>Stratgaeth Caffael a Comisiynu | <br><br><br><br>Marie-Niege Hadfield<br><br><br><br>Alan Morris<br><br>Duncan Hall/George Ryley | <br><br><br><br><br><br><br><br>Cyn-Cabinet<br><br>Cyn-Cabinet |
| 9 Chwefror 2024, 1:30 | Paratoi ar gyfer y Gyllideb | | |
| Cyfarfod arbennig i'w drefnu Diwedd Chwefror/dechrau Mawrth 2024 | Polisi Gwyliau Blynyddol a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith<br><br>Gweithio'n hyblyg gan gynnwys Polisi Gweithio'n Hybrid<br><br>Polisi Absenoldeb | Geraint Edwards | Cyn-Cabinet |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16 Mai 2024 | Diweddariad ar Treth y Cyngor a Diwygio Lles | Ann Ireland | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | • Adroddiad ar yr Ystad Corfforaethol | | |
| Grwp Gorchwyl a Gorffen | Ffermydd y Sir – yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd. Cyfarfod nesaf 8.11.23 yn y Siambr – nid yw'r cyfarfod yma yn gyhoeddus | | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Iachach*** | | | |
| 24 Mai 2023 | Adroddiad CSSIW a'r Cynllun Gweithredu<br><br>Diweddariad ar Gofal Cartref<br><br>Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru<br><br>Trefniadau mabwysiadu ar y cyd | Audrey Somerton-Edwards<br><br>Donna Pritchard<br><br>Iwan Davies/Elen James<br><br>Audrey Somerton-Edwards | Ar gais y Pwyllgor<br><br>Cyn-Cabinet |
| 3 Gorffennaf 2023 | Recriwtio/Cadw staff Gydol Oes a Llesiant<br><br>Taliadau Uniongyrchol<br><br>Adroddiad ar y Gofrestr Tai | James Starbuck<br><br>Donna Pritchard<br><br>Llyr Hughes/Cerys Purches-Phillips | Ar gais y Pwyllgor<br><br>Ar gais y Pwyllgor<br><br>Ar gais y Pwyllgor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 Medi 2023 | Strategaeth Tai<br><br>Cynllun Gweithredu Dementia<br><br>IRO | Llyr Hughes<br><br>Donna Prtichard<br><br>Elizabeth Upcott | Cyn-Cabinet<br><br>Cyn-Cabinet<br><br>Cyn-Cabinet |
| 22 Tachwedd 2023 | Adroddiad ynghylch arolygiadau safonau bwyd ac arolygiadau ffermydd<br><br>Anifeiliaid fel Gwobrau<br><br>Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) adroddiad arolygiad – monitor 6 mis<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23<br><br>Gwasanaethau Seibiant a Gwasanaethau Dydd<br><br>IRO | Carwen Evans<br><br>Heddwyn Evans<br><br>Ricky Cooper<br><br>Audrey Somerton-Edwards<br><br>Donna Pritchard<br><br>Elizabeth Upcott | Cais gan y Pwyllgor<br><br>Cyn-Cabinet |
| 8 Chwefror 2024, 9:30 | Paratoi'r Gyllideb | | |
| 11 Mawrth 2024 | Gwahodd:<br>Barcud<br>WWHA<br>Caredig | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eitemau agenda ar gyfer y dyfodol | Diweddariad ar y Gwasanaeth Cymorth ac Atal<br><br>Adroddiad Ebrill/Mai 2024 ar yr 15 pwynt y 'Pledge' – Gofal Cartref | Gethin Jones<br><br>Donna Pritchard/Heather West | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2023/24

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| Cymunedau sy’n Dysgu | | | |
| 8 Mehefin 2023 | Cynllun Busnes Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru<br><br>Dogfen trosglwyddo ADY<br><br>Cofnodion cyngor ieuenctid<br><br>Arolygiadau ESTYN | Arweinydd Strategol PACC a'r Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion | Argymhellion<br><br>Argymhellion<br><br>Monitro<br><br>Monitro |
| 6 Gorffennaf 2023 | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant<br><br>E-sgol | Carys Davies<br><br>Gwion Dafydd | Monitro<br><br>Monitro |
| 28 Medi 2023 | Adolygiad ol 16<br><br>Canlyniadau TGAU/ lefel A | | Argymhellion<br><br>Monitro |
| 30 Tachwedd 2023 | Sgiliau Bywyd, Sgiliau Gwaith & Multiply | Mark Gleeson | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Diweddariad 6 mis ar Digonolrwydd Gofal Plant<br><br>Curiclum<br><br>TGAU/Lefel A<br><br>Cofnodion cyfarfod cyngor ieuenctid Ceredigion | Carys Davies<br><br>Gareth Lanagan<br><br>Gwion Dafydd<br><br>Lowri Evans | |
| 22 Chwefror 2024 1.30pm | Cyllideb | | |
| 9 Mai 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Asesiad Digonolrwydd Chwarae<br><br>Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru | | |
| Ffrydiau Gwaith | 1. Sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu darparu'n effeithiol<br><br>2. Sicrhau ecwiti i bob disgybl<br><br>3. Sicrhau is adeiledd effeithiol ac effeithlon i gwrdd â'n blaenoriaethau | | |

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2022/23

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Ffyniannus*** | | | |
| 22 Mehefin 2023 | Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd (o'r gofrestr risgiau)<br><br>Creu Grwp Gweithio Gwasanaeth Gwastraff<br><br>Diweddariad ar lwyth achosion Rheoli Datblygu a Gorfodi | Phil Jones<br>Gwahoddiad i Adnoddau Naturiol Cymru<br><br>Rhodri Llwyd<br><br>Russell Hughes Pickering | O’r gofrestr risgiau<br><br>Adolygiad<br><br>Monitro |
| 31 Gorffennaf 2023 | Adroddiad ar yr opsiwn o ganiatáu 2 awr o barcio am ddim cyn 11am (o’r cyfarfod cyllideb)<br><br>Gwasanaeth Gaeaf<br><br>Trafodaeth ar gynllunio a ffosffadau Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) | <br><br><br><br>Gwahoddiad i Dwr Cymru | Argymhellion<br><br>Adolygiad<br><br>Monitro |
| 23 Hydref 2023 | Parcio<br><br>Canolfan Bwyd Cymru | Gerwyn Jones/Phil Jones<br><br>Arwyn Davies | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 Rhagfyr 2023 | Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau<br><br>Torri Porfa | Gerwyn Jones<br><br>Phil Jones | Polisi |
| 9 Chwefror 2024 | Cyllideb | | |
| 18 Mawrth 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Awgrymiadau:<br>Effaith cynlluniau a ariennir gan grant – beth yw'r effaith, pa mor dda mae arian yn cael ei dynnu i lawr<br><br>Defnydd o le – sut allwn ni ei wneud yn fwy bywiog, cynyddu incwm<br><br>CDLI<br><br>Adolygu strategaeth toiledau cyhoeddus<br><br>Y defnydd a wneir o adeiladau<br><br>Y Polisi Torri Porfa<br>Y berthynas rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru o ran Cynllunio Gwlad a Thref | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymorth i Fusnesau ac Adfywio | | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol